Rhif: WG50236

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

# Plant sy'n Colli Addysg

Rheoliadau Drafft Deddf Plant 2004 Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg (Cymru)

Medi 2024

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-366-2

## Trosolwg

Rhwng 31 Ionawr a 25 Ebrill 2024 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i gasglu barn ar Reoliadau drafft Deddf Plant 2004 Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg (Cymru). Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i baratoi'r adroddiad hwn sy'n cyfuno'r ymatebion a ddaeth i law fel rhan o'r ymarfer ymgynghori.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran Cydraddoldeb mewn Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: TegwchMewnAddysg@llyw.cymru

X @LLC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfennau'r ymgynghoriad: Cronfa ddata plant sy'n colli addysg | LLYW.CYMRU

# Cynnwys

Geirfa ……………………………………………………………………………………5
1. Cyflwyniad ........................................................................................................ 6
2. Adnabod plant nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol a/neu sy’n colli addysg ........................................................................................................ 20
3. Swyddogaethau awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ............ 29
4. Pa mor gymesur a digonol yw'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu .................. 37
5. Systemau a phrosesau amgen a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol ....... 45
6. Manteision ac anfanteision datgelu'r data .................................................... 51
7. Amlder datgelu gwybodaeth a mynediad i wybodaeth ................................ 63
8. Byrddau iechyd lleol ...................................................................................... 74
9. Contractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol ........................................ 80
10. Awdurdodau lleol .......................................................................................... 83
11. Nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg ..................................................... 92
12. Materion eraill a godwyd ............................................................................. 105

## Rhestr o'r tablau


Tabl 1.1: Proffil o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ........ 9

Tabl 1.2: Ardal ddaearyddol o ddiddordeb, ymatebion ar-lein i'r ymgynghoriad ....... 13

Tabl 2.1: Yn eich barn chi, a fydd y gofynion yn y rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd neu blant sy'n colli addysg? ........ 20

Tabl 3.1: A yw'r cynnig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 ........ 29

Tabl 4.1: A ydych yn cytuno bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn rhesymol ac yn gymesur i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg? ........ 38

Tabl 4.2 A ydych yn cytuno bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn ddigonol i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg? ........ 38

Tabl 7.1. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol? ........ 63

Tabl 8.1 A oes unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd a risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw? ........ 74

Tabl 8.2: A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd? ........ 76

Tabl 8.4: A oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o weithgarwch datgelu a phrosesu data? ........ 77

Tabl 9.1: A oes unrhyw risgiau i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw? ........ 80

Tabl 9.2: A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd? ........ 82

Tabl 10.1: Yn eich barn chi (yr awdurdod lleol), a yw eich systemau a'ch prosesau plant sy'n colli addysg presennol yn eich galluogi chi i fod yn hyderus eich bod yn ymwybodol o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ardal yr awdurdod lleol? ........ 83

Tabl 10.2: A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd? ........ 85

Tabl 10.3: A oes unrhyw risgiau i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw? ........ 87

Tabl 10.4: A oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o weithgarwch prosesu? ........ 89

Tabl 10.5: A oes unrhyw oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau a materion technegol mewn perthynas â phrosesu'r data a geir gan fyrddau iechyd lleol? ........ 90

Tabl 11.1: Yn eich barn chi, a allai unrhyw beth yn y rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig? ........ 92

# Geirfa

| **Acronym** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ALl | Awdurdod lleol |
| BILl | Bwrdd Iechyd Lleol |
| BIP | Bwrdd Iechyd Prifysgol |
| CDU | Cynllun Datblygu Unigol |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| CThEF | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| LHDTC+ | Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Pobl sy'n Cwestiynu/Cwiar ac eraill |
| PCA | Plant sy'n Colli Addysg |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Lansiodd Gweinidogion Cymru ymarfer ymgynghori yn gynnar yn 2024 i gasglu barn ar y cynnig i sefydlu cronfa ddata Plant sy’n Colli Addysg (PCA) a’r rheoliadau ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

1.2 Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i baratoi adroddiad yn cyfuno’r ymatebion a ddaeth i law fel rhan o’r ymarfer ymgynghori hwn. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 31 Ionawr a 25 Ebrill 2024 ac mae’r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau’r dadansoddiad, gan gynnwys negeseuon a themâu allweddol a ddaeth i’r amlwg o’r ymatebion i’r ymgynghoriad.

1.3 Mae rhagor o wybodaeth am y strategaeth a'r ymarfer ymgynghori ar gael yma.

**Cefndir yr ymgynghoriad**

1.4 Y fframwaith cyfreithiol cyffredinol ar gyfer y gwaith hwn yw Deddf Plant 2004[1] a gyflwynwyd i ddisodli Deddf Plant 1989, i ymgorffori diogelu plant yng nghyfraith y DU. Mae Adran 29 o Ddeddf Plant 2004 yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a chynnal cronfa ddata o’r holl blant oedran ysgol gorfodol yn eu hardal.

1.5 Gan ddefnyddio’r pwerau yn Neddf Plant 2004, fe wnaeth Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg ar y pryd, gynnig y dylid cyflwyno rheoliadau a fyddai’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal cronfa ddata o’r holl blant oedran ysgol gorfodol, fel ffordd o adnabod plant sy'n colli addysg. Cynigiwyd hefyd y byddai byrddau iechyd lleol yn ogystal ag ysgolion annibynnol yn datgelu gwybodaeth sylfaenol am blant i'r awdurdod lleol perthnasol.

1.6 Diffinnir plant sy’n colli addysg (PCA) fel y rhai o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol, ac nad ydynt yn cael addysg addas y tu allan i’r ysgol (er enghraifft, yn y cartref, yn breifat, neu mewn darpariaeth amgen)

[1] Deddf Plant 2004 (legislation.gov.uk)

ac nad ydynt wedi bod mewn unrhyw ddarpariaeth addysgol am gyfnod sylweddol o amser, sef pedair wythnos neu fwy fel arfer.[2]

1.7 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar fersiwn flaenorol o’r rheoliadau drafft[3] yn gynnar yn 2020. Canfu'r adborth a gasglwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori[4] nad oedd llawer o gefnogaeth i sefydlu cronfeydd data awdurdodau lleol o’r holl blant oedran ysgol gorfodol gan na fyddai hyn o reidrwydd yn helpu i adnabod plant nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol neu sy’n colli addysg yn eu hardal.

1.8 Yng ngoleuni’r adborth a gasglwyd fel rhan o’r ymarfer ymgynghori, diwygiodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer y rheoliadau, a chynigiodd drwy Reoliadau Deddf Plant 2004 Cronfa Ddata Plant sy’n Colli Addysg (Cymru) y dylai awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata o blant a allai fod yn colli addysg, yn hytrach na chronfa ddata o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol[5]. Dim ond gwybodaeth sylfaenol am blant nad ydynt ar gofrestr yr ysgol, sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, neu nad yw'n hysbys eu bod yn cael addysg addas yn y cartref y byddai'r gronfa ddata yn ei chynnwys. Mae’r rheoliadau’n dal i gynnig bod byrddau iechyd lleol yn rhannu gwybodaeth am blant sydd fel arfer yn preswylio yn eu hardal gyda’r awdurdod lleol perthnasol yn flynyddol. Mae’r ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnig y bydd y rheoliadau hyn yn cael eu treialu a’u gwerthuso ar draws nifer fach o ardaloedd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, cyn cael eu cyflwyno ledled Cymru.

**Ynglŷn â'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

1.9 Nod yr ymarfer ymgynghori oedd casglu barn rhanddeiliaid ar gyfanswm o 23 o gwestiynau ansoddol. O blith y rhain, roedd 17 yn cynnwys cwestiwn caeëdig yn ogystal â chwestiwn penagored ac roedd y gweddill yn gwestiynau penagored.

[2] Llywodraeth Cymru (2017) Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/canllawiau-statudol-helpu-atal-plant-phobl-ifanc-rhag-colli-addysg.pdf tud.5
[3] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-01/dogfen-ymgynghori_1.pdf
[4] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-10/cronfeydd-data-addysg-awdurdodau-lleol-crynodeb-or-ymatebion.pdf
[5] https://www.llyw.cymru/cronfa-ddata-plant-syn-colli-addysg-html

1.10 Roedd tair adran o gwestiynau'r ymgynghoriad yn gwestiynau i fyrddau iechyd lleol (Cwestiynau 9-12), contractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol (Cwestiynau 13-14) ac awdurdodau lleol (Cwestiynau 15-19).

1.11 Roedd tri o'r cwestiynau'n ymwneud ag effaith y rheoliadau ar y rhai â nodweddion gwarchodedig (Cwestiwn 20) a'r Gymraeg (Cwestiynau 21 a 22), sy'n gwestiynau gorfodol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob ymarfer ymgynghori.

1.12 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar farn 337 o gyfranwyr. O blith y rhain:

- cyflwynwyd 244 o ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein. Dim ond yn rhannol y cwblhawyd un o'r ffurflenni hyn ond mae wedi'i chynnwys yn y dadansoddiad
- cyflwynwyd 41 drwy'r ffurflen ymateb ysgrifenedig, ac
- roedd 52 yn blant a phobl ifanc a gyfrannodd at drafodaethau grwpiau ffocws wyneb-yn-wyneb.

1.13 Roedd bron pob un o'r 285 o ymatebion ysgrifenedig (ffurflen ymateb ar-lein ac ysgrifenedig) yn dilyn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Ni wnaed hynny mewn pum ymateb a chawsant eu codio gan y tîm ymchwil at ddibenion dadansoddi.

1.14 Mae proffil y rhai a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori i'w weld yn Nhabl 1.1, yn seiliedig ar waith categoreiddio gan Ymchwil OB3. Er nad yw'r gronfa ddata yn bwriadu casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn eu haddysgu yn y cartref, mae'r proffil yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebion unigol wedi'u cyflwyno gan y rhai addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref.

**Tabl 1.1: Proffil o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad**

| Wedi'u categoreiddio gan OB3 | Math o ymatebydd | Nifer |
|---|---|---|
| Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref | Unigolion / Addysgwyr yn y cartref | 225 |
| Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref | Grwpiau addysg yn y cartref | 4 |
| Awdurdod lleol | Awdurdod lleol | 20 |
| Awdurdod lleol | Corff sy'n cynrychioli awdurdod lleol | 1 |
| Rhanddeiliaid iechyd | Byrddau iechyd lleol | 3 |
| Rhanddeiliaid iechyd | Contractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol | 3 |
| Rhanddeiliaid eraill | Rhanddeiliaid addysg | 6 |
| Rhanddeiliaid eraill | Rhanddeiliaid plant a theuluoedd | 5 |
| Rhanddeiliaid eraill | Grwpiau ffydd / seciwlar | 4 |
| Rhanddeiliaid eraill | Arall / trydydd sector | 6 |
| Plant a phobl ifanc | Ymatebion ysgrifenedig gan unigolion | 8 |
| Plant a phobl ifanc | Cyfranogwyr grwpiau ffocws | 52 |
| Cyfanswm | | 337 |

1.15 Daeth cyfanswm o 21 o ymatebion i law gan awdurdodau lleol, gan gynnwys ymateb ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Cyflwynodd dau awdurdod lleol ddau ymateb yr un, felly cyfrannodd cyfanswm o 18 awdurdod lleol gwahanol at yr ymarfer, sef 82 y cant o holl awdurdodau lleol Cymru.

1.16 Cyflwynodd tri o bob saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru ymateb, sy'n gyfradd ymateb o 42 y cant. Cafwyd tri ymateb ychwanegol gan sefydliadau meddygol neu iechyd neu gyrff cynrychioliadol.

1.17 Cafwyd cyfanswm o 225 o ymatebion gan unigolion ac addysgwyr yn y cartref. Er nad oedd yr holl ymatebion hyn yn ymatebion gan addysgwyr yn

y cartref yng Nghymru, yn fras, mae'r atebion yn cynrychioli ychydig dros bedwar y cant o’r holl blant hysbys sy’n derbyn eu haddysg yn y cartref yng Nghymru, sef 5,330 yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23[6].

**Y dull dadansoddi**

1.18 Roedd ein dull dadansoddi yn cynnwys:

- mynychu cyfarfod cychwynnol gyda'r cleient a chael mynediad i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad drwy borth diogel
- paratoi templed dadansoddi pwrpasol ar gyfer yr ymgynghoriad yn Excel a mewnfudo cynnwys yr holl ymatebion i'r templed hwn
- cynnal adolygiad cychwynnol o sampl o ymatebion (30 y cant) i bob un o’r 23 cwestiwn a datblygu fframwaith codio. Dewiswyd y sampl o ymatebion i bob cwestiwn ar hap i sicrhau bod set wahanol o ymatebion yn cael eu hystyried ar gyfer pob un. Roedd y fframwaith codio yn caniatáu i godau cyffredin gael eu nodi ar gyfer labelu ymadroddion a materion allweddol ac fe'i defnyddiwyd fel fframwaith cyffredinol ar gyfer dadansoddiad thematig
- defnyddio’r fframwaith codio i gategoreiddio’r holl ymatebion i’r ymgynghoriad, gan sicrhau bod y dadansoddiad wedi'i gynnal mewn modd cyson, heb ragfarn. Ychwanegwyd themâu newydd a nodwyd yn ystod yr ymarfer hwn at y fframwaith codio
- dadansoddi'r ymateb i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys cyfrif y niferoedd a oedd yn cytuno neu’n anghytuno â'r cwestiynau caeedig yn ogystal â’r niferoedd nad oeddent yn cynnig barn glir. Roedd hefyd yn cynnwys datblygu naratif i roi darlun o'r ymatebion a roddwyd i'r cwestiynau penagored, gan gynnwys trosolwg eang o faint o ymatebwyr a wnaeth bwyntiau penodol ac i ba grŵp o ymatebwyr y maent yn perthyn. Amlygwyd ymatebion cyffredin ar gyfer pob cwestiwn a gwahaniaeth barn

[6] Roedd awdurdodau lleol yn gwybod bod 5,330 o blant a phobl ifanc sy'n dewis derbyn eu haddysg yn y cartref yng Nghymru rhwng mis Medi 2022 a mis Awst 2023 fel y nodir yma: [Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2022 i Awst 2023 | LLYW.CYMRU]

rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr. Mae'r dadansoddiad yn mabwysiadu meini prawf Estyn[7] wrth gyfrif ac adrodd ar yr ymatebion meintiol ac ansoddol a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn:

- bron bob un – gydag ychydig o eithriadau
- y rhan fwyaf – 90 y cant neu fwy
- llawer – 70 y cant neu fwy
- mwyafrif – dros 60 y cant
- hanner - 50 y cant
- tua hanner – yn agos at 50 y cant
- lleiafrif – o dan 40 y cant
- ychydig – o dan 20 y cant
- ychydig iawn/ychydig bach – llai na 10 y cant.

**Ystyriaethau allweddol**

1.19 Mae’n werth myfyrio ar bedair ystyriaeth fethodolegol allweddol sydd wedi llywio’r dadansoddiad hwn.

*Ymatebion dienw*

1.20 Roedd hanner yr ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law (143 o blith 285) yn cynnwys ychydig iawn o wybodaeth neu ddim gwybodaeth o gwbl am yr unigolyn a ymatebodd, sy'n codi cwestiynau am ddilysrwydd yr ymatebion hyn gan y gallent gynnwys ymatebion lluosog gan yr un ymatebydd. O blith y 285 o ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law:

- roedd 45 o ymatebion yn cynnwys dim ond enw cyntaf yr unigolyn, blaenlythyren neu flaenlythrennau, yn ogystal â rhan gyntaf y cod post
- roedd 14 o ymatebion yn cynnwys dim ond enw cyntaf yr unigolyn, blaenlythyren neu flaenlythrennau, a dim manylion cod post

[7] Fel y nodir yma: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-09/Arweiniad%20Ysgrifennu%20Cymraeg%20Medi%202023.pdf

- Roedd 56 o ymatebion yn cynnwys dim ond rhan gyntaf cod post yr unigolyn ond dim gwybodaeth arall fel enw cyntaf, blaenlythyren, neu flaenlythrennau'r unigolyn
- nid oedd 28 o ymatebion yn cynnwys dim gwybodaeth o gwbl, boed yn enw, blaenlythyren neu flaenlythrennau, neu ddigidau cyntaf cod post yr unigolyn.

*Ardal ddaearyddol o ddiddordeb*

1.21 Gofynnwyd i'r 244 o'r rhai a ymatebodd ar-lein a oeddent yn byw yng Nghymru, a oedd ganddynt fuddiant busnes yng Nghymru ac i ddarparu manylion eu cod post. Fel y dangosir yn Nhabl 1.2, roedd y mwyafrif (155 o blith 244) wedi datgan eu bod yn byw yng Nghymru, wedi darparu cod post rhannol ar gyfer Cymru neu wedi nodi bod ganddynt fuddiant busnes yng Nghymru. Cadarnhaodd lleiafrif yr ymatebwyr ar-lein nad oeddent yn byw yng Nghymru ac nad oedd ganddynt fuddiant busnes yng Nghymru, gan ddarparu cod post rhannol y tu allan i Gymru neu ni wnaethant ymateb.

1.22 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein yn ymatebion gan unigolion ac addysgwyr yn y cartref (220 o blith 244 o ymatebion). O blith y rhain, roedd gan 60 y cant (133 o ymatebwyr) fuddiant yng Nghymru ac nid oedd gan 40 y cant (87 o ymatebwyr) fuddiant yng Nghymru neu ni wnaethant ddarparu rhan gyntaf eu cod post i gadarnhau eu lleoliad. Mae'n bwysig cadw hyn mewn cof wrth fyfyrio ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, oherwydd efallai na fydd y rheoliadau arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol ar yr ymatebwyr hyn.

**Tabl 1.2: Ardal ddaearyddol o ddiddordeb, ymatebion ar-lein i'r ymgynghoriad**

| | Nifer | Cyfran |
|---|---|---|
| Wedi datgan eu bod yn byw yng Nghymru neu wedi darparu cod post rhannol ar gyfer ardal yng Nghymru | 110 | 45% |
| Wedi datgan bod ganddynt fuddiant busnes yng Nghymru | 6 | 3% |
| Wedi datgan eu bod yn byw yng Nghymru a bod ganddynt fuddiant busnes yng Nghymru | 39 | 16% |
| **Is-gyfanswm, gyda buddiant yng Nghymru** | **155** | **64%** |
| Wedi datgan nad ydynt yn byw yng Nghymru ac nad oes ganddynt fuddiant busnes yng Nghymru neu wedi darparu cod post rhannol ar gyfer ardal y tu allan i Gymru | 54 | 22% |
| Heb ateb a dim cyfeiriad rhannol wedi'i ddarparu | 35 | 14% |
| **Is-gyfanswm, heb gadarnhau bod ganddynt fuddiant yng Nghymru** | **89** | **36%** |
| **Cyfanswm** | **244** | **100%** |

*Ymatebion gan ymgyrch addysg yn y cartref*

1.23 Ystyriaeth bwysig arall wrth ddehongli'r ymatebion i'r ymgynghoriad yw bod llawer ohonynt yn seiliedig ar ymatebion ymgyrch a baratowyd gan grwpiau addysg yn y cartref, gan gynnwys ymgyrch genedlaethol ar-lein. O ganlyniad, mae llawer o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad yn cynnwys testun safonedig y gellir ei briodoli i ymgyrch. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae'r rhain wedi'u hamlygu drwy'r adroddiad cyfan, ac nid oedd yn anarferol cael hyd at 25 o atebion a oedd yn cynnwys testun union debyg i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r holl ymatebion hyn wedi'u hystyried a'u codio gan y tîm ymchwil, ond mae'n bwysig cadw mewn cof eu bod yn gogwyddo'r cyfrif o ymatebion a gafwyd.

1.24 Mae'r rhain i gyd wedi'u codio fel ymatebion 'unigol', ac mae cynnwys yr ymatebion yn awgrymu mai addysgwyr yn y cartref ydynt yn bennaf.

*Pwysoli a grwpio ymatebion*

1.25 Rhoddwyd yr un pwysoliad i bob ymateb o fewn y dadansoddiad hwn, ni waeth pa ddull ymateb a ddewiswyd neu'r graddau yr oedd ymateb yn cynrychioli barn unigolyn, sefydliad neu grŵp a chanddo aelodaeth ehangach. Mae'n werth nodi hefyd bod rhai ymatebion, megis sefydliadau aelodaeth, yn cynrychioli barn nifer fwy o sefydliadau neu aelodau ond nid yw'n bosibl nodi graddau'r amrywiaeth barn o fewn yr aelodaeth honno.

1.26 Mae pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad wedi cael ei ddadansoddi yn y ffordd fwyaf priodol yn unol â'r hyn a benderfynwyd gan y tîm ymchwil. Yn aml, mae hyn wedi cynnwys dadansoddi a chyflwyno canfyddiadau pob un o'r pum grŵp a ymatebodd (h.y. unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref; rhanddeiliaid awdurdodau lleol; rhanddeiliaid iechyd; rhanddeiliaid eraill; a phlant a phobl ifanc). Fodd bynnag, nid oedd hwn yn ddull addas i’w ddefnyddio ar gyfer holl gwestiynau’r ymgynghoriad, yn enwedig lle roedd yr ymatebion a ddaeth i law yn debyg gan y grwpiau hyn o ymatebwyr neu lle yr oedd cwestiynau wedi'u hanelu at sefydliadau rhanddeiliaid penodol yn unig.

*Cwestiynau a oedd wedi'u hanelu at sefydliadau rhanddeiliaid penodol*

1.27 Er bod rhai o gwestiynau'r ymgynghoriad (Cwestiynau 9 -19) yn gwestiynau penodol ar gyfer sefydliadau rhanddeiliaid, dewisodd ymatebwyr eraill ateb y rhain hefyd. O ran y cwestiynau hyn, rydym yn adrodd ar yr ymatebion a ddaeth i law gan y sefydliadau rhanddeiliaid hyn yn unig.

**Gwaith ymgysylltu ychwanegol gyda phlant a phobl ifanc**

1.28 Gwnaed gwaith ymgysylltu ychwanegol wedi'i dargedu gyda 21 o blant a phobl ifanc hefyd gan Lywodraeth Cymru a Plant yng Nghymru fel rhan o’r ymarfer ymgynghori. Gan fod y gwaith ymgysylltu hwn wedi digwydd ar ôl yr ymarfer ymgynghori, nid yw'r ymatebion a gafwyd wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad dadansoddi hwn. Yn hytrach, mae’r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru a Plant yng Nghymru wedi’i nodi isod, yn ogystal â chanfyddiadau allweddol y gweithgaredd ymgysylltu ychwanegol a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru:

**Y gwaith ymgysylltu ychwanegol a wnaed gan Plant yng Nghymru**

Anfonwyd yr ymgynghoriad at grwpiau plant a phobl ifanc gan Plant yng Nghymru a wnaeth waith ymgysylltu drwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â hynny, rhannodd Plant yng Nghymru y ddogfen a dolen i arolwg ar-lein a choladu'r ymatebion mewn un ddogfen. Rhannwyd arolwg Plant yng Nghymru gyda'r rhwydweithiau canlynol:

- holl aelodau fforwm Cymru Ifanc
- holl aelodau Plant yng Nghymru (gan gynnwys unigolion a sefydliadau)
- holl ymarferwyr Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru (yn cynrychioli pob un o'r 22 Awdurdod Lleol)
- aelodau o'r Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc
- Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA)
- Rhieni sy'n Cysylltu Cymru
- Ysgolion sy'n aelodau o Plant yng Nghymru (gyda chais i ymateb ai rannu gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd).

Cafodd dolenni i'r ddogfen a'r arolwg ar-lein hefyd eu rhoi ar gyfrifon Instagram ac X Cymru Ifanc a'u cysylltu ar Linktree Cymru Ifanc. Pan gafodd yr arolwg ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol, roedd gan gyfrif Cymru Ifanc 1,109 o ddilynwyr ar Instagram, a 4,984 ar X.

Daeth 14 o ymatebion i law drwy arolwg ar-lein Plant yng Nghymru ac mae Plant yng Nghymru wedi dadansoddi a chrynhoi'r rhain ar wahân.

**Canfyddiadau gwaith ymgysylltu ychwanegol Plant yng Nghymru**

Mae crynodeb o'r cwestiynau a'r 14 o ymatebion a ddaeth i law drwy waith ymgysylltu ychwanegol Plant yng Nghymru wedi'u nodi isod:

| | Ydw/Gallaf | Nac ydw/Na allaf | Ddim yn gwybod / Dim ateb |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n credu y bydd y Gronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg yn helpu | 8 | 3 | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| awdurdodau lleol i wybod am bob plentyn yn eu hardal a sicrhau eu bod yn cael addysg? | | | |
| Ydych chi'n credu y bydd y Gronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg yn helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn derbyn gofal, yn ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu? | 8 | 3 | 3 |
| Ydych chi'n credu y dylai byrddau iechyd rannu enw, cyfeiriad, rhywedd a dyddiad geni plentyn gyda'r awdurdod lleol? | 7 | 5 | 2 |
| Ydych chi'n credu bod enw, cyfeiriad, rhywedd a dyddiad geni plentyn yn ddigon o wybodaeth i'w helpu i ddod o hyd i blant sy'n colli addysg? | 6 | 5 | 3 |
| Allwch chi feddwl am unrhyw ffyrdd eraill y gall awdurdodau lleol ddod o hyd i blant sy'n colli addysg? | 5 | 5 | 4 |
| Ydych chi'n meddwl bod gan hyn unrhyw fanteision neu anfanteision i rieni neu ofalwyr? | 6 | 3 | 5 |
| Rydym ni'n credu y dylai byrddau iechyd lleol orfod rhannu gwybodaeth unwaith y flwyddyn. Ydych chi'n meddwl bod hynny'n syniad da? | 9 | 3 | 2 |

Mae'r ymatebion a gafwyd yn awgrymu bod cymysgedd o emosiynau o ran cyflwyno'r Gronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg. Er bod rhai ymatebwyr o’r farn y gallai’r gronfa ddata fod yn ‘wahaniaethol’, ac y gallai o bosibl orfodi pobl ifanc i fynd i ‘leoliadau addysgol amhriodol, anniogel ac anhygyrch’, roedd eraill yn gweld gwerth yn y modd y gallai’r system ganiatáu i bobl ifanc gael eu ‘diogelu mewn ffordd well’, ac felly'n llai tebygol o 'lithro drwy'r rhwyd'. Mae’r adborth ansoddol yn awgrymu nad yw pobl ifanc yn gwybod digon am y gronfa ddata, ac y byddent yn elwa o gael rhagor o wybodaeth, yn benodol ynglŷn â bwriad y gronfa ddata, a sut y mae gwybodaeth bersonol yn cael ei dosbarthu.

Roedd yna hefyd alwad i bobl ifanc gael eu haddysgu mewn mannau sy'n addas i'w hanghenion, ac i'w nodweddion gwarchodedig gael eu parchu. Nododd rhai cyfranogwyr nad yw addysg brif ffrwd yn gweithio i

bawb, ac y gallai addysg yn y cartref fod yn opsiwn gwell i rai. Ymatebodd rhai cyfranogwyr yn eithaf negyddol i'r broses o gyflwyno'r gronfa ddata, ac roeddent o'r farn mai rhieni ddylai benderfynu a yw addysg yn briodol i anghenion eu plentyn, yn hytrach na Llywodraeth Cymru: 'Nid chi yw fy nghyd-riant.' Roedd ffocws hefyd ar lesiant pobl ifanc o ran sut y maent yn dewis derbyn eu haddysg, ac y dylid ei parchu hynny, gan nad oedd colli ysgol neu gael eu haddysgu yn y cartref am resymau'n ymwneud â llesiant yn "ddim i fod cywilydd ohono".

**Gwaith ymgysylltu ychwanegol a wnaed gan Lywodraeth Cymru**
Cyflwynodd Llywodraeth Cymru fersiwn o'r ddogfen ymgynghori sy'n addas i blant mewn pedwar grŵp rhanddeiliaid awdurdodau lleol gwahanol. Gofynnwyd i swyddogion awdurdodau lleol ddefnyddio eu rhwydweithiau presennol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Rhannwyd y ddogfen gyda swyddfa'r Comisiynydd Plant hefyd.

Dywedwyd wrth yr holl randdeiliaid y gallai'r ymatebydd gyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad yn uniongyrchol neu drwy ba bynnag randdeiliad a oedd wedi ymgymryd â'r gwaith ymgysylltu.

Trefnodd Llywodraeth Cymru dri digwyddiad rhanbarthol i blant a phobl ifanc ddechrau mis Mai 2024. Oherwydd mai niferoedd bach a gofrestrodd, cynhaliwyd dau ddigwyddiad, un yng Nghonwy a'r llall yng Nghaerdydd. Roedd y sesiynau'n cynnwys cyflwyniad i blant a phobl ifanc ar y cynigion. Rhoddwyd cyfle i fynychwyr lenwi ffurflenni ymgynghori / ymateb a oedd yn addas i blant gyda chefnogaeth rhiant neu swyddog awdurdod lleol (os oedd angen). Mynychodd cyfanswm o ddeg o blant a phobl ifanc y digwyddiadau hyn a chwblhawyd saith ffurflen ymateb.

**Canfyddiadau gwaith ymgysylltu ychwanegol Llywodraeth Cymru**
Daeth saith ffurflen ymateb i law o ddau ddigwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ar y 7$^{fed}$ a'r 8$^{fed}$ o Fai. Ni chofnodwyd unrhyw wybodaeth ddemograffig. Mae'r cwestiynau a'r ymatebion wedi'u nodi isod:

| | Ydw/Gallaf | Nac ydw/Na allaf | Ddim yn gwybod / Dim ateb |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n credu y bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i wybod am bob plentyn yn eu hardal a sicrhau eu bod yn cael addysg? | 3 | 4 | 0 |
| Ydych chi'n credu y bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn derbyn gofal, yn ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu? | 2 | 2 | 3 |
| Ydych chi’n credu y dylai byrddau iechyd lleol rannu enw, cyfeiriad, rhywedd a dyddiad geni plentyn gyda’r awdurdod lleol? | 1 | 4 | 2 |
| Ydych chi’n credu bod hyn yn ddigon o wybodaeth i’w helpu i ddod o hyd i blant sy’n colli addysg? | 3 | 1 | 3 |
| Allwch chi feddwl am unrhyw ffyrdd eraill y gall awdurdodau lleol ddod o hyd i blant sy'n colli addysg? | 0 | 1 | 6 |
| Ydych chi'n meddwl bod gan hyn unrhyw fanteision neu anfanteision i rieni neu ofalwyr? | 2 | 1 | 4 |
| Ydych chi'n credu bod gan hyn unrhyw fanteision neu anfanteision i chi, neu blant neu bobl ifanc eraill? | 4 | 0 | 3 |
| Rydym ni'n credu y dylai byrddau iechyd lleol orfod rhannu gwybodaeth unwaith y flwyddyn. Ydych chi'n meddwl bod hynny'n syniad da? | 2 | 3 | 1 |

Roedd tri chwestiwn ychwanegol wedi'u cynnwys ar y ffurflen. Ni chwblhaodd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr adran hon. Roedd y sylwadau ychwanegol a gasglwyd yn cynnwys:

- 'Gallai hyn deimlo fel ymyrraeth ai fod yn tanseilio gallu rhieni i addysgu eu plentyn'
- 'deall yr angen i adnabod PCA'
- 'roeddem yn poeni sut y byddai'n effeithio ar blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref (sy'n hysbys i'r ALl)'
- 'mae'r holl wybodaeth hon eisoes yn hysbys i fy ALl'.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.29 Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r pwyntiau allweddol a wnaed gan y cyfranwyr. Mae wedi'i strwythuro i gyd-fynd â'r 23 o gwestiynau. Felly mae’r adroddiad wedi’i drefnu fel a ganlyn:

- pennod dau: ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 1 ynghylch adnabod plant nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol
- pennod tri: ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 2 o ran swyddogaethau awdurdodau lleol i ddiogelu a hybu lles plant
- pennod pedwar: dadansoddiad o'r ymatebion i Gwestiwn 3 ynghylch pa mor gymesur a digonol yw'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu
- pennod pump: myfyrio ar yr ymatebion i Gwestiwn 4, ynghylch systemau a phrosesau amgen a fabwysiedir gan awdurdodau lleol
- pennod chwech: yr ymatebion i Gwestiwn 5 ynglŷn â manteision ac anfanteision datgelu'r data
- pennod saith: ystyried barn yr ymatebwyr i Gwestiynau 6 i 8 o ran amlder datgelu gwybodaeth a mynediad at wybodaeth
- pennod wyth: myfyrio ar yr ymatebion i Gwestiynau 9-12 yn ymwneud â byrddau iechyd lleol
- pennod naw: ystyried ymatebion i Gwestiynau 13 a 14 yn ymwneud â chontractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol
- pennod 10: ymatebion i Gwestiynau 15-19 sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol
- pennod 11: ystyried yr ymatebion i Gwestiynau 20 a 21 ynghylch nodweddion gwarchodedig a’r Gymraeg
- pennod 12: dadansoddiad o unrhyw themâu neu faterion a godwyd a oedd y tu hwnt i gylch gorchwyl uniongyrchol cwestiynau’r ymgynghoriad (Cwestiwn 22).

## 2. Adnabod plant nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol a/neu sy’n colli addysg

2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yrymatebion i Gwestiwn 1 yr ymarfer ymgynghori.

**Cwestiwn 1** Ar hyn o bryd nid yw awdurdodau lleol yn gwybod am yr holl blant yn eu hardal ond maent yn dal i fod yn gyfrifol amdanynt. Yn eich barn chi, a fydd y gofynion yn y rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd neu blant sy’n colli addysg?

2.2 Fel y dangosir yn Nhabl 2.1, roedd lleiafrif yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad o’r farn y byddai’r gofynion yn y rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd ond nid oedd y mwyafrif yn credu hynny. Awdurdodau lleol, plant a phobl ifanc, a grwpiau eraill (gan gynnwys rhanddeiliaid addysg, grwpiau teulu a phlant, a sefydliadau'r trydydd sector) oedd fwyaf tebygol o gytuno, ac unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref a oedd fwyaf tebygol o anghytuno.

**Tabl 2.1: Yn eich barn chi, a fydd y gofynion yn y rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd neu blant sy’n colli addysg?**

| | Byddant | Na fyddant | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref** *(yn cynnwys ymatebion dyblyg posibl, ac ymatebion o’r tu allan i Gymru)* | 14 | 208 | 7 | 229 |
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 20 | 0 | 1 | 21 |
| **Rhanddeiliaid iechyd** | 2 | 0 | 4 | 6 |
| **Rhanddeiliaid eraill** | 12 | 6 | 3 | 21 |
| **Plant a phobl ifanc** | 52 | 8 | 0 | 60 |
| **Cyfanswm** | 100 | 222 | 15 | 337 |

2.3 Daeth cyfanswm o 226 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. Rydym yn ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd gan y pum grŵp allweddol a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori.

**Rhanddeiliaid awdurdodau lleol**

2.4 Roedd yr holl ymatebion gan awdurdodau lleol heblaw un (20 o blith 21 o ymatebion) o’r farn y byddai’r rheoliadau yn eu helpu i gyflawni’r amcan hwn. Nid oedd y prosiect a oedd yn weddill yn gwybod. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol (17 o blith 21 o ymatebion) o’r farn y byddai’r rheoliadau yn eu helpu i gyflawni’r amcan hwn[8].

2.5 Darparodd pedwar awdurdod lleol ymateb ansoddol yn ategu eu barn y byddai’r rheoliadau’n cryfhau’r prosesau presennol. Er enghraifft:

'Mae angen newid y ddeddfwriaeth er mwyn ei gwneud yn orfodol i rieni gofrestru eu plentyn gyda'r ALl fel plentyn sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref er mwyn sicrhau y gall Awdurdodau Lleol adnabod yr holl blant nad ydynt efallai'n derbyn addysg addas.' [Awdurdod lleol]

'Rydym yn credu y bydd y rheoliadau newydd yn cryfhau ein prosesau presennol ac yn arwain at ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o ba blant y mae angen cymorth arnynt a pha blant y mae'n rhaid eu holrhain a'u monitro.' [Awdurdod lleol]

2.6 Pwysleisiodd dau awdurdod lleol mai dim ond os yw plant wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu y byddai'r gronfa ddata yn gweithio. Er ei fod yn cefnogi'r amcan, rhybuddiodd un awdurdod lleol ynghylch y posibilrwydd o gamgymeriadau mewn cronfa ddata o'r fath. Er enghraifft, wrth roi enw, cyfeiriad a dyddiad geni, gallai fod gwallau sillafu; hefyd, nid yw paru data ar draws setiau data mawr 'byth yn hollol gywir'; ac mae'n anodd olrhain rhai grwpiau fel teithwyr a phlant sy'n cael eu haddysgu y tu allan i Gymru. O ganlyniad, dadleuodd yr awdurdod lleol hwn:

[8] Cyfrifir hyn ar y sail bod 18 o awdurdodau lleol wedi cyfrannu at yr ymarfer. Cyflwynodd tri awdurdod lleol ddau ymateb yr un a chafwyd un ymateb ar y cyd gan CLlLC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.

‘er y gallai'r gronfa ddata o bosibl gau bylchau yn y system bresennol, nid ydym yn teimlo y bydd unrhyw system byth yn gallu adnabod pob un ohonynt’ [Awdurdod lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd**

2.7 Roedd dau fwrdd iechyd lleol yn cytuno ac un arall yn cytuno i ryw raddau y byddai’r cynnig yn cefnogi’r gofyniad i adnabod plant. Roedd un mater a godwyd yn ymwneud â’r ffaith nad yw rhai teuluoedd yn cofrestru gyda meddyg teulu. Awgrymodd un bwrdd iechyd lleol y byddai’r gronfa ddata yn ‘hynod o heriol i’w chreu’ a hynny'n bennaf oherwydd yr anhawster i ganfod cyfanswm y boblogaeth ond hefyd oherwydd yr anawsterau gyda phennu ym mha awdurdod lleol y mae plentyn yn byw e.e. mewn achosion lle y gallai plentyn fyw mewn dau gyfeiriad yn achos teuluoedd estynedig. Awgrymodd y bwrdd iechyd lleol hwn mai ateb mwy pragmataidd a chosteffeithiol fyddai i awdurdodau lleol gael y data hyn o gronfa ddata genedlaethol yn hytrach na ffynonellau lleol:

'[byddai] o bosibl yn haws cael gafael ar y data o'r gwasanaeth demograffig cenedlaethol (y DU neu Gymru) ac yna gael gwasanaeth broceriaeth ALl o fewn Cymru i reoli unigolion sydd wedi 'symud' ar draws ffiniau awdurdodau lleol Cymru.' [Bwrdd iechyd lleol]

2.8 Mynegwyd barn fwy cymysg gan y tri rhanddeiliad iechyd arall, ac roedd y pwyntiau allweddol a godwyd yn ymwneud ag anawsterau’n gysylltiedig ag adrodd ar gyfer practisau meddygon teulu sydd wedi’u lleoli mewn ardaloedd ar y ffin, gan gynnwys materion yn ymwneud â phlant sy’n preswylio yng Nghymru ond sydd wedi’u cofrestru â meddygon teulu yn Lloegr.

'Mae'n bwysig nodi bod nifer fawr o bractisau meddygon teulu yng Nghymru wedi'u lleoli mewn ardaloedd ar y ffin lle na fyddai data'n cael eu rhannu â'r ALl gan y bydd y cleifion yn byw y tu allan i'r ardal. Yn ogystal â hynny, mae'n bosibl na fydd yn cofnodi'r holl blant sy'n preswylio yng Nghymru ond sydd wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu yn Lloegr oni bai bod proses i gynnwys y rhai sydd wedi'u cofrestru yn Lloegr ond sy'n preswylio yng Nghymru.' [Rhanddeiliad iechyd]

**Rhanddeiliaid eraill**

2.9 Roedd tua hanner y rhanddeiliaid eraill (12 o blith 21 o ymatebwyr) yn cytuno y byddai’r rheoliadau’n helpu awdurdodau lleol i ymgymryd â’r ddyletswydd.

'Rydym yn croesawu'r gofynion yn y rheoliadau. Mae perygl y bydd plant nad ydynt mewn addysg brif ffrwd yn mynd yn anweledig i awdurdodau, a allai olygu eu bod yn cael eu hynysu a'u hamddifadu o gymorth.' [Rhanddeiliad o'r trydydd sector]

'mae'n ymddangos y bydd y rheoliadau a amlinellir yn gwella gallu awdurdodau lleol yn sylweddol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd a'r rhai a allai fod yn colli addysg, gan gynnwys pobl ifanc ddigartref.' [Rhanddeiliad o'r trydydd sector]

2.10 Roedd pob rhanddeiliad addysg heblaw un yn cytuno y byddai'r cynnig yn helpu i adnabod plant.

'Bydd creu'r gronfa ddata gyda gwybodaeth a gaiff ei rhannu gan y bwrdd iechyd lleol yn flynyddol yn lleihau'r risg na fydd plant o'r fath yn cael eu hadnabod.' [Rhanddeiliad addysg]

2.11 Cododd grwpiau plant a theuluoedd gwestiynau ynglŷn â thri phwynt. Roedd y cyntaf yn ymwneud â datgelu data yn flynyddol, nad ystyriwyd ei fod yn briodol ar gyfer cofnodi achosion penodol o blant sy'n colli addysg (PCA):

'Mae plant sy'n derbyn gofal yn aml yn symud lleoliad neu ysgol rhwng ALlau ganol y flwyddyn ac mae hyn yn golygu bod angen i'w gweithiwr cymdeithasol wneud cais am le yn ystod y flwyddyn. Pa systemau gwybodaeth fydd ar waith i sicrhau bod symudiadau ysgol plentyn sy'n derbyn gofal yn cael eu cofnodi rhwng ALlau drwy gydol y flwyddyn a'u bod yn hysbys i dîm plant sy'n colli addysg?' [Grwpiau plant a theuluoedd]

2.12 Roedd yr ail bwynt allweddol a gwestiynwyd gan grwpiau plant a theuluoedd yn ymwneud â sut y byddai anghenion plant sy'n mynychu ysgol y tu allan i'r sir yn cael eu diwallu, ac ystyriwyd bod hyn yn aml yn wir am ddysgwyr a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol sylweddol.

2.13 Roedd y trydydd pwynt a godwyd gan grwpiau plant a theuluoedd, a oedd yn adleisio pwynt tebyg a wnaed gan randdeiliaid addysgol, yn ymwneud â lefel y data a gasglwyd:

'pe bai'r data'n cael ei asesu ar lefel genedlaethol, byddai hyn yn sicrhau gwell cysondeb ac yn safoni'r data a gesglir. Byddai hefyd yn sicrhau cydweithio mwy effeithiol rhwng awdurdodau lleol wrth ymdrin ag effeithiau poblogaethau sy'n symud yn ogystal â galluogi gwell cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru a Lloegr.' [Grwpiau plant a theuluoedd]

2.14 Roedd dau grŵp ffydd / seciwlar yn cytuno y byddai'r cynnig yn helpu i adnabod plant a dau yn anghytuno. Awgrymodd un o'r grwpiau a gytunodd nad oedd y rheoliadau'n mynd yn ddigon pell i ddiogelu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf:

'Rydym yn cefnogi'r gofynion a gyflwynir yn y rheoliadau ar y sail y byddant yn helpu awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd, yn ogystal â'r rhai sy'n colli addysg. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai'r gofynion yn y rheoliadau fod yn annigonol ar gyfer creu rhestr gynhwysfawr o'r holl blant sy'n colli addysg (PCA)...rydym yn pryderu na fydd cronfa ddata sy'n gyfystyr â "rhestr gymharol gynhwysfawr" yn ddigon cynhwysfawr i ddiogelu plant sy'n wynebu'r risg fwyaf.' [Grŵp Ffydd / Seciwlar]

2.15 Roedd y prif fater a godwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno yn ymwneud â'r angen i wahaniaethu rhwng 'plant sy'n colli addysg' a 'phlant nad ydynt yn derbyn addysg addas' ac yn ôl un ymateb 'nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei esbonio yn yr ymgynghoriad.' Yn hynny o beth daeth i'r casgliad 'na fydd awdurdodau lleol yn gallu ymgymryd â'r ddyletswydd hon.' [Grŵp Ffydd / Seciwlar]

**Plant a phobl ifanc**

2.16 Roedd llawer o'r plant a'r bobl ifanc a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori hwn yn cytuno â'r cynigion, er na chafwyd ymateb ansoddol gan yr un o'r rhain. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn bobl ifanc a oedd yn cael eu haddysgu yn y cartref a nododd fod y cynigion yn:

'annheg' [Plant a phobl ifanc]

'Dydw i ddim yn colli addysg. Dw i'n dysgu o gartref oherwydd byddai'r ysgol yn peri gofid mawr i mi.' [Plant a phobl ifanc]

**Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref**

2.17 Roedd y rhan fwyaf o unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref yn anghytuno â'r cwestiwn hwn, ac roedd geiriad dyblyg neu debyg i'w weld mewn llawer o'r ymatebion. Gellir grwpio'r prif bwyntiau a gyflwynwyd gan y garfan hon o dan bedair thema allweddol. Roedd y rhain yn ymwneud â:

- chyfreithlondeb y cynigion
- moesoldeb y cynigion
- natur wrthgynhyrchiol cynigion ac
- effaith negyddol ar fynediad i wasanaethau iechyd

*Cyfreithlondeb y cynigion*

2.18 Cododd tua hanner yr unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref a ymatebodd faterion yn ymwneud â chyfreithlondeb y cynigion, gan gynnwys rhai a oedd o’r farn nad oes gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb cyfreithiol dros benderfynu a yw addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yn addas. Nodwyd bod cyfanswm o 36 o ymatebion yn rhan o ymgyrch gan eu bod yn defnyddio’r datganiad penodol a oedd yn nodi ‘mae'r gyfraith yn cael ei chamddefnyddio’ yn eu hymateb, gan gynnwys:

'Mae'r gyfraith yn cael ei chamddefnyddio gan nad oes gan awdurdodau'r dyletswyddau a honnir.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

2.19 Dadleuodd yr ymatebwyr hyn nad oes gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb cyfreithiol dros benderfynu a yw’r addysg sydd ar gael i blant sy’n derbyn eu haddysg yn y cartref yn addas, a chwestiynwyd eu gallu i benderfynu ar hynny:

'Mae'r cynnig yn awgrymu cynllun lle mai'r ALl sy'n penderfynu a yw addysg yn addas, yn hytrach na'r rhiant. Nid yw hyn yn gyfreithlon ac nid oes gan yr ALl y gallu i wneud hyn.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Moesoldeb y cynigion*

2.20 O dan y thema hon, pwysleisiodd lleiafrif o unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref natur anfoesegol y cynnig i fyrddau iechyd lleol rannu data ag awdurdodau lleol, a gwnaed defnydd rheolaidd o dermau fel ‘anfoesegol’ a ‘moesol/anfoesol’, gan gynnwys 16 o ymatebion ymgyrch:

'Mae'n anfoesol ac yn anfoesegol ac nid oes sail gyfreithiol iddo.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Bydd y cynigion yn wrthgynhyrchiol*

2.21 Dadleuodd ymatebion gan leiafrif o unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref y byddai'r cynigion yn niweidiol ac yn cael yr effaith groes i'r hyn a fwriadwyd drwy wneud i'r rhai sy'n colli addysg fynd 'ymhellach o'r golwg' ac osgoi defnyddio gwasanaethau eraill hefyd. Roedd yr ymatebion hyn yn awgrymu y dylid canolbwyntio adnoddau ar blant y gwyddys eu bod eisoes yn colli addysg. Defnyddiwyd yr union derm 'effaith groes' mewn cyfanswm o 51 o ymatebion.

'Rwy'n teimlo y bydd yn cael effaith groes i'r hyn y mae'r awdurdodau am ei gyflawni.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Effaith negyddol ar fynediad i wasanaethau iechyd*

2.22 Ystyriodd lleiafrif yr ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref effaith negyddol y cynigion ar fynediad i wasanaethau a ariennir gan feddygon teulu a byrddau iechyd lleol. Dadleuwyd y byddai'r cynigion yn niweidio perthnasoedd rhwng teuluoedd a'u meddyg teulu, yn arwain at rieni yn datgofrestru eu plant neu'n peidio â mynd i weld y meddyg teulu yn y lle cyntaf.

'Bydd cynigion o'r fath yn creu drwgdybiaeth rhwng Addysgwyr yn y Cartref a gweithwyr iechyd proffesiynol ac yn waeth efallai y byddant yn annog rhieni i beidio â defnyddio Gwasanaethau Gofal Iechyd dim ond oherwydd eu bod yn arfer eu hawl gyfreithiol i beidio â chynnwys yr awdurdod lleol yn eu haddysg. Mae ganddo'r potensial i greu sefyllfa lle mae plant o'r fath yn gwbl anweledig i'w cymuned leol.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

2.23 Yn gysylltiedig â'r thema hon, roedd y farn y byddai meddygon teulu yn torri cyfrinachedd oni bai eu bod yn cael cydsyniad penodol i rannu data ag awdurdodau lleol.

'Mae materion cyfreithiol, moesol a moesegol yn gysylltiedig â'r gofynion arfaethedig, gan gynnwys materion yn ymwneud â chydsyniad ar sail gwybodaeth a'r posibilrwydd o dorri cyfrinachedd ar ran darparwyr gofal iechyd. Gallai hyn niweidio ymddiriedaeth rhwng cleifion a darparwyr gofal iechyd a gallai atal teuluoedd rhag defnyddio gofal iechyd. Mae perygl gwirioneddol y bydd y rheoliadau hyn yn creu rhwystr i'r plant sydd fwyaf agored i niwed rhag cael mynediad i ofal iechyd ac yn tanseilio'r trefniadau diogelu y mae darparwyr gofal iechyd eisoes yn eu gweithredu.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Themâu eraill a godwyd gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref*

2.24 Roedd ychydig o ymatebion yn dadlau bod y cynigion yn cyfuno addysg yn y cartref â PCA.

'Dylai'r gronfa ddata gynnwys plant sy'n colli addysg yn unig, nid y rhai a allai fod yn colli addysg - dylid cymryd bod rhieni'n cyflawni eu dyletswydd a bod y plant yn derbyn addysg dda oni phrofir yn wahanol. Nid yw'n ddyletswydd ar yr ALl i gael gwybod am bob plentyn.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

2.25 Roedd rhai ymatebion yn dadlau bod y cynigion yn wastraff adnoddau, ac yn anghymesur ac afresymol.

'Mae'n wastraff arian - arian y gellid ei ddefnyddio'n well mewn mannau eraill.' [nodwyd hyn gan chwe Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

2.26 Cwestiynodd ychydig bach o ymatebion y diffiniad o PCA[9] a pham na fyddai'r gronfa ddata yn cynnwys manylion am blant yn yr ysgol nad oeddent yn mynychu'n rheolaidd:

[9] Diffinnir plant sy'n colli addysg (PCA) fel y rhai o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol, ac nad ydynt yn cael addysg addas y tu allan i'r ysgol (er enghraifft, yn y cartref, yn breifat, neu mewn darpariaeth amgen) ac nad ydynt wedi bod mewn unrhyw ddarpariaeth addysgol am gyfnod sylweddol o amser, sef pedair wythnos neu fwy fel arfer.

‘Nid yw’r cronfeydd data hyn yn gronfeydd data o blant sy’n colli addysg mewn gwirionedd, oherwydd nid ydynt yn cynnwys unrhyw blant sydd ar gofrestrau ysgol ond sy’n colli addysg am lu o resymau gwahanol, ond byddant yn cynnwys data am deuluoedd sy’n addysgu yn y cartref sy’n darparu addysg addas ond sydd wedi arfer eu hawliau cyfreithlon i beidio â chynnwys yr awdurdod lleol yn y ddarpariaeth honno.' [Tri Unigolyn / Addysgwyr yn y cartref]

2.27 Amlygodd ychydig bach o ymatebion faterion ymarferol yn ymwneud â’r cynigion, sef na fyddai creu rhestr yn ei gwneud yn haws o gwbl i adnabod PCA, oherwydd:

'Nid yw rhoi rhestr o 500,000 o enwau i awdurdodau lleol yn mynd i'w helpu i adnabod pwy sy'n colli addysg. Bydd yn gwneud y das wair yn fwy ar gyfer dod o hyd i'r nodwyddau!' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

2.28 Roedd ychydig bach o ymatebion gan y garfan hon yn ystyried bod y cynigion yn mynd yn groes i hawliau plant, a hawliau dynol yn fwy cyffredinol.

'Mae'n torri ar breifatrwydd, parch sylfaenol, hawliau dynol a hawliau plant. Mae'r cynigion yn herio erthyglau CCUHP.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

2.29 Cododd ychydig bach o’r ymatebion bryderon ynghylch diogelwch cronfeydd data PCA, sut y gellid camddefnyddio’r data, a pha brosesau a fyddai ar waith i sicrhau bod y data’n cael eu cadw’n ddiogel. Er enghraifft:

'Nid yw canlyniadau tor diogelwch data o ran y math hwn o wybodaeth yn cael sylw priodol, nac ychwaith ddiogelwch y data a fydd yn cael eu cadw yn y cronfeydd data hyn.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

2.30 Nododd ychydig bach o ymatebion gan y garfan hon fod y cynigion yn rhoi addysg yn y gartref mewn goleuni negyddol, a oedd yn niweidiol i deuluoedd sy’n addysgu eu plant yn y cartref:

‘Mae addysgwyr yn y cartref yn cael eu targedu’n annheg a’u trin ag amheuaeth er bod gan addysg yn y cartref statws cyfreithiol cyfartal ag addysg brif ffrwd.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

## 3. Swyddogaethau awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant

3.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 2 yr ymarfer ymgynghori.

> **Cwestiwn 2** A yw'r cynnig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd adran 175 o dan Ddeddf Addysg 2002, sef ymgymryd â'u swyddogaethau addysg gyda'r bwriad o ddiogelu a hybu lles plant?

3.2 Fel y dangosir yn Nhabl 3.1, roedd ychydig o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad o'r farn y byddai'r cynnig yn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda'u trefniadau a wneir o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2022, ond nid oedd llawer yn cytuno â hynny. Awdurdodau lleol, plant a phobl ifanc, a grwpiau eraill (gan gynnwys rhanddeiliaid addysg, grwpiau teulu a phlant, a sefydliadau'r trydydd sector) oedd fwyaf tebygol o gytuno, ac unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref a oedd fwyaf tebygol o anghytuno.

**Tabl 3.1: A yw'r cynnig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002**

| | Ydy | Nac ydy | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref** *(yn cynnwys ymatebion dyblyg posibl, ac ymatebion o'r tu allan i Gymru)* | 9 | 209 | 11 | 229 |
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 19 | 1 | 1 | 21 |
| **Rhanddeiliaid iechyd** | 2 | 0 | 4 | 6 |
| **Rhanddeiliaid eraill** | 10 | 7 | 4 | 21 |
| **Plant a phobl ifanc** | 25 | 25 | 10 | 60 |
| **Cyfanswm** | 65 | 242 | 30 | 337 |

3.3 Daeth cyfanswm o 213 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. Rydym yn ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd gan y pum grŵp allweddol a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori.

**Rhanddeiliaid awdurdodau lleol**

3.4 Roedd bron pob ymateb gan awdurdod lleol (19 o blith 21 o ymatebion) o'r farn y byddai'r cynnig yn eu cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau addysg. Darparwyd pum ymateb ansoddol: roedd pedwar yn cytuno y byddai'r cynnig yn helpu i wella'r trefniadau ar gyfer diogelu plant nad ydynt yn mynychu'r ysgol ac roedd un yn anghytuno. Dywedodd un ymatebydd o awdurdod lleol a oedd yn cytuno:

'Rydym yn credu bod y cynnig yn cryfhau ein gallu i ddiogelu pobl ifanc o dan Adran 175 o Ddeddf Addysg (2002). Ar hyn o bryd, mae ein systemau'n rhai lleol ac felly maent yn amrywio rhwng awdurdodau lleol a bydd y cynnig yn caniatáu ar gyfer gwell trefniadau olrhain symudiadau o fewn a rhwng awdurdodau a nodi tueddiadau o ran anghenion PCA. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at well strategaeth i gefnogi dysgwyr PCA. Bydd hyn yn gwella ein gallu i greu strategaeth sy'n cwmpasu ysgolion a gwasanaethau addysg eraill megis yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'n darpariaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref.' [Awdurdod lleol]

3.5 Myfyriodd dau awdurdod lleol ar y gwrthwynebiad gan y gymuned addysg yn y cartref i'r gronfa ddata arfaethedig. Awgrymodd un fod angen newid mewn deddfwriaeth i'w gwneud yn orfodol i rieni ddangos tystiolaeth bod addysg addas yn cael ei darparu ac awgrymodd y llall fod angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r 'grŵp lobïo Addysg Ddewisol yn y Cartref i'w annog i gytuno i'r gronfa ddata hon.' [Awdurdod Lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd**

3.6 O blith y chwe rhanddeiliad iechyd, roedd dau fwrdd iechyd lleol yn cytuno, gan ddweud, er mwyn i'r cynnig fod yn effeithiol:

'mae'n rhaid i'r data fod yn ddilys ac yn gyfredol' [Bwrdd iechyd lleol]

'mae'r gofynion a'r cyfarwyddiadau a roddir i ni wedi'u nodi mewn ffordd sy'n sicrhau bod gofynion Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol[10] a Dyletswydd Cyfrinachedd Cyfraith Gwlad yn cael eu bodloni.' [Bwrdd iechyd lleol]

[10] Deddf Hawliau Dynol

3.7 Nododd un o’r rhanddeiliaid iechyd eraill hefyd yr angen i ddata fod yn gyfredol, a thynnodd sylw at yr angen i fynd i’r afael â data am blant sy'n symud rhwng ardaloedd:

'mae'r dull un ymarfer y flwyddyn yn golygu y bydd y data yn dyddio bron cyn gynted ag y cânt eu creu. Gall plant yn symud rhwng y pwyntiau echdynnu data, yn enwedig mewn ardaloedd ar y ffin, olygu bod plant yn cael eu colli o hyd a gall hefyd achosi gofid i'r teuluoedd yr effeithir arnynt.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

**Rhanddeiliaid eraill**

3.8 Roedd tua hanner y rhanddeiliaid eraill (11 o blith 21 o ymatebion) o’r farn y byddai’r cynnig yn caniatáu i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Amlygwyd adnabod plant sy'n colli addysg fel y cam cyntaf tuag at ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, yn ogystal â gwell cydweithio a rhannu data yn amserol.

'Drwy sefydlu cronfeydd data o blant sy'n colli addysg (PCA), gall awdurdodau lleol adnabod yn well blant a allai fod mewn perygl o gael niwed neu sydd wedi ymddieithrio o addysg. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn galluogi awdurdodau i ymyrryd yn gynnar a darparu cymorth a mesurau diogelu angenrheidiol.' [Rhanddeiliad arall]

3.9 Roedd pwynt allweddol a wnaed gan randdeiliaid eraill mewn ymateb i’r cwestiwn hwn yn ymwneud â’r ffaith y byddai’r data yn ‘gymharol gyflawn,’ gan awgrymu y byddai bylchau bob amser:

- dim ond gwybodaeth am blant sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu y byddai'r data a ddarparwyd gan fyrddau iechyd lleol yn ei gynnwys

  'os nad yw rhai o'r plant nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu ar hyn o bryd, ni fyddant yn hysbys i'r Byrddau Iechyd Lleol ac felly ni fydd eu manylion yn cael eu rhannu.' [Grŵp plant a theuluoedd]

- yr angen i gofnodi'n well y risgiau diogelu sy'n gysylltiedig ag ysgolion anghofrestredig 'mae llawer o ysgolion anghofrestredig

wedi'u lleoli mewn adeiladau anniogel gyda staff anaddas nad ydynt wedi'u hyfforddi ac nad ydynt yn destun unrhyw un o'r gweithdrefnau fetio arferol.' [Grŵp ffydd/seciwlar].

3.10 Y cwestiwn allweddol arall a godwyd gan randdeiliaid eraill a oedd yn gwrthwynebu’r cynnig, oedd a oedd gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Adran 175 i adnabod plant nad oeddent yn gwybod amdanynt. Yn lle hynny, awgrymwyd y dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar ddiogelu plant sydd eisoes yn hysbys iddynt, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u gwahardd a'r rhai sydd wedi'u datgofrestru o ysgolion, yn ogystal â phlant iau cyn oed ysgol.

'Mae'n amlwg nad yw Adran 175 yn creu swyddogaethau ychwanegol, Yn hytrach mae'n ymwneud â sut y dylid arfer swyddogaethau addysg presennol. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn darllen Adran 175 fel dyletswydd ymhlyg ar awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn gwybod amdanynt. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd o'r fath yn bodoli. Nodwn y ffordd benodol y caiff Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 – sef y swyddogaeth addysg berthnasol allweddol – ei fframio. Nid yw'n darparu sail ar gyfer cynnig cyffredinol Llywodraeth Cymru.' [Grŵp Ffydd / Seciwlar]

**Unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc**

3.11 Yn yr adran hon rydym yn ystyried yr ymatebion ansoddol a gyflwynwyd gan unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc, gan fod natur yr ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law yn debyg.

3.12 Cafwyd llawer o ymatebion ansoddol (cyfanswm o 192, gyda 186 ohonynt yn anghytuno a chwech ddim yn gwybod neu heb ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiwn caeëdig). Yn gyffredinol, roedd cynnwys yr ymatebion a ddaeth i law gan y garfan hon yn debyg (gan ddefnyddio’r un testun yn aml) i’r ymatebion hynny a gyflwynwyd ar gyfer Cwestiwn 1. O’r herwydd, roedd y prif themâu a godwyd yr un fath ag ar gyfer Cwestiwn 1, ac yn ymwneud â:

- chyfreithlondeb y cynigion

- natur wrthgynhyrchiol y cynigion
- moesoldeb y cynigion
- effaith negyddol ar fynediad i wasanaethau iechyd

3.13 Mae'n werth nodi i ychydig bach o ymatebion nodi 'fel uchod' (10 ymateb) neu 'fel y nodir yng Nghwestiwn 1', felly mae'r cyfrif ar gyfer rhai o'r materion hyn ychydig yn llai nag ar gyfer Cwestiwn 1.

3.14 Lle roedd ymatebion yn ailadrodd yr union bwyntiau a wnaed ar gyfer Cwestiwn 1, nid ydynt yn cael eu hailadrodd yn yr adran hon ond dylai Llywodraeth Cymru ystyried y dadleuon a gyflwynwyd. Yn hytrach, mae'r adran hon yn ystyried y prif bwyntiau ychwanegol a godwyd gan unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc.

*Cyfreithlondeb y cynigion*

3.15 Ar y cyfan, roedd mwy o bwyslais yn cael ei roi gan unigolion, addysgwyr yn y cartref, grŵp addysg gartref a phlant a phobl ifanc ar y cwestiwn hwn fel cwestiwn 'camarweiniol', a defnyddiwyd y term hwn gan ychydig bach o ymatebwyr. Y brif ddadl a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr hyn oedd bod Adran 175 yn cael ei 'chamddefnyddio'. Cwestiynodd yr ymatebwyr a oedd gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb am ddiogelwch a lles pob plentyn, gan gynnwys plant nad oeddent yn gwybod amdanynt.

'mae'n mynd ymhell y tu hwnt i'r dyletswyddau o dan a175. Diffinnir Swyddogaethau Addysgol yn atodlen 36A ac nid ydynt yn cynnwys plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

3.16 Roedd ychydig bach o'r ymatebwyr hefyd o'r farn nad oedd Adran 175 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro trefniadau preifat rhieni yn rhagweithiol, ond yn hytrach i ddarparu gwasanaethau ac ymateb yn adweithiol i faterion yn ymwneud â lles a diogelu pan fyddant yn codi. Roedd yr ymatebion yn cwestiynu ai dyletswydd awdurdodau lleol oedd ymchwilio i achosion lle roedd tystiolaeth resymol o niwed, yn hytrach nag ymchwilio i bob teulu sy'n addysgu eu plant yn y cartref rhag ofn y byddai achosion o niwed.

'Mae hyn yn gamarweiniol. Dyletswydd ALlau yw ymateb i faterion sy'n ymwneud â diogelu a lles, nid mynd ati i chwilio am blant. Dylid cymryd bod rhieni yn cyflawni eu cyfrifoldebau oni bai bod achos i gredu fel arall.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

3.17 Awgrymodd ychydig bach o'r ymatebwyr hefyd, pe bai gan yr awdurdod lleol ddyletswydd o dan Adran 175 i fod yn gyfrifol am ddiogelu a lles pob plentyn, y byddai'n gyfrifol am fynd i'r afael ag anghenion plant ym mhob achos os nad oeddent yn cael eu diwallu, a na fyddai ganddo'r adnoddau ariannol i wneud hynny.

'Pe bai'r ALl yn gyfrifol am ddiogelu a lles pob plentyn yna byddai hefyd i'w feio mewn achosion lle nad yw anghenion plant yn cael eu diwallu - lle mae plant yn cael eu siomi gan ysgolion neu wasanaethau eraill. Wrth gwrs, nid yw hyn yn wir. Mae dyletswyddau diogelu'r ALl, fel ei ddyletswydd i addysg, yn golygu cymryd camau mewn achosion lle mae'n ymddangos bod risg neu niwed.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Bydd y cynigion yn gwneud diogelu plant yn dasg fwy heriol*

3.18 Roedd lleiafrif yr ymatebion yn cwestiynu a fyddai'r cynigion yn arwain at wella diogelwch a lles plant, ac yn awgrymu y byddent yn fwy niweidiol yn hyn o beth. Rhoddwyd dau brif reswm am hyn. Y cyntaf oedd y byddai teuluoedd yn llai tebygol ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill oherwydd nad oeddent am i'w data gael eu rhannu ag awdurdodau lleol a'r ail oedd y byddai'r cynigion yn dargyfeirio adnoddau o faterion diogelu presennol yr oedd angen i awdurdodau lleol eu blaenoriaethu. Roedd yr ymatebion o dan y thema hon hefyd yn trafod yr angen i flaenoriaethu materion diogelu sy'n digwydd o fewn lleoliadau ysgol a masnachu plant yn y DU.

'Bydd plant yn datgofrestru o ddarparwyr gofal iechyd lleol. Bydd hyn yn groes i ganlyniad bwriadedig yr awdurdodau lleol o ran diogelu a hybu lles plant.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Dryswch rhwng diogelu ac addysg yn y cartref*

3.19 Roedd ychydig o'r ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc yn awgrymu bod y

cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori yn awgrymu bod mwy o berygl o ran diogelu i'r rhai nad ydynt yn cael eu haddysgu yn yr ysgol o gymharu â'r rhai sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol.

'Mae addysg a diogelu yn ddau fater gwahanol ac ni ddylid eu drysu. Nid yw plant nad ydynt yn yr ysgol ac sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn bryder o ran diogelu.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

3.20 Roedd ychydig bach o'r ymatebwyr o'r farn mai rhieni, yn hytrach nag awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am les eu plentyn ac mai dim ond os yw'r awdurdod lleol yn amau bod plentyn mewn perygl y mae'r ddyletswydd diogelu yn berthnasol.

'Mater i rieni'r plentyn yn bennaf yw diogelu a hyrwyddo lles plant a dim ond os oes ganddo reswm i gredu nad yw'r plentyn yn cael gofal priodol gan ei rieni y daw'n ystyriaeth berthnasol i ALl.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Mae'r rheoliadau presennol yn ddigonol*

3.21 Awgrymodd ychydig bach o unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc fod y rheoliadau presennol yn ddigonol ac yn briodol, ac nad oedd angen rheoleiddio pellach.

'Rwy'n credu bod digon o reoliadau ar waith eisoes i helpu'r rhai sy'n agored i niwed ac sydd angen cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r ALl.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Cofrestr o blant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref*

3.22 Un awgrym olaf a wnaed gan ychydig bach o ymatebwyr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd datblygu cofrestr o blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref neu ei gwneud yn orfodol i gofrestru plentyn sy'n cael ei addysgu yn y gartref gyda'r awdurdod lleol, yn hytrach na chyflwyno'r rheoliadau arfaethedig.

'Os yw'r ALl[11] yn teimlo bod angen iddo gael gwybod am bob plentyn, yna dylai cofrestru fod yn orfodol a dylid gwneud ymdrech a neilltuo adnoddau

[11] Awdurdod lleol

ariannol i ddatblygu perthynas dda rhwng addysgwyr yn y cartref ac ALlau a darparu mwy o adnoddau inni.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

## 4. Pa mor gymesur a digonol yw'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu

4.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 3 yr ymarfer ymgynghori.

> **Cwestiwn 3** O dan y rheoliadau, bydd byrddau iechyd lleol yn datgelu'r wybodaeth yn yr Atodlen (enw, cyfeiriad, rhywedd a dyddiad geni plentyn) i'r awdurdod lleol fel y gall ddatblygu cronfa ddata plant sy’n colli addysg.
>
> i) A ydych yn cytuno bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn rhesymol ac yn gymesur i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg?
>
> ii) A ydych yn cytuno bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn ddigonol i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg?

4.2 Fel y dangosir yn Nhablau 4.1 a 4.2, roedd lleiafrif yn cytuno bod yr wybodaeth ofynnol yn yr Atodlen yn rhesymol ac yn gymesur, ac roedd lleiafrif yn cytuno ei bod yn ddigonol i alluogi awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg. Roedd llawer yn anghytuno bod y wybodaeth ofynnol yn rhesymol ac yn gymesur, ac roedd y mwyafrif yn anghytuno ei bod yn ddigonol i alluogi awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd.

**Tabl 4.1: A ydych yn cytuno bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn rhesymol ac yn gymesur i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg?**

| | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref** *(yn cynnwys ymatebion dyblyg posibl, ac ymatebion o'r tu allan i Gymru)* | 13 | 211 | 5 | 229 |
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 19 | 2 | 0 | 21 |
| **Rhanddeiliaid iechyd** | 2 | 1 | 3 | 6 |
| **Rhanddeiliaid eraill** | 9 | 4 | 8 | 21 |
| **Plant a phobl ifanc** | 33 | 20 | 7 | 60 |
| **Cyfanswm** | 76 | 238 | 23 | 337 |

**Tabl 4.2 A ydych yn cytuno bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn ddigonol i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg?**

| | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref** *(yn cynnwys ymatebion dyblyg posibl, ac ymatebion o'r tu allan i Gymru)* | 17 | 181 | 31 | 229 |
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 12 | 5 | 4 | 21 |
| **Rhanddeiliaid iechyd** | 2 | 0 | 4 | 6 |
| **Rhanddeiliaid eraill** | 7 | 4 | 10 | 21 |
| **Plant a phobl ifanc** | 50 | 8 | 2 | 60 |
| **Cyfanswm** | 88 | 198 | 51 | 337 |

4.3 Daeth cyfanswm o 219 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer Cwestiwn 3 (i) a 177 o ymatebion ysgrifenedig i Gwestiwn 3(ii). Dywedodd 10 ymatebydd arall eu bod wedi ateb Cwestiwn 3(ii) yng Nghwestiwn 3(i). Roedd cryn orgyffwrdd yn yr ymatebion ansoddol a gyflwynwyd i'r ddau gwestiwn, ac felly maent wedi'u grwpio gyda'i gilydd i'w hystyried yn yr adran hon.

4.4 Rydym yn ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd gan y grwpiau allweddol a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori.

**Rhanddeiliaid awdurdodau lleol**

4.5 Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yr awdurdodau lleol (19 o blith 21) yn cytuno bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn rhesymol ac yn gymesur i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg. Roedd tua hanner (12 o blith 21 o ymatebion) yn credu bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn ddigonol i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg.

'Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn gymesur ac yn rhesymol i alluogi Awdurdodau Lleol i adnabod plant o oedran ysgol gorfodol ac i'w galluogi i arfer eu dyletswydd i sicrhau eu bod yn derbyn addysg addas.' [Awdurdod lleol]

'Mae'r wybodaeth yn ddigonol i adnabod unrhyw bobl ifanc nad ydynt mewn addysg ar hyn o bryd. Yn wir, mae'n cyd-fynd â'r wybodaeth yr ydym eisoes yn ei defnyddio fel Gwasanaeth Lles Addysg i gwblhau gwiriadau PCA a gwiriadau lles; rydym yn aml yn gweithredu ar sail enw a chyfeiriad ac mae'r wybodaeth hon sy'n cael ei rhannu gan y gwasanaeth iechyd yn fwy na digon inni gyflawni ein dyletswyddau statudol, yn ogystal â chadw urddas y teulu a'r dewisiadau y maent yn eu gwneud ynglŷn ag addysg.' [Awdurdod lleol]

4.6 Awgrymodd saith awdurdod lleol y dylid casglu mwy o wybodaeth am bob plentyn, megis rhif Gwasanaeth Iechyd Gwladol gan y byddai hyn yn darparu dynodydd unigryw ar gyfer pob plentyn, gan leihau’r siawns o

unrhyw wallau, yn enwedig os bu unrhyw newid yn yr enw neu'r cyfeiriad a ddefnyddir. Awgrymodd un awdurdod lleol y dylai'r data gynnwys 'crefydd', awgrymodd un arall y dylid cynnwys 'enw, rhif cyswllt a chyfeiriad e-bost rhiant' ac awgrymodd un arall y dylid cynnwys ' Cyfenw Cyfreithiol; Enw Cyntaf Cyfreithiol; Cyfenw a Ddewiswyd; Enw Cyntaf a Ddewiswyd; Rhywedd; Dyddiad Geni.' [Awdurdod lleol]

4.7 Wrth ateb y cwestiwn hwn, bu pum awdurdod lleol yn myfyrio ar faterion ymarferol cael gafael ar y data, a chodwyd cwestiynau ynghylch a fyddai’r feddalwedd a ddefnyddir gan wasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol yn gydnaws, er mwyn ei gwneud yn bosibl i adnabod yn hawdd blant nad ydynt mewn addysg, ac a fyddai modd darparu'r data i awdurdodau lleol mewn colofnau ar wahân.

4.8 Pwysleisiodd un neu ddau o awdurdodau lleol hefyd, er y gellid darparu mwy o wybodaeth i wneud y dasg adnabod yn haws, y gallai gwneud hynny fod yn niweidiol i’r berthynas rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd.

**Rhanddeiliaid iechyd**

4.9 Roedd pob un o’r tri bwrdd iechyd lleol yn gefnogol i’r ddau gwestiwn, gydag un yn nodi:

'Byddai rhannu gwybodaeth yn creu rhestr gynhwysfawr o blant sy'n byw mewn ardal benodol. O fewn y bwrdd iechyd, er enghraifft, mae'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd yn cael gwybod am symudiadau i mewn ac allan o'r ardal, [a] byddai rhannu'r wybodaeth hon yn sicrhau bod yr ALl yn ymwybodol o'r plant hyn.' [Bwrdd iechyd lleol]

4.10 Ategodd rhanddeiliad iechyd arall ei gefnogaeth i’r cynigion, a chroesawodd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi diwygio ei dull gweithredu o ganlyniad i’r ymgynghoriad blaenorol, er ei fod yn ymwybodol y byddai’n dal yn ofynnol i wasanaethau iechyd rannu data ar bob plentyn er mwyn sefydlu cronfa ddata PCA:

'Gall rhannu gwybodaeth berthnasol am blentyn neu berson ifanc gyda'r bobl iawn, o dan amgylchiadau priodol, helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed a sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wella eu lles. Rydym ar ddeall, o ganlyniad i ymgynghori, fod Llywodraeth

Cymru wedi newid y dull arfaethedig o sefydlu a chynnal y gronfa ddata. Yn hytrach na chadw rhestr o'r holl blant oedran ysgol, bydd yn canolbwyntio ar y plant a'r bobl ifanc hynny a allai fod yn colli addysg. Er mai dim ond yr is-set hon o blant fydd yn y gronfa ddata yn y pen draw, mae'r broses o'i sefydlu (fel y nodir yn y Rheoliadau drafft) yn dal i fynnu bod byrddau iechyd lleol (a phractisau meddygon teulu o bosibl) yn rhannu gwybodaeth am yr holl blant sy'n preswylio fel arfer yn y bwrdd iechyd lleol.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

4.11 Nododd dau randdeiliad iechyd, gan gynnwys un bwrdd iechyd lleol, fod gwasanaethau iechyd clinigol yn cofnodi rhyw, yn hytrach na rhywedd, a bod angen myfyrio ar hyn yn y rheoliadau. Roedd un rhanddeiliad iechyd yn cwestiynu perthnasedd cynnwys y maes hwn, o ystyried mai pwrpas datgelu'r wybodaeth fyddai nodi lleoliad y plentyn yn hytrach na'i ryw neu rywedd.

4.12 Nododd un rhanddeiliad iechyd hefyd:

'mae'r atodlen yn y Rheoliadau drafft yn parhau i gyfeirio at enw, cyfeiriad a chod post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost holl rieni'r plentyn, enw a chyfeiriad y person sy'n darparu ei addysg, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo. Gan na fyddwn yn gofyn am yr wybodaeth hon, mae'n bwysig tynnu'r cyfeiriadau hyn o'r Atodlen er mwyn sicrhau nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n anfwriadol.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

**Rhanddeiliaid eraill**

4.13 Mynegodd rhanddeiliaid eraill farn fwy cymysg mewn ymateb i'r cwestiynau hyn. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn teimlo bod y cynigion yn anghymesur, yn niweidiol, ac yn anfoesegol, gan ailadrodd y pwyntiau a drafodwyd eisoes o dan Gwestiynau 1 a 2.

4.14 Awgrymodd y rhai a oedd yn cytuno fod:

'yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr Atodlen yn rhesymol ac yn gymesur i alluogi'r awdurdod lleol i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddo ar hyn o bryd ac sydd o bosibl yn colli addysg. Mae'n debygol o fod yn ddigonol i awdurdodau lleol allu paru'r rhan fwyaf o ddisgyblion a nodir gan y byrddau iechyd yn hawdd.' [Rhanddeiliad addysg]

'Mae'n ymddangos bod y detholiad o wybodaeth yn yr Atodlen yn taro'r cydbwysedd rhwng yr angen i adnabod plant yn effeithiol a phwysigrwydd diogelu hawliau preifatrwydd unigolion. Drwy ganolbwyntio ar ddynodwyr allweddol heb ddatgelu gwybodaeth bersonol fwy sensitif, mae'r rheoliadau'n cynnal dull rhesymol a chymesur o ddatgelu data.' [Sefydliad y trydydd sector]

4.15 Roedd y prif bwyntiau a godwyd gan randdeiliaid eraill yn ymwneud â:

- yr angen i sicrhau bod unrhyw ddata a rennir, yn enwedig ar gyfer grwpiau agored i niwed megis teuluoedd mewn lloches ddiogel oherwydd materion yn ymwneud â cham-drin domestig neu drais rhywiol, yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Gofynnodd un rhanddeiliad hefyd i unrhyw ddata a rennir gael eu rhoi yn eu cyd-destun gan y sefydliad sy'n eu derbyn, er enghraifft:

  'i rieni sy'n ceisio sicrhau bod eu plentyn yn mynd i'r ysgol ond sy'n cael anhawster i wneud hynny, gall fod yn ddigalon gwybod bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei phrosesu ond nad yw o bosibl yn cael ei rhoi yn ei chyd-destun. Rhaid sefydlu proses sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei harwain gan anghenion er mwyn sicrhau bod anghenion penodol y rhai sydd wedi goroesi camdriniaeth a'u teuluoedd yn cael eu hystyried.' [Sefydliad y trydydd sector]

- data ar nodweddion gwarchodedig: roedd un rhanddeiliad arall o'r farn ei bod yn bwysig cynnwys gwybodaeth am rywedd, gan y byddai datgelu data o'r fath yn caniatáu i awdurdodau lleol barchu a chydnabod hunaniaeth plentyn traws ac atal unrhyw achosion o gamryweddu. Roedd rhanddeiliad arall o'r farn y dylid cynnwys data'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig fel ethnigrwydd a LHDTC+[12]. Tynnodd rhanddeiliad arall sylw at y ffaith bod rhifau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn cael eu newid ar gyfer plant y cofnodwyd eu bod yn dymuno newid rhywedd, a allai roi plant a

[12] Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Pobl sy'n Cwestiynu/Cwiar ac eraill

phobl ifanc mewn perygl o beidio â chael eu hadnabod, a galwodd am ystyried canfyddiadau Adolygiad Cass yn y rheoliadau[13]

'Does dim pwrpas pasio'r rheoliadau arfaethedig i rannu mwy o ddata rhwng byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol oni bai bod Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion Adolygiad Cass sy'n berthnasol i Gymru yn gyntaf.' [Grŵp Ffydd / Seciwlar]

- yr angen i'r cynigion amlinellu'r protocol i awdurdodau lleol ei ddilyn pan na allant baru'r data a ddarparwyd â'u data eu hunain.

**Unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc**

4.16 Yn yr adran hon rydym yn ystyried yr ymatebion ansoddol a gyflwynwyd gan unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc, gan fod natur yr ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law yn debyg. Cafwyd cyfanswm o 191 o ymatebion ansoddol i ran gyntaf y cwestiwn a 165 o ymatebion ansoddol i ail ran y cwestiwn.

4.17 O blith y rhai a oedd yn cytuno â'r naill gwestiwn neu'r llall, dim ond dau a roddodd ymateb ansoddol. Mewn un achos, roedd un ymateb yn cwestiynu perthnasedd casglu data ar 'rywedd' a chredai'r llall y byddai'r rheoliadau'n cofnodi PMA sydd 'oddi ar y grid yn gyfan gwbl' ond nid y rhai sydd wedi ymddieithrio o ysgolion.

4.18 Roedd y rhan fwyaf o unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc yn anghytuno bod y wybodaeth sy'n ofynnol yn yr Atodlen yn rhesymol ac yn gymesur. Roedd y prif bwyntiau a wnaed yn debyg i'r rhai a godwyd gan y gymuned addysg yn y cartref ar gyfer Cwestiynau 1 a 2, sef eu bod yn herio cyfreithlondeb y cynigion, moeseg y cynigion, natur wrthgynhyrchiol y cynigion a'r effaith negyddol ar fynediad i wasanaethau iechyd. Ystyriwyd bod y cynigion yn anghymesur, yn niweidiol ac yn anfoesegol ac roedd yr ymatebion yn cyfleu anghytundeb:

'Mae'n afresymol. Mae'n anghymesur. Dylai unrhyw ddata neu wybodaeth o fewn gwasanaethau iechyd aros yn gyfrinachol o fewn y gwasanaethau

[13] About the Review – Cass Review

hynny oni bai bod rheswm da dros ei datgelu. Nid yw darparu gwybod am blant sy'n colli addysg yn rheswm digon da i ddatgelu gwybodaeth bersonol/data personol.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

4.19 Yn eu hatebion i Gwestiwn 3 (i), roedd y garfan hon yn canolbwyntio mwy ar y canfyddiad o dorri amodau preifatrwydd a diogelu data, ac mae’r dyfyniadau canlynol yn dangos cryfder y teimladau ynghylch y mater hwn.

'Mae hyn yn anfoesegol ac yn achos sylweddol o dorri GDPR.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

'Rwy'n gwrthwynebu hyn ar y sail bod unrhyw wybodaeth a roddaf i'm meddyg teulu yn gyfrinachol.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

4.20 Roedd llawer o unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc yn anghytuno bod y wybodaeth sy'n ofynnol yn yr Atodlen yn ddigonol. Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i nodi nad oeddent yn gwrthwynebu ar y sail bod y wybodaeth ofynnol yn 'annigonol' ond yn hytrach oherwydd ei bod yn cael ei hystyried yn ormodol, yn ddiangen ac yn annerbyniol. Mae enghraifft o’r ymatebion a dderbyniwyd yn cynnwys y canlynol:

'rargol, dyna gwestiwn arweiniol! os ydw i'n ateb 'ydw', yna mae'n rhoi'r argraff fy mod i'n cytuno, os ydw i'n ateb 'nac ydw' mae'n gwneud i mi edrych fel pe bawn i'n meddwl nad yw'n ddigonol a bod angen mwy arnoch chi, ac os ydw i'n ateb 'ddim yn gwybod' yna nid yw hynny'n wir. Rwy'n gwybod beth yw fy marn ond nid yw eich cwestiwn yn caniatáu i mi fynegi hynny - oherwydd nid yw'n cyd-fynd â'ch naratif a'ch agenda.' [Person ifanc sy'n cael ei addysgu yn y cartref]

## 5. Systemau a phrosesau amgen a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 4.

**Cwestiwn 4** A oes systemau a phrosesau amgen a fyddai'n galluogi'r awdurdod lleol i adnabod plentyn nad oes ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol amdano?

5.2 Fel y dangosir yn Nhabl 5.1, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod systemau a phrosesau amgen ar gael a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i adnabod plant nad oeddent yn hysbys iddynt o'r blaen. Nid oedd lleiafrif yn meddwl bod systemau amgen ar gael ac nid oedd rhai yn gwybod

**Tabl 5.1: A oes systemau a phrosesau amgen a fyddai'n galluogi'r awdurdod lleol i adnabod plentyn nad oes ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol amdano?**

| | Oes | Nac oes | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref** *(yn cynnwys copïau dyblyg posibl, ac ymatebion o'r tu allan i Gymru)* | 171 | 26 | 32 | 229 |
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 13 | 4 | 4 | 21 |
| **Rhanddeiliaid iechyd** | 1 | 1 | 4 | 6 |
| **Rhanddeiliaid eraill** | 9 | 1 | 11 | 21 |
| **Plant a phobl ifanc** | 8 | 40 | 12 | 60 |
| **Cyfanswm** | 202 | 72 | 63 | 337 |

5.3 Daeth cyfanswm o 223 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn, llawer ohonynt gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref. Cafwyd ychydig o ymatebion gan awdurdod lleol, iechyd a rhanddeiliaid eraill ac ychydig bach o ymatebion gan blant a phobl ifanc.

**Rhanddeiliaid awdurdodau lleol, iechyd a rhanddeiliaid eraill**

5.4 Roedd ymatebion ysgrifenedig a gafwyd gan bob math o randdeiliaid yn cynnig awgrymiadau ar gyfer systemau neu brosesau eraill y gellid eu defnyddio i adnabod plentyn nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol amdano. Roeddent yn cynnwys awgrymiadau ynghylch:

- cael gafael ar wybodaeth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) neu fudd-daliadau (gan gynnwys budd-daliadau plant)

  ‘Byddai CThEF yn cadw cofnodion plant sy’n byw yn ardal yr ALl drwy gofnodion credyd treth a budd-dal plant’ [Awdurdod lleol]

- gwybodaeth arall gan awdurdodau lleol fel gwybodaeth am y dreth gyngor a thai

  'Gall gwybodaeth am Fudd-daliadau/y Dreth Gyngor/Tai fod o gymorth os yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu at ddibenion diogelu' [Awdurdod lleol]

- darparwyr iechyd neu ddata iechyd eraill

  ‘Darparwyr iechyd gwahanol fel therapyddion iaith a lleferydd’ [Grŵp plant a theuluoedd]

  ‘Bydd cyfateb data’r BILl â data a gedwir ar gronfa ddata gofal cymdeithasol yr ALl yn helpu i atal plant sy’n derbyn gofal rhag colli'r cyfle i fanteisio ar eu hawl i addysg statudol’ [Grŵp plant a theuluoedd]

- ysgolion preifat ac annibynnol

  'cydweithio ag ysgolion/lleoliadau preifat er mwyn adnabod ymadawyr' [Awdurdod lleol]

  'hefyd mae angen…i bob ysgol Annibynnol rannu gwybodaeth' [Awdurdod lleol]

- gwybodaeth ar basbortau

- data deintyddiaeth y sector preifat neu ddarpariaeth gofal plant preifat

- data etholiadol.

5.5 Disgrifiodd cyfanswm o 12 o ymatebion gan awdurdodau lleol brosesau a oedd ganddynt ar waith eisoes. Roedd y rhain yn cynnwys disgrifiadau o sut y mae awdurdodau lleol yn gweithio'n agos ar hyn o bryd gyda gwasanaethau plant, partneriaid iechyd a/neu bartneriaid eraill fel yr heddlu. Roeddent hefyd yn cynnwys enghreifftiau penodol o brosesau sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith gan gynnwys:

- data genedigaethau byw sydd eisoes yn cael eu casglu, gan gynnwys rhif y GIG (pum ymateb)
- ymwelwyr iechyd, bydwragedd cymunedol a nyrsys ysgol yn hysbysu'r awdurdod lleol
- cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng asiantaethau perthnasol a'r awdurdod lleol megis y gwasanaeth lles addysg, gwasanaethau plant, yr heddlu, y gwasanaeth ieuenctid a thai
- cael mynediad i'r system ysgol-i-ysgol[14] i adnabod neu wneud ymholiadau am PCA – er y nodwyd bod angen gwella 'rhan disgyblion coll' y system
- cydweithio ag 'Ymgyrch Encompass' yr heddlu[15] i helpu i adnabod PCA
- adnabod plant nad ydynt yn dechrau mynychu dosbarth derbyn ar oedran ysgol gorfodol a gwneud gwiriadau PCA pellach yn unol â pholisi PCA cyfredol yr awdurdod lleol
- cronfeydd data presennol mewn awdurdodau lleol y gellir allosod gwybodaeth am PCA posibl ohonynt
- ffurflen ar-lein ddienw y gall aelodau'r cyhoedd ei defnyddio i roi gwybod i'r awdurdod lleol am unrhyw blentyn nad yw o bosibl yn

[14] School to school (S2S) data transfer system: guides - GOV.UK (www.gov.uk)
[15] Nod Ymgyrch Encompass yw sicrhau bod gan ysgolion wybodaeth amserol am yr holl ddigwyddiadau a fynychwyd gan yr heddlu yn ymwneud â phlant sy'n profi cam-drin domestig: https://www.operationencompass.org/

mynychu'r ysgol yn rheolaidd, er mwyn i'r tîm PCA fynd ar drywydd hynny wedyn

- teuluoedd yn hysbysu'r awdurdod lleol yn wirfoddol
- digwyddiadau anffurfiol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref neu deuluoedd eraill nad ydynt mewn addysg brif ffrwd fel bod perthnasoedd yn cael eu meithrin i sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu i weithio tuag at ddychwelyd i'r ysgol neu symud i'r gronfa ddata Addysg Ddewisol yn y Cartref.

5.6 Cafwyd dau ymateb gan fyrddau iechyd lleol. Awgrymodd un ymatebydd y gellid defnyddio systemau data ehangach y GIG gan gynnwys rhai y gwasanaeth ambiwlans, Iechyd Cyhoeddus Cymru a data presgripsiynau a gedwir gan Gydwasanaethau'r GIG. Awgrymodd y bwrdd iechyd arall y dylai'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol pan fydd plentyn yn cael ei ddatgofrestru o bractis meddyg teulu neu'n cofrestru mewn practis newydd.

5.7 Roedd dau randdeiliad arall yn bendant o'r farn y dylid ystyried rhoi dyletswydd statudol ar rieni i hysbysu awdurdodau lleol os nad yw eu plant yn cael eu haddysgu mewn ysgol brif ffrwd neu'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Byddai hyn yn lleihau'r risg y byddai rhai plant yn cael eu hepgor o'r gronfa ddata os nad ydynt wedi cofrestru gyda meddyg teulu.

5.8 Dywedodd ychydig bach o'r ymatebion ysgrifenedig nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw systemau neu brosesau amgen neu ni wnaethant unrhyw awgrymiadau penodol.

'[Nid ydym] yn credu bod systemau amgen gwell ar gael...Gellid cryfhau'r cynigion drwy ei gwneud yn ofynnol i'r gronfa ddata sy'n deillio o hynny gael ei rhannu'n genedlaethol fel y gall pob awdurdod lleol ymgynghori. Gallai hyn helpu i nodi a diogelu plant a allai symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol' [Rhanddeiliad addysg]

5.9 Nododd ychydig bach o ymatebion nad oedd y ddeddfwriaeth hon yn bosibl, neu nad oedd ei hangen.

**Unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc**

5.10 O blith yr ymatebion hyn, dywedodd y mwyafrif fod ymgysylltu gwirfoddol a ffocws ar ennyn ymddiriedaeth a meithrin perthynas dda rhwng awdurdodau lleol â theuluoedd nad ydynt mewn addysg brif ffrwd yn ddull amgen mwy priodol.

5.11 Roedd geiriad tua hanner yr ymatebion yn union yr un fath neu bron yn union yr un fath ar y pwynt hwn:

'ymgysylltu gwirfoddol a pharchus, nid ataliadau gorfodol.' [Unigolion / addysgwyr yn y cartref]

5.12 Ailbwysleisiodd lleiafrif yr ymatebion nad oedd angen y ddeddfwriaeth, nad oedd yn bosibl rhoi system neu broses ar waith neu nad oeddent wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol.

5.13 Awgrymodd ychydig o ymatebion o'r garfan hon systemau neu brosesau eraill gan gynnwys y rhai sydd eisoes ar waith gan awdurdod lleol. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â chael mynediad i ddata cofrestru genedigaethau, budd-dal plant a budd-daliadau eraill, yn ogystal â data mewnfudo gan y Swyddfa Gartref. Awgrymodd eraill y dylid rhannu gwybodaeth o atgyfeiriadau ynghylch pryderon penodol gan aelodau o’r teulu, yr heddlu neu weithwyr proffesiynol eraill mewn sefyllfaoedd lle mae lle i gredu bod y plentyn yn colli addysg neu wella’r system cyswllt dilynol pan fo plentyn yn cael ei ddatgofrestru o’r ysgol. At hynny, awgrymodd eraill y dylai fod gofyniad i rieni hysbysu’r awdurdod lleol am y penderfyniad i addysgu yn y cartref:

'Cronfa ddata tystysgrifau geni a'r gofrestr etholiadol.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

'Dylai hefyd fod yn ofynnol i rieni hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw blant y maent yn dewis eu haddysgu yn y cartref. Ar hyn o bryd nid yw hyn yn digwydd os nad yw plentyn erioed wedi'i gofrestru mewn ysgol.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

5.14 Awgrymodd ychydig bach o ymatebion a awgrymodd ffyrdd o ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd sy’n addysgu yn y cartref gan gynnwys dulliau yn seiliedig ar weithgareddau allgymorth gyda’r nod o ymgysylltu â theuluoedd sy’n addysgu eu plant yn y cartref.

‘Dull gwell o lawer fyddai ymroi amser ac adnoddau i gynyddu ymgysylltiad â’r gymuned sy’n addysgu yn y cartref mewn modd anfygythiol a pharchus’ [Unigolyn / Addysgwr yn y Cartref]

## 6. Manteision ac anfanteision datgelu'r data

6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiwn 5 yr ymarfer ymgynghori.

**Cwestiwn 5** Yn eich barn chi, pa fanteision ac anfanteision, os oes rhai, fyddai'n deillio o ddatgelu'r data gofynnol i boblogi'r gronfa ddata?

6.2 Er y gofynnwyd iddynt lenwi'r adran sy'n berthnasol iddynt, ni chyfyngodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad eu hymateb i'r adran a oedd fwyaf perthnasol iddyn nhw.

**Rhieni a gofalwyr**

6.3 Daeth cyfanswm o 217 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref.

6.4 At hynny, casglwyd ymatebion gan 52 o blant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn sesiynau grwpiau ffocws, saith o blant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn digwyddiadau rhanbarthol Llywodraeth Cymru ac 14 o blant a phobl ifanc a gymerodd ran yn arolwg ar-lein Plant yng Nghymru.

*Manteision*

6.5 Nododd ychydig bach o ymatebion fanteision i rieni a gofalwyr. At hynny, nodwyd manteision mewn sesiynau grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc. Y ddwy brif fantais a grybwyllwyd oedd y gallent:

- arwain at ymyriadau amserol a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau o ran cael mynediad i addysg neu a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, a fyddai yn ei dro yn arwain at ganlyniadau addysgol gwell

  'Gall gefnogi'r plant, yn ôl yr angen, i gael mynediad i leoedd ysgol neu drefniadau eraill.' [Awdurdod lleol]

'Mae'r rheoliadau ADY newydd[16] yn caniatáu i'r CDU[17] gynnwys plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref - gallai rhiant gael mynediad i gymorth pellach' [Addysgwr unigol / cartref]

- lleihau'r angen i deuluoedd orfod ailadrodd gwybodaeth wrth wahanol wasanaethau:

'teuluoedd [plant ag anableddau dysgu] ddim yn gorfod ailadrodd gwybodaeth wrth wahanol wasanaethau. Gall gorfod esbonio'r un wybodaeth i wahanol bobl sy'n ymwneud â gofal plentyn flino rhywun. Byddai hyn hefyd yn gwella'r cydweithio rhwng y Byrddau Iechyd Lleol a'r ALl. Mae platfformau eisoes yn bodoli fel y pecyn cymorth ar-lein 'Multi-Me'[18] sy'n cynnwys swyddogaethau lle mae gwybodaeth am berson yn cael ei huwchlwytho gyda chaniatâd penodol o ran pwy all gael mynediad iddi, fel gweithwyr proffesiynol gwahanol.' [Sefydliad plant a theuluoedd]

*Anfanteision*

6.6 Nododd gweddill yr ymatebion ysgrifenedig anfanteision i rieni a gofalwyr. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion a oedd yn cynnwys deunydd ymgyrchu. Er enghraifft, roedd 33 o ymatebion yn union yr un fath ac yn nodi bod y cynigion:

'yn niweidio mynediad i ofal iechyd a mewnbwn allanol i addysg drwy fynd ati i greu rhwystrau, yn dargyfeirio arian y trethdalwr o'r mannau lle mae gwir ei angen, yn trin rhieni sy'n datgofrestru oherwydd methiannau ysgol gydag amheuaeth gynyddol ac mewn ffordd gosbol, yn creu hinsawdd o ddrwgdybiaeth/amheuaeth, stigma a sensoriaeth sy'n gwneud swyddi a bywydau pawb yn anos, a hynny'n ddiangen, gan leihau ymgysylltiad â gwasanaethau statudol.' [33 o ymatebion gwahanol gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref]

6.7 Roedd y prif anfanteision a nodwyd yn ymwneud â:

---

[16] Anghenion Dysgu Ychwanegol
[17] Cynllun Datblygu Unigol
[18] Multi Me - Support Networking

- llai o fynediad i wasanaethau gofal iechyd a llai o ddefnydd ohonynt, gan y byddai teuluoedd sy'n addysgu eu plant yn y cartref yn llai tebygol o fanteisio ar gymorth meddygol, a chodwyd hyn gan tua hanner yr ymatebion

  'bydd hyn yn niweidio mynediad i ofal iechyd drwy leihau ymgysylltiad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

- edrych ar deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref gyda mwy o amheuaeth, drwgdybiaeth a stigma, a nodwyd gan leiafrif yr ymatebion. Defnyddiwyd y term 'amheuaeth' neu 'amheus' 74 o weithiau i gyd; defnyddiwyd y term ‘drwgdybiaeth’ 55 o weithiau a defnyddiwyd y term ‘stigma’ 49 o weithiau yn yr ymatebion a ddaeth i law

  'Rwy'n teimlo fy mod wedi cael fy rhoi dan amheuaeth am dynnu fy merch awtistig o'r ysgol, rwy'n ceisio ei hamddiffyn, nid achosi niwed iddi.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

- pryderon am breifatrwydd a chyfrinachedd data, gan gynnwys peidio â bod eisiau rhannu data preifat ag awdurdodau lleol, a phryderon am ddiogelwch data a gedwir gan awdurdodau lleol, a nodwyd gan leiafrif o'r ymatebion. Codwyd diogelwch data am ddioddefwyr cam-drin domestig hefyd gan yr ymatebwyr o dan y thema hon

  'Bydd dioddefwyr cam-drin domestig yn cael eu rheoli fwyfwy gan y sawl sy'n niweidio eu bywydau nhw a bywydau eu plant' [Unigolyn / Addysgwr yn y Cartref]

- y posibilrwydd y byddai’r rheoliadau’n niweidio'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd sy’n addysgu eu plant yn y cartref, ac y byddent yn llai tebygol o droi at awdurdodau lleol, yn ogystal â darparwyr cymorth addysgol eraill, am gymorth, a godwyd gan ychydig bach o ymatebion

  'Rwy'n meddwl y byddai'n creu awyrgylch gelyniaethus rhwng yr ALl a rhieni' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

- mwy o straen i deuluoedd, a nodwyd gan ychydig bach o ymatebion

  'Straen oherwydd y strach o fod angen profi dro ar ôl tro nad yw'r plentyn yn PCA.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

**Plant a phobl ifanc**

6.8 Daeth cyfanswm o 136 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r rhain yn ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref.

6.9 At hynny, casglwyd ymatebion gan 52 o blant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn sesiynau grwpiau ffocws, saith o blant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn digwyddiadau rhanbarthol Llywodraeth Cymru ac 14 o blant a phobl ifanc a gymerodd ran yn arolwg ar-lein Plant yng Nghymru.

*Manteision*

6.10 Nododd ychydig bach o ymatebion fanteision i blant a phobl ifanc. At hynny, nodwyd manteision yn y sesiynau grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc. Y prif fanteision a grybwyllwyd oedd:

- y byddai plant a phobl ifanc yn cael eu hadnabod, eu diogelu a'u cefnogi

  'mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r rhesymau pam mae'n rhaid i ni wirio a diogelu yn y sefyllfaoedd hyn.' [Awdurdod lleol]

  'bydd y ddeddfwriaeth a'r gofyniad hwn yn cryfhau ein gallu ein hunain i gyflawni ein dyletswydd statudol i ddiogelu a hybu iechyd ein preswylwyr, yn yr ystyr y bydd yn ein galluogi i ddeall pwy yw ein preswylwyr a lle mae'r bylchau yn y gwasanaethau a gynigir gennym. Yn y modd hwn mae manteision posibl i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a sicrhau bod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn hysbys ac yn cael gofal a chymorth cymesur.' [Bwrdd iechyd lleol]

- bydd plant a phobl ifanc nad ydynt efallai'n cael mynediad i addysg neu addysg briodol yn cael eu hadnabod, a bydd y rhesymau dros hyn yn cael eu pennu e.e. nid ydynt yn cael mynediad i'r ddarpariaeth arbenigol gywir, neu rwystrau ieithyddol a diwylliannol

'sicrhau bod plant ifanc yn cael addysg a'u bod yn cael eu gwarchod.' [Awdurdod lleol]

*Anfanteision*

6.11 Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion ysgrifenedig anfanteision i blant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref yn bennaf ac yn cynnwys deunydd ymgyrchu a oedd yn cynnig yr un ymateb â'r hyn a ddarparwyd i Gwestiwn 5 'rhieni a phlant'. Er enghraifft, roedd 24 o ymatebion yn union yr un fath ac yn ailadrodd bod y cynigion:

'yn niweidio mynediad i ofal iechyd a mewnbwn allanol i addysg drwy fynd ati i greu rhwystrau, yn dargyfeirio arian y trethdalwr o'r mannau lle mae gwir ei angen, yn trin rhieni sy'n datgofrestru oherwydd methiannau ysgol gydag amheuaeth gynyddol ac mewn ffordd gosbol, yn creu hinsawdd o ddrwgdybiaeth/amheuaeth, stigma a sensoriaeth sy'n gwneud swyddi a bywydau pawb yn anos, a hynny'n ddiangen, gan leihau ymgysylltiad â gwasanaethau statudol.' [24 o ymatebion gwahanol gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref]

6.12 Roedd y prif anfanteision yn debyg i'r rhai a nodwyd ar gyfer rhieni a gofalwyr, ac roeddent yn cynnwys:

- lleihau mynediad i wasanaethau gofal iechyd a'r defnydd ohonynt, gan y byddai plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref yn llai tebygol o fanteisio ar gymorth meddygol, a chrybwyllwyd hyn gan leiafrif yr ymatebion

  'Gallai hyn leihau cyswllt â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a fydd yn niweidiol i lesiant plant.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

- edrych ar blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref gyda mwy o ddrwgdybiaeth a diffyg ymddiriedaeth (a grybwyllir gan leiafrif yr ymatebion)

  'Mae'r angen am ddata ar blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn golygu nad ydym yn cyd-fynd â'r norm.' [Plentyn / person ifanc sy'n cael ei addysgu yn y cartref]

- plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn cael eu stigmateiddio oherwydd eu bod ar gofrestr, a nodwyd gan leiafrif yr ymatebion

  'Stigma o fod 'ar gofrestr'.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

- pryderon am breifatrwydd a chyfrinachedd data, gan gynnwys peidio â bod eisiau rhannu data preifat â'r awdurdod lleol, a phryderon am ddiogelwch data a gedwir gan awdurdodau lleol, a nodwyd gan leiafrif o'r ymatebion.

  'Mae angen i blant wybod bod eu gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Mae gan awdurdodau lleol enw drwg am dorri rheolau GDPR, ac mae gwybodaeth plant yn sensitif. Fel gofalwr maeth, rwyf wedi dod yn ymwybodol o ba mor hawdd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu o fewn awdurdodau lleol.' [Rhanddeiliad arall]

- yr effaith negyddol ar fynediad i wasanaethau cymorth statudol, gan gynnwys gwasanaethau awdurdodau lleol, a grybwyllwyd gan leiafrif o'r ymatebion

  'Y canlyniad fydd lleihau ymgysylltiad â gwasanaethau statudol.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

- yr effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, a grybwyllwyd gan ychydig bach o ymatebion, yn enwedig plant a phobl ifanc sydd wedi cael cyfnod heriol mewn ysgol yn y gorffennol

  'Mae plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ... yn debygol o deimlo eu bod yn cael eu stigmateiddio ac yn teimlo'n bryderus ynghylch y posibilrwydd y bydd eu haddysg yn cael ei 'arolygu' heb unrhyw gyfiawnhad. Mae hyn yn arbennig o anodd i'r plant hynny sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ar ôl cael profiad trawmatig a dirdynnol yn yr ysgol. Iddyn nhw, cartref yw eu 'lle diogel' a bydd y syniad bod angen i awdurdodau lleol gynnal ymchwiliadau dro ar ôl tro i'w haddysg yn cael ei weld fel rhywbeth bygythiol iawn.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

**Byrddau iechyd lleol a chontractwyr meddygol cyffredinol**

6.13 Daeth cyfanswm o 115 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r rhain yn ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref.

6.14 Rydym yn ystyried yn gyntaf y pum ymateb a gafwyd gan y sector iechyd, cyn crynhoi'r ymatebion gan garfannau eraill.

*Barn byrddau iechyd lleol a chontractwyr meddygol cyffredinol*

6.15 Ystyriwyd mai prif fanteision y cynigion oedd y byddent yn:

- cynorthwyo'r sefydliadau hyn i fodloni eu gofynion diogelu a lles, a
- chynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a nodir yn Neddf Plant 2004 ac Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

6.16 Credwyd mai prif anfanteision y cynigion oedd:

- y potensial i ormod o ddata gael eu rhannu ar bob ffurflen, pe bai'r un data yn cael eu darparu bob tro
- baich ychwanegol ar y sector iechyd i echdynnu a rhannu'r wybodaeth
- risg ychwanegol y bydd angen i bractisau meddygon teulu rannu'r wybodaeth â'u bwrdd iechyd lleol i'w throsglwyddo i awdurdodau lleol, a ph'un a fyddai llai o risgiau'n gysylltiedig â rhannu data yn fwy uniongyrchol rhwng meddygon teulu ac awdurdodau lleol
- cwestiwn ynghylch a ddylai'r bwrdd iechyd lleol fod yn Rheolydd Data (ac nid dim ond Prosesydd Data fel yr awgrymir yn y ddogfen ymgynghori) os yw'n ofynnol iddo ymgymryd ag ymarfer paru data a rhesymoli rhestrau meddygon teulu a ddarperir, cyn eu rhannu ag awdurdodau lleol
- cwestiwn ynghylch sut y byddai unrhyw ddata dyblyg gan fyrddau iechyd lleol a chontractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn cael eu rheoli

- y potensial o gamgyfatebiaeth rhwng ffiniau, ac y gallai'r ffaith na fydd ardaloedd byrddau iechyd lleol a meddygon teulu o bosibl yn cyfateb yn uniongyrchol ag ardaloedd awdurdodau lleol arwain at wallau
- y posibilrwydd na fyddai’r data’n gyfredol ar yr adeg y cânt eu rhannu â’r awdurdod lleol
- efallai na fydd y data’n adlewyrchu gwybodaeth gywir am blant sydd wedi marw, gan arwain at y risg o gysylltu â rhieni plant sydd wedi marw
- y byddai angen hysbysu rhieni/gofalwyr am y broses, cael eu cydsyniad, a bod angen i awdurdodau lleol sicrhau bod data’n cael eu cadw’n gyfrinachol.

*Barn awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill*

6.17 Roedd yr ymatebion hyn yn cydnabod y byddai'r cynigion yn arwain at lwyth gwaith ychwanegol i'r sector iechyd ac y byddai angen lliniaru'r pryderon am breifatrwydd data a'r ffordd y byddai gwybodaeth am gleifion yn cael ei thrin.

6.18 Roedd un ymatebydd yn meddwl y byddai’n gwella’r cydweithio rhwng y sector iechyd ac awdurdodau lleol i adnabod plant sy’n colli ysgol, a thrwy hynny greu:

'cefnogaeth fwy cynhwysfawr ac effeithiol i blant sy'n agored i niwed.' [Sefydliad y trydydd sector]

*Barn unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref*

6.19 Roedd yr ymatebion gan y garfan hon yn canolbwyntio ar anfanteision cyffredinol y cynigion. Gan fod y materion hyn eisoes wedi’u trafod yn helaeth yn y dadansoddiad o’r ymatebion i’r ymgynghoriad a gafwyd ar gyfer Cwestiynau 1 i 5ii, nid ydynt wedi’u meintoli a’u trafod yn fanwl yma. Defnyddiodd ychydig o ymatebion (19 o ymatebion) yr un testun ag ar gyfer ymatebion blaenorol i Gwestiwn 5. Roedd y prif themâu a godwyd yn ymwneud â:

- llwyth gwaith ychwanegol a phwysau gwaith sy'n wynebu'r sector iechyd
- materion yn ymwneud â chyfrinachedd, preifatrwydd data, a diogelu data
- materion yn ymwneud â'r berthynas rhwng claf a chontractwr, ac erydu ymddiriedaeth rhwng claf a darparwr gofal iechyd.

**Awdurdodau lleol**

6.20 Daeth cyfanswm o 116 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r rhain yn ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref.

6.21 Yn gyntaf, rydym yn ystyried yr 19 ymateb a gafwyd gan awdurdodau lleol, cyn crynhoi’r ymatebion gan garfannau eraill.

*Barn awdurdodau lleol*

6.22 O blith yr 19 awdurdod lleol a atebodd y cwestiwn hwn, nododd llawer fanteision y cynigion. Nodwyd y byddai’r cynigion yn:

- ei gwneud yn haws adnabod plant sy'n colli addysg yn sgil y ffaith bod gan awdurdodau lleol fynediad i 'restr gywir a chyfredol o blant' sy'n byw yn eu hardal yn flynyddol, a grybwyllwyd gan y mwyafrif o awdurdodau lleol. Byddai’r cynigion yn helpu awdurdodau lleol i adnabod plant yn gynt a mabwysiadu gweithdrefnau diogelu mwy cyflawn a chadarn
- caniatáu i awdurdodau lleol arfer eu dyletswydd yn well i sicrhau bod plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas, a nodwyd gan leiafrif o ymatebwyr awdurdodau lleol
- galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion plant yn eu hardal, ac felly rhoi ymyriadau priodol ar waith, gan gynnwys ‘camau atal ac ymateb’ a ‘chyngor ac arweiniad proffesiynol’ a nodwyd gan ychydig o ymatebwyr
- datblygu mwy o gysondeb o ran dull gweithredu ledled Cymru, drwy un gronfa ddata PCA ar gyfer Cymru a chaniatáu ar gyfer rhannu

gwybodaeth, megis am ADY, o fewn ardaloedd awdurdodau lleol a'r tu allan iddynt.

6.23 Roedd prif anfanteision y cynigion yn ymwneud â:

- llwyth gwaith ychwanegol ar gyfer staff awdurdodau lleol, a goblygiadau hyn o ran adnoddau staff a chyllid, a grybwyllwyd gan leiafrif o'r ymatebion gan awdurdodau lleol. Rhagwelwyd y byddai'r cynigion yn arwain at dasgau ychwanegol megis croeswirio cronfeydd data, cydweithio ag awdurdodau lleol eraill, ymdrin â throsiant plant sy'n symud i mewn ac allan o'r ardal, a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau pan na fyddai data ar gael o bosibl. Mynegodd awdurdodau lleol bryderon na fyddai unrhyw arian nac adnoddau ychwanegol ar gael iddynt ymgymryd â hynny
- yr effaith negyddol bosibl ar berthnasoedd rhwng awdurdodau lleol a’r gymuned addysg yn y cartref, a grybwyllwyd gan ychydig bach o ymatebwyr.

*Barn rhanddeiliaid iechyd a rhanddeiliaid eraill*

6.24 Nododd y rhanddeiliaid hyn fanteision tebyg i'r rhai a nodwyd gan awdurdodau lleol. Yn ogystal â hynny, awgrymodd y rhanddeiliaid hyn y byddai’r cynigion hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio’n well ar gyfer anghenion plant yn y dyfodol. O ran yr anfanteision, roedd y pwynt ychwanegol allweddol a wnaed gan un rhanddeiliad iechyd yn ymwneud â’r angen i ystyried sut y byddai gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni eu rhwymedigaethau preifatrwydd o ran hysbysu unigolion bod y data’n cael eu rhannu’n rheolaidd at y diben hwn.

*Barn unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref*

6.25 O blith yr ymatebion a gafwyd gan y garfan hon, defnyddiodd 19 yr un testun yn union ag a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer Cwestiynau 5i i 5iii ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn fanwl eto yma. Roedd ychydig bach o ymatebion yn myfyrio ar fanteision y cynigion ond roedd y mwyafrif yn myfyrio ar yr anfanteision.

6.26 Nodwyd mai'r brif fantais oedd galluogi awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt yn derbyn addysg addas.

6.27 Credwyd bod yr anfanteision yn cynnwys:

- yr effaith negyddol bosibl ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol a’r gymuned addysg yn y cartref, gan y byddai angen i awdurdodau lleol flaenoriaethu’r tasgau o gadw llygad ar deuluoedd yn hytrach na’u cefnogi, gan beryglu dieithrio teuluoedd sy’n addysgu eu plant yn y cartref
- y llwyth gwaith cynyddol ar gyfer staff awdurdodau lleol, a fyddai’n amharu ar flaenoriaethau eraill ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau prin. Gallai fod perygl i awdurdodau lleol gael eu llethu gan faint o ddata a gesglir
- y perygl y gallai data sensitif gael ei gamddefnyddio neu ei rannu'n ddamweiniol.

**Sefydliadau rhanddeiliaid eraill**

6.28 Daeth cyfanswm o 69 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r rhain yn ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref.

6.29 Yn gyntaf, rydym yn ystyried y 12 ymateb a gafwyd gan sefydliadau rhanddeiliaid, cyn crynhoi’r ymatebion gan garfannau eraill.

*Barn sefydliadau rhanddeiliaid eraill*

6.30 Nododd mwyafrif y sefydliadau rhanddeiliaid eraill fanteision y cynigion. Yn bennaf, roedd y rhain yn adleisio’r manteision a drafodwyd eisoes yn y bennod hon megis gallu adnabod yn well blant nad ydynt yn derbyn addysg, drwy gael gafael ar ddata mwy cywir a chyfredol ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu hardal, a thrwy hynny ganiatáu i awdurdodau lleol ymyrryd a darparu’r gefnogaeth angenrheidiol. Amlygodd dau ymateb fanteision gwell cydweithio:

'Gall rhanddeiliaid eraill, megis ysgolion, sefydliadau cymunedol, ac asiantaethau'r llywodraeth, elwa ar well cydweithio a rhannu gwybodaeth a fydd yn cael ei hwyluso gan y gronfa ddata. Gallai hyn arwain at gydgysylltu

gwasanaethau a chymorth i blant sy'n colli addysg mewn ffordd well.' [Sefydliad y trydydd sector]

'Gall rhannu'r wybodaeth hon fod o fudd mawr i'r boblogaeth ar lefel ehangach drwy hwyluso gwaith cynllunio lleol a rhanbarthol wedi'i deilwra i anghenion penodol y gymuned a chefnogi penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddai'r data hyn yn caniatáu i benderfyniadau mwy gwybodus gael eu gwneud, dyrannu adnoddau'n effeithlon a rhoi ymyriadau wedi'u targedu ar waith i fynd i'r afael â heriau lleol a gwella llesiant cyffredinol - yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.' [Sefydliad plant a theuluoedd]

6.31 Nododd tua hanner yr ymatebion anfanteision, ac roedd y rhain yn ymwneud â rhannu data, cynnydd yn llwyth gwaith byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, y posibilrwydd o rieni'n ymddieithrio, a mwy o ddiffyg ymddiriedaeth rhwng awdurdodau a theuluoedd. Serch hynny, dadleuodd dau randdeiliad fod 'llawer mwy o fanteision nag anfanteision.' [Rhanddeiliad addysg].

*Barn unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref*

6.32 O blith y 54 o ymatebion a gafwyd gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref, nodwyd bod 19 yn ymatebion ymgyrch gan eu bod yn defnyddio’r un testun yn union ag yr oeddent wedi’i ddefnyddio’n flaenorol ar gyfer Cwestiynau 5i i 5iv ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn fanwl eto. Mae dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn datgelu na chodwyd unrhyw faterion newydd. Amlygodd yr ymatebion yr anfanteision sy’n gysylltiedig â’r cynigion.

## 7. Amlder datgelu gwybodaeth a mynediad i wybodaeth

7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiynau 6, 7 ac 8 yr ymarfer ymgynghori.

**Cwestiwn 6** Mae'r rheoliadau drafft yn cynnig bod byrddau iechyd lleol yn datgelu gwybodaeth i awdurdodau lleol yn flynyddol. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol?

7.2 Mae Tabl 7.1 isod yn dangos bod lleiafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno a bod y mwyafrif yn anghytuno â'r cynnig i fyrddau iechyd lleol ddatgelu gwybodaeth yn flynyddol. Plant a phobl ifanc, ac awdurdodau lleol oedd fwyaf tebygol o gytuno, ac unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref oedd fwyaf tebygol o anghytuno.

**Tabl 7.1. A ydych yn cytuno â datganiad blynyddol?**

| | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Unigolion, addysgwyr yn y cartref, a grwpiau addysg yn y cartref** *(yn cynnwys ymatebion dyblyg posibl, ac ymatebion o'r tu allan i Gymru)* | 7 | 206 | 16 | 229 |
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 12 | 6 | 3 | 21 |
| **Rhanddeiliaid iechyd** | 0 | 2 | 4 | 6 |
| **Rhanddeiliaid eraill** | 4 | 9 | 8 | 21 |
| **Plant a phobl ifanc** | 52 | 7 | 1 | 60 |
| **Cyfanswm** | 75 | 230 | 32 | 337 |

7.3 Daeth cyfanswm o 218 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. Rydym yn ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd gan y pum grŵp allweddol a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori.

**Rhanddeiliaid awdurdodau lleol**

7.4 Awgrymodd pob awdurdod lleol a ymatebodd ac a roddodd sylwadau ychwanegol (11) y dylid darparu’r wybodaeth iddynt o leiaf unwaith y flwyddyn. Roedd yr amserlenni amlach a awgrymwyd gan y garfan hon yn cynnwys bob chwarter, bob hanner tymor, neu bob tymor fel y gellid derbyn gwybodaeth mewn modd amserol.

7.5 Roedd yr awgrymiadau ynghylch pryd y dylid darparu’r wybodaeth hon yn cynnwys:

- i gyd-fynd â'r flwyddyn academaidd
- ddechrau mis Medi
- ar yr un pryd â cheisiadau am ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).
- yn unol â datganiadau tebyg fel y rhai ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref neu pan fydd plentyn yn cyrraedd oedran ysgol

'Mae angen rhannu hyn yn amlach...byddai datganiad blynyddol yn dyddio'n gyflym a gall amgylchiadau plant newid yn gyflym.' [Awdurdod lleol]

'Byddai'n ddefnyddiol cael datganiad chwarterol o wybodaeth neu bob chwe mis. Mae deuddeg mis yn gyfnod hir iawn i beidio â rhannu gwybodaeth am blant.' [Awdurdod lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd**

7.6 Daeth pedwar ymateb ysgrifenedig i law i'r cwestiwn hwn gan raddeiliaid iechyd. Awgrymodd dau ymatebydd y dylid derbyn gwybodaeth yn amlach nag unwaith y flwyddyn ac awgrymwyd y byddai'n fwy priodol diweddaru'r gronfa ddata cyn gynted ag y byddai'r bwrdd iechyd lleol yn derbyn hysbysiad ynghylch symud plant.

'Os na chaiff y data ei ddefnyddio gan ALlau o fewn cyfnod byr iawn o amser, yna gall y data fod yn amherthnasol. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle y gall ymwneud â phlant sydd wedi marw ers hynny. Hefyd, bydd llenwi datganiad blynyddol ond yn rhoi cipolwg mewn amser ac nid gwybodaeth

am sefyllfaoedd sydd wedi newid neu pan fydd unigolion yn symud i mewn neu allan o Gymru, bydd hyn yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd ar y ffin.' [Rhanddeiliad iechyd]

7.7 Awgrymodd dau o'r ymatebion ddulliau amgen. Er enghraifft, pe bai'r bwrdd iechyd lleol yn dod o hyd i ddata gan wasanaeth demograffig cenedlaethol Cymru, sy'n gweithredu drwy gymryd mewnbynnau o nifer o systemau gweinyddol (gan gynnwys y System Gweinyddu Cleifion, y cofnod meddygon teulu, a'r gronfa ddata iechyd plant) yna gellid cyflawni cronfa ddata amser real bron am gost fach. Awgrymodd y llall y gallai'r system Adnoddau Data Cenedlaethol, o'i gweithredu'n llawn a'i hategu gan ddeddfwriaeth, fod yn ddull mwy priodol yn y dyfodol.

**Rhanddeiliaid eraill**

7.8 Awgrymodd mwyafrif yr ymatebion ysgrifenedig a ddarparwyd gan grwpiau plant a theuluoedd, rhanddeiliaid addysg, grwpiau ffydd/seciwlar a grwpiau eraill y dylai'r datganiadau data gael eu cyflwyno'n amlach nag unwaith y flwyddyn:

'Na, rwy'n teimlo y dylai fod yn fwy rheolaidd na hynny, o leiaf bob tymor neu ddwywaith y flwyddyn' [Grwpiau plant a theuluoedd]

'Mae risg y bydd y penderfyniad i gasglu'r data hyn yn flynyddol yn hytrach nag yn fwy rheolaidd drwy 'gronfa ddata fyw' yn caniatáu i blant agored i niwed lithro drwy'r rhwyd' [grŵp ffydd / seciwlar]

7.9 Dim ond dau ymatebydd a wnaeth awgrymiadau ynghylch pryd fyddai'r amser mwyaf priodol i rannu'r wybodaeth:

'Dylai'r wybodaeth a ddatgelir gan fyrddau iechyd lleol gyd-fynd â thymhorau'r flwyddyn academaidd h.y. dylai byrddau iechyd lleol ddatgelu gwybodaeth i awdurdodau lleol deirgwaith y flwyddyn ar ddechrau pob tymor' [Rhanddeiliad addysg]

'…mae rhannu'r wybodaeth yn flynyddol yn rhesymol, a byddai'n fanteisiol sicrhau bod amseriad rhannu'r wybodaeth hon yn cyd-fynd â dyddiad casglu blynyddol CYBLD gan fod hyn yn debygol o helpu gyda chywirdeb a llwyth gwaith.' [Rhanddeiliad addysg]

7.10 Ategodd pob ymateb ysgrifenedig arall gan yr is-grŵp hwn y ffaith na ddylid darparu'r wybodaeth o dan unrhyw amgylchiadau.

**Plant a phobl ifanc**

7.11 Dywedodd pump o'r chwe phlentyn a pherson ifanc a roddodd sylwadau pellach ar gyfer y cwestiwn hwn na ddylai'r wybodaeth fyth gael ei hanfon i awdurdodau lleol gan ei bod yn breifat.

'ni ddylai gael ei hanfon o gwbl' [Plant a phobl ifanc]

'na, ni ddylech fod yn gwneud unrhyw ddatganiad oherwydd dyw'r cynigion hyn ddim yn iawn.' [Plant a phobl ifanc]

**Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref**

7.12 Roedd y rhan fwyaf o unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref yn anghytuno â'r cwestiwn hwn, gan nodi yn eu hymatebion ysgrifenedig na ddylid darparu'r wybodaeth i awdurdodau lleol o gwbl gan y byddai'n torri preifatrwydd y claf:

'Ni ddylid rhannu'r wybodaeth o gwbl.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

7.13 Roedd rhai o'r ymatebion yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y rhesymau pam nad oedd angen y cynigion, ac yn nodi'n bennaf y cynnydd yn y llwyth gwaith a'r goblygiadau o ran costau. Ymdrinnir â'r pwyntiau hyn yn y dadansoddiad o gwestiynau eraill yr ymgynghoriad hwn ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma gan nad ydynt yn ymwneud â'r cwestiwn penodol hwn.

7.14 Roedd ychydig bach o unigolion ac addysgwyr yn y cartref yn credu bod angen darparu gwybodaeth yn amlach neu'n awgrymu y gallai'r bwrdd iechyd lleol rannu manylion plentyn dim ond os oedd pryderon ynghylch lles y plentyn:

'Dylai fod yn amlach, bob chwarter neu bob tymor.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

'Dim ond os oes amheuaeth o gam-drin.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

> **Cwestiwn 7** Beth fyddai goblygiadau datganiad data amlach o ran technoleg, prosesau gweinyddol ac adnoddau i (i) byrddau iechyd lleol, (ii) awdurdodau lleol a (iii) eraill.

7.15 Daeth cyfanswm o 432 o ymatebion unigol i law ar draws tair is-adran y cwestiwn hwn yn amrywio o 165 o ymatebion i Gwestiwn 7(i), 164 o ymatebion i Gwestiwn 7(ii) a 103 o ymatebion i Gwestiwn 7(iii).

7.16 Dadansoddir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn isod o dan yr is-adran fwyaf perthnasol. Trafodir ymatebion a ddarparwyd gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref sy'n ehangach eu natur neu'n berthnasol i fwy nag un is-adran o'r cwestiwn mewn adran ar wahân ar y diwedd.

**Goblygiadau i fyrddau iechyd lleol**

7.17 Ymatebodd tri bwrdd iechyd lleol i'r cwestiwn hwn. Y prif fater a godwyd a fyddai'n cael effaith benodol ar fyrddau iechyd lleol yw'r potensial ar gyfer cynnydd yn eu llwyth gwaith o ganlyniad i ofynion gweinyddol ychwanegol. Awgrymodd un bwrdd iechyd lleol, o safbwynt llywodraethu gwybodaeth, y byddai mwy o angen i gynnal gwiriadau ar ansawdd data [Bwrdd iechyd lleol]. Codwyd pryderon gan fwrdd iechyd lleol arall y gallai hyn roi rhagor o straen ar 'weithluoedd sydd eisoes dan bwysau' [Bwrdd iechyd lleol].

7.18 Awgrymodd y trydydd bwrdd iechyd lleol pe bai'r data'n deillio o wasanaeth demograffig cenedlaethol Cymru, yna byddai modd sicrhau cronfa ddata a llif amser real am y gost leiaf, ac mai'r brif gost wedyn fyddai'r gwasanaeth broceriaeth sydd ei angen i ddilysu cyfeiriadau dyblyg.

7.19 Cynigiodd rhanddeiliaid eraill (awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg ac eraill) sylwadau cyffredinol yn bennaf am y cynnydd posibl mewn adnoddau staffio a chostau i fyrddau iechyd lleol o ganlyniad i gyflwyno datganiadau data'n amlach. Awgrymwyd hefyd y gallai datganiadau amlach greu diffyg ymddiriedaeth yn y gwasanaeth iechyd yn fwy cyffredinol.

7.20 Roedd tri ymateb gan randdeiliaid eraill o'r farn y byddai datblygu system effeithlon a thechnoleg briodol o'r cychwyn cyntaf yn hollbwysig er mwyn osgoi creu llwyth gwaith ychwanegol:

'Byddai datganiadau data amlach yn gofyn am systemau a phrosesau cadarn ar gyfer casglu, rheoli a rhannu data o fewn byrddau iechyd lleol.' [Rhanddeiliad arall]

**Goblygiadau i awdurdodau lleol**

7.21 Yn debyg i'r is-adran flaenorol, y prif bryder a godwyd mewn perthynas â'r goblygiadau i awdurdodau lleol oedd y cynnydd yn y llwyth gwaith a allai ddeillio o ddatganiadau data amlach. Cafwyd 20 o ymatebion gan awdurdodau lleol ac roedd bron pob un yn codi hyn fel pryder. Mae lleiafrif yr ymatebion a gafwyd gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill hefyd yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod systemau, prosesau a meddalwedd yn cael eu rhoi ar waith i leddfu'r pryder hwn:

'Er bod angen y gronfa ddata hon, bydd yn creu llwyth gwaith ychwanegol i wasanaeth sydd dan bwysau i'r rheolwyr ei gwblhau' [Awdurdod lleol]

'Heb y feddalwedd gywir mae'n bosibl i hyn fod yn llafurddwys iawn gan gynnwys y gwaith croesgyfeirio data...byddai hyn [yn] dibynnu ar ba system a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth hon ac a ellid ei rhaglennu i ddarparu'r wybodaeth hon yn fwy rheolaidd.' [Awdurdod lleol]

'Efallai fod angen systemau cofnodi safonol ar draws awdurdodau lleol i hwyluso casglu a rhannu data'n effeithiol.' [Grwpiau plant a theuluoedd]

**Goblygiadau i eraill**

7.22 Codwyd rhai goblygiadau ychwanegol i eraill (ac eithrio awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) gan ymatebwyr yn yr adran hon. Roedd yr ymatebion yn tueddu i dynnu sylw at yr effaith ar gynulleidfaoedd mwy penodol megis y meysydd iechyd (meddygon teulu yn arbennig), addysg (ysgolion yn benodol), y trydydd sector ac eraill:

'Dull mwy cydlynol rhwng staff iechyd – Ymwelwyr Iechyd, Deintyddion Cymunedol' [Rhanddeiliad addysg]

'Byddai'r broses ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol gan feddygon teulu fel y'i disgrifir yn gofyn i feddygon teulu a thimau practis fewnbynnu gwybodaeth â llaw. Mae angen proses safonedig clir y cytunir arni ... a rhaid ei datblygu'n genedlaethol.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

'Cryfhau agwedd gyfannol rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg.' [Rhanddeiliad addysg]

‘Mae llwyth gwaith gweinyddol ysgolion yn cynyddu, fodd bynnag gellir addasu’r systemau gwybodaeth reoli presennol mewn ysgolion i gynnwys adroddiadau data parod y gellir eu hallforio i awdurdodau lleol [Grŵp plant a theuluoedd]

'Efallai y bydd angen i randdeiliaid eraill megis ysgolion, sefydliadau'r trydydd sector, ac asiantaethau'r llywodraeth, addasu eu systemau i ddarparu ar gyfer diweddariadau data amlach gan fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol' [Rhanddeiliad eraill]

**Y goblygiadau a godwyd gan unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc**

7.23 Roedd nifer fawr o ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref a phlant a phobl ifanc yn union yr un fath o ran eu natur ac yn cael eu hailadrodd ar draws y tri is-gwestiwn[19]. Roeddent yn canolbwyntio ar chwe mater a drafodir yn gryno yn eu tro isod:

*Cynnydd mewn llwyth gwaith*

7.24 Dadleuwyd bod cynnydd mewn llwyth gwaith yn debygol o ddargyfeirio amser a sylw oddi wrth ddiwallu anghenion hysbys plant.

‘canolbwyntio llai ar fynd i’r afael ag anghenion hysbys wrth chwilio am rai damcaniaethol anhysbys, heb y gallu i ddiwallu anghenion y naill na’r llall’ [Grŵp addysg yn y cartref]

*Cynnydd mewn costau*

7.25 Yn nodweddiadol roedd yr ymatebion yn dweud bod y cynigion yn gamddefnydd o arian cyhoeddus y gellid ei ddefnyddio’n well mewn mannau eraill neu ei fod yn ychwanegu at y straen y mae’r sector cyhoeddus eisoes yn ei wynebu.

[19] Caiff un frawddeg ei hailadrodd air am air 108 o weithiau ar draws y tair is-adran. Mae nifer o ymatebion eraill yn defnyddio union eiriad elfennau o'r frawddeg hefyd.

'Dargyfeirio cyllid o'r ddarpariaeth gofal iechyd i'r gymuned' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Risgiau tor diogelwch data*

7.26 Roedd yr ymatebion yn awgrymu yr amlaf y caiff gwybodaeth ei rhannu, y mwyaf yw'r risg o dor diogelwch data:

'Bydd mwy o siawns i wybodaeth sensitif gael ei cham-drin neu ei rhannu'n ddamweiniol gan ALlau gan eu bod eisoes yn brysur ac yn brin o adnoddau…' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Mwy o ffactorau sy'n atal pobl rhag defnyddio gofal iechyd*

7.27 Cododd yr ymatebion yr effaith negyddol bosibl yn gysylltiedig â phobl yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd oherwydd pryderon ynghylch defnyddio a rhannu eu data. Roeddent yn dadlau y gallai hyn arwain at ddirywiad yn y berthynas rhwng darparwyr gofal iechyd a'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu, gyda chleifion yn teimlo'n llai diogel.

'Teuluoedd yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

*Mwy o ffactorau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus*

7.28 Mynegwyd pryderon hefyd y byddai cyflwyno datganiadau data'n amlach yn effeithio ar deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, yn enwedig eu perthynas â sefydliadau cyhoeddus gan gynnwys byrddau iechyd lleol, gwasanaethau meddygon teulu ac awdurdodau lleol.

'Byddai teuluoedd sy'n addysgu eu plant yn y cartref…yn dioddef canlyniadau negyddol yn gysylltiedig â lefelau uwch o amheuaeth, stigma a chraffu, a byddent yn naturiol ac yn anochel yn dod yn fwy gochelgar a drwgdybus o wasanaethau statudol…' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

7.29 Cododd y gymuned addysg yn y cartref (a rhai awdurdodau lleol) bryderon y byddai datganiadau data amlach yn erydu'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r gymuned addysg yn y cartref:

'Gwaethygu tanseilio ymddiriedaeth a pharch rhwng staff awdurdodau lleol a theuluoedd sy'n addysgu eu plant yn y cartref' [Grŵp addysg yn y cartref]

*Mwy o gymhelliant i deuluoedd symud*

7.30 Awgrymwyd y gallai teuluoedd deimlo’r angen i symud o gwmpas er mwyn osgoi cael eu darganfod neu ddymuno symud allan o Gymru er mwyn osgoi cael eu heffeithio gan y newid.

'Rwy'n adnabod rhai teuluoedd a fyddai'n dymuno symud o Gymru oherwydd y tor-preifatrwydd ymwthiol hwn.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

**Cwestiwn 8** Pa unigolion yn yr awdurdod lleol y byddai angen iddynt gael mynediad at y gronfa ddata er mwyn cyflawni eu swyddogaethau?

7.31 Atebodd 224 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad y cwestiwn hwn. Mae'r ymatebion a gyflwynwyd i Gwestiwn 8 wedi'u dadansoddi isod, yn ôl y pum grŵp allweddol a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori.

**Rhanddeiliaid awdurdodau lleol, iechyd a rhanddeiliaid eraill**

7.32 Darparodd llawer o'r ymatebion a gafwyd gan sefydliadau rhanddeiliaid (gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, addysg, grwpiau ffydd a seciwlar) awgrymiadau penodol ynglŷn â pha unigolion o fewn yr awdurdod lleol y byddai angen iddynt gael mynediad at y data.

7.33 Roedd lleiafrif o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn awgrymu y byddai rolau penodol o fewn y tîm addysg yn gofyn am fynediad i'r gronfa ddata megis y swyddog lles addysg, y swyddog cynhwysiant, y rhai mewn rolau cefnogi disgyblion, neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb penodol am feysydd megis presenoldeb, PCA, Addysg Ddewisol yn y Cartref neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol, plant sy'n derbyn gofal neu ADY.

7.34 Roedd ymatebion awdurdodau lleol yn awgrymu'n bennaf y dylai swyddogion penodol o fewn y tîm lles addysg a swyddogion gwybodaeth fonitro neu swyddogion data allu cael mynediad at y gronfa ddata.

'Arweinwyr Gwasanaethau Lles Addysg. Arweinwyr diogelu. Arweinwyr data PCA awdurdodau lleol.' [Awdurdod lleol]

'Swyddog PCA, Swyddog Gwybodaeth (tîm data), swyddogion lles addysg.' [Awdurdod lleol]

7.35 Awgrymodd ychydig bach o randdeiliaid hefyd y dylid darparu mynediad i'r rhai sy'n gyfrifol am amddiffyn plant, am ddiogelu neu'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau cymdeithasol mewn amrywiol rolau. Awgrymodd ychydig bach o ymatebion hefyd y byddai angen rhoi mynediad i eraill megis gwasanaethau cymorth ieuenctid, cyfiawnder ieuenctid neu awdurdodau lleol eraill:

'Gwasanaethau addysg a gofal cymdeithasol.' [Bwrdd iechyd lleol]

'Timau diogelu a phresenoldeb ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, timau derbyn, tîm data, gwasanaethau cymorth ieuenctid, cyfiawnder ieuenctid.' [Awdurdod lleol]

**Unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref, a phlant a phobl ifanc**

7.36 Roedd llawer o’r ymatebion ansoddol i’r cwestiwn hwn yn nodi na ddylai fod cronfa ddata o gwbl neu na ddylai fod gan neb fynediad i gronfa ddata o’r fath. Mae bron pob un o'r ymatebion hyn yn ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref, grwpiau addysg yn y cartref neu blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

'Ni ddylai neb fod yn cael mynediad at unrhyw wybodaeth nad yw rhieni wedi rhoi caniatâd penodol ar ei chyfer.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

7.37 Rhoddodd ychydig bach o’r ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref ateb mwy uniongyrchol i’r cwestiwn, gan awgrymu'n aml fynediad cyfyngedig i’r gronfa ddata ond dim ond os yw hynny’n gwbl angenrheidiol a chynnig y dylid cyfyngu mynediad i unigolion penodol yn yr adran addysg neu'r rhai sy'n ymwneud â diogelu.

'Pe bai mewn grym, er na ddylai fod mewn grym, dylai gael ei neilltuo ar gyfer staff addysg yn y cartref yn unig.' [Grŵp addysg yn y cartref]

## 8. Byrddau iechyd lleol

8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiynau 9 i 12 yr ymarfer ymgynghori, a oedd yn gwestiynau i fyrddau iechyd lleol. Dewisodd ymatebwyr eraill ateb y cwestiynau hyn, fodd bynnag, rydym o’r farn na fyddai’n briodol adrodd ar unrhyw ymatebion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd.

**Cwestiwn 9** A oes unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw?

8.2 Fel y dangosir yn Nhabl 8.1, dywedodd un bwrdd iechyd lleol y gallent weld risgiau i breifatrwydd a risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau chorfforaethol cysylltiedig, ond ni wnaeth y ddau arall ymateb (er iddynt fynd ymlaen i fanylu ar rai risgiau posibl yn eu hymateb ysgrifenedig).

**Tabl 8.1 A oes unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd a risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw?**

| | Oes | Nac oes | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Byrddau iechyd lleol** | 1 | 0 | 2 | 3 |

**Byrddau iechyd lleol**

8.3 Darparodd tri bwrdd iechyd lleol ymateb ysgrifenedig i’r cwestiwn hwn. Amlygodd y tri heriau ymarferol o ran rheoli data sy’n gysylltiedig â’r cynigion, megis yr angen i egluro sut y byddai’r data’n cael eu rheoli, eu prosesu a’u diogelu. Pwysleisiodd dau fod angen datblygu dogfennau llywodraethu allweddol a sefydlu prosesau llym, gan gynnwys cod ymarfer a chytundebau datgelu data.

'Rhannu Data: Sut y byddant yn cael eu rhannu? Gan bwy? Diogelwch data pan gânt eu rhannu? Byddai angen Cytundeb Datgelu Data. Rhaid amddiffyn plant mewn perthynas â'u data gan eu bod yn llai ymwybodol o'r risgiau. Angen Gwybodaeth/Hysbysiadau Preifatrwydd clir - addas i'r plentyn.' [Bwrdd iechyd lleol]

8.4 Nododd dau fwrdd iechyd lleol hefyd fod risg y gallai'r cynnig dorri hawliau cyfrinachedd a phreifatrwydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon, tynnodd un sylw at yr angen i ystyried sut y gellir bodloni Dyletswydd Hyder y Gyfraith Gyffredin ac adran 8 o Ddeddf Hawliau Dynol Ewrop, a nododd y llall:

'byddai angen gwneud rhieni'n ymwybodol bod angen rhannu'r wybodaeth hon gyda'r ALl, neu byddai hyn yn torri preifatrwydd a chyfrinachedd.' [Bwrdd iechyd lleol]

8.5 Tynnodd un bwrdd iechyd lleol sylw hefyd at bryder y Pwyllgor Meddygol Cyffredinol:

'yn ymwneud â'r effaith y gallu rhannu data heb gydsyniad ei chael ar ymddiriedaeth a'r berthynas rhwng ymarferwyr a chlaf. Gall profiadau o'r fath wneud i rai deimlo'n anniogel yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Dylid ystyried rhoi eglurhad ynghylch a fydd cod ymarfer yn cael ei sefydlu i ddiogelu preifatrwydd unigolion a sicrhau bod y data'n gywir.' [Bwrdd iechyd lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd eraill**

8.6 Dewisodd un rhanddeiliad iechyd arall roi ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Roedd yn adleisio barn byrddau iechyd lleol, gan nodi'r angen am eglurder ynghylch cyfrifoldebau rheoli data a threfniadau llywodraethu priodol.

'Nid yw'n glir o'r wybodaeth a ddarparwyd beth fydd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud gyda data Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol pan gaiff y wybodaeth ei datgelu iddynt. Os caiff y data eu paru neu eu rhesymoli yna byddant yn dod yn rheolydd data ac nid yn brosesydd data yn unig fel yr awgrymir. Bydd angen i hyn gael ei fynegi'n glir yn y dogfennau llywodraethu gwybodaeth priodol a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd.' [Rhanddeiliad iechyd arall][20]

[20] Meddyg Teulu

**Cwestiwn 10** A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

8.7 Fel y dangosir yn Nhabl 8.2, dywedodd un bwrdd iechyd lleol nad yw protocolau presennol yn sicrhau nad yw unrhyw waith prosesu data yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd, ond ni wnaeth y ddau arall ymateb.

**Tabl 8.2: A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?**

| | Ydynt | Nac ydynt | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Byrddau iechyd lleol** | 0 | 1 | 2 | 3 |

**Byrddau iechyd lleol**

8.8 Darparodd tri bwrdd iechyd lleol ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Dywedodd dau fod protocolau presennol yn ddigonol ar y cyfan, gan nodi 'mae gan Wasanaeth Demograffig Cymru fynediad i gronfeydd data ynghylch marwolaethau ac mae'n diweddaru cofnodion yn unol â hynny' a bod 'cofnodion yn cael eu marcio fel "ymadawedig". Byddai angen i'r dynodwyr fod yn gyfredol ac yn ddibynadwy'.

8.9 Nododd y bwrdd iechyd lleol arall ei bod yn bosibl nad oes gan fyrddau iechyd y data mwyaf diweddar a bod risg o gyfathrebu amhriodol ar hyn o bryd:

'Nac ydyn, er y gall gwybodaeth gael ei diweddaru ar un gronfa ddata, heb gronfa ddata fyw sy'n cael ei diweddaru'n barhaus, gallai arwain at gyfathrebu amhriodol.' [Bwrdd iechyd lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd eraill**

8.10 Dewisodd un rhanddeiliad iechyd arall roi ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Roedd yn adleisio barn un bwrdd iechyd lleol ac yn mynegi pryder efallai nad oedd gan fyrddau iechyd y data mwyaf diweddar sydd ar gael.

'Nac ydyn. Mae'n bryder efallai nad oes gan Fyrddau Iechyd y data mwyaf diweddar na mynediad i'r holl setiau data perthnasol a fyddai'n galluogi gwiriad effeithiol ar gyfer claf ymadawedig. Gwneir hyn fel arfer gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac mae'n codi pryder gwirioneddol o ran bwrw ymlaen â'r broses hon. Mae meddygon teulu yn debygol o ddioddef effaith uniongyrchol y teuluoedd hynny sydd wedi cynhyrfu oherwydd i'r broses hon gael ei chyflwyno.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

**Cwestiwn 11** A oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o weithgarwch datgelu a phrosesu data?

8.11 Fel y dangosir yn Nhabl 8.4, dywedodd un bwrdd iechyd lleol fod ganddo brofiad o'r math hwn o weithgarwch datgelu a phrosesu data, a nododd un arall nad oes ganddo brofiad o'r fath. Ni wnaeth un bwrdd iechyd lleol ymateb.

**Tabl 8.4: A oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o weithgarwch datgelu a phrosesu data?**

| | Oes | Nac oes | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Byrddau iechyd lleol** | 1 | 1 | 1 | 3 |

8.12 Dim ond un rhanddeiliad iechyd (nid bwrdd iechyd lleol) a roddodd ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Nododd:

'Mae Byrddau Iechyd yn adrodd/datgelu gwybodaeth yn rheolaidd at ddibenion adroddiadau statudol. Fodd bynnag, bydd gofynion adrodd ychwanegol heb adnoddau yn ychwanegu at y llwyth gwaith mewn practisau meddygon teulu sydd eisoes dan bwysau.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

**Cwestiwn 12** A oes unrhyw oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau a materion technegol mewn perthynas â phrosesu a datgelu'r data gofynnol i awdurdodau lleol?

**Byrddau iechyd lleol**

8.13 Cyflwynodd tri bwrdd iechyd lleol ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Nododd un o'r rhain y byddai angen adnoddau staff ychwanegol ac arbenigedd:

'Byddai angen i rywun fod yn gyfrifol am brosesu'r data, ac yn sgil y ffaith bod llwythi gwaith a chyfrifoldebau eisoes yn cynyddu, byddai angen ystyried staffio ac adnoddau.' [Bwrdd iechyd lleol]

8.14 Amlygwyd yr angen tebygol am brosesau llywodraethu clir hefyd gan ddau fwrdd iechyd lleol. Roedd hyn yn cynnwys cod ymarfer a gwiriadau llywodraethu mewnol.

'Os bydd cod ymarfer yn cael ei sefydlu i gefnogi rhannu gwybodaeth, efallai y bydd goblygiadau i hyn, ond nes y bydd y manylion yn hysbys nid oes modd cynnal asesiad o effaith.' [Bwrdd iechyd lleol]

8.15 Nododd dau hefyd y byddai goblygiadau o ran adnoddau a chost yn gysylltiedig â dilysu data.

'Y maes allweddol i'w ystyried yw dilysu a thrin data sy'n gwrth-ddweud eu gilydd neu ddata dyblyg am un unigolyn a phenderfynu sut i reoli hynny.' [Bwrdd iechyd lleol]

'Yr amser sydd ei angen ar gyfer y gwiriadau llywodraethu gwybodaeth angenrheidiol a dilysu data.' [Bwrdd iechyd lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd eraill**

8.16 Dewisodd dau randdeiliad iechyd arall ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn, a phwysleisiodd y ddau ohonynt hefyd yr angen am brosesau llywodraethu llym. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am godau ymarfer, templedi, gwiriadau llywodraethu gwybodaeth, archwiliadau rheolaidd o gronfeydd data PCA ac asesiadau o sut y mae pob awdurdod lleol yn casglu,

storio a defnyddio'r data. Nododd un rhanddeiliad y byddai hyn yn golygu cynnwys Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth.

'Bydd cyfres o ddogfennau a phrosesau templed y cytunwyd arnynt yn genedlaethol o gymorth gyda'r swyddogaeth hon.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

'Dylai'r trefniadau llywodraethu o ran y gronfa ddata PCA fod mor llym â chronfa ddata SAIL[21] a dylid adeiladu ar enghreifftiau o arfer da. Dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, sicrhau bod y data’n cael eu rheoli’n briodol ac yn unol â rheoliadau a chanllawiau cyfrinachedd data presennol. Dylai hyn olygu bod angen cynnal archwiliad rheolaidd o gronfeydd data PCA.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

8.17 Nododd un ddiffyg manylion ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am reoli a rhannu'r data a phwysleisiodd yr angen am adnoddau a chyllideb briodol i'w galluogi i wneud eu gwaith.

'Ymhellach, nid oes unrhyw fanylion ynghylch pwy yn union fyddai'n gyfrifol am gyflwyno'r wybodaeth o fewn BILlau a chontractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Mae’r galwadau presennol ar staff byrddau iechyd a phractisau cyffredinol yn dra hysbys. Os bydd angen staff ychwanegol i gyflawni dyletswyddau'r rheoliadau, neu os rhagwelir costau, dylid manylu ar hyn a dyrannu cyllideb. Ni fyddai'n addas i glinigwyr unigol, pediatregwyr neu feddygon teulu fod yn gyfrifol am gyflwyno'r wybodaeth hon.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

[21] Home - SAIL Databank

## 9. Contractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol

9.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiynau 13 ac 14 yr ymarfer ymgynghori. Anelwyd y cwestiwn hwn at gontractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol (a gategoreiddiwyd yn y dadansoddiad hwn fel 'rhanddeiliaid iechyd eraill'). Dewisodd ymatebwyr eraill ateb y cwestiynau hyn, fodd bynnag, rydym o'r farn na fyddai'n briodol adrodd ar unrhyw ymatebion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd.

**Cwestiwn 13** A oes unrhyw risgiau i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw?

9.2 Fel y dangosir yn Nhabl 9.1, ni wnaeth yr un o'r tri rhanddeiliad iechyd arall roi ateb uniongyrchol i'r cwestiwn caeëdig.

**Tabl 9.1: A oes unrhyw risgiau i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw?**

| | Oes | Nac oes | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Rhanddeiliad iechyd arall** | 0 | 0 | 3 | 3 |

9.3 Dewisodd dau randdeiliad iechyd roi ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Amlygodd un bryder ynghylch a fyddai'r rheoliadau'n diystyru'r ddeddfwriaeth diogelu data bresennol:

'nid yw'n glir a fyddai'r rheoliadau'n creu dyletswydd gyfreithiol ar feddygon teulu (fel contractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) i drosglwyddo'r data gofynnol i'r BILl neu'r ALl (at ddiben creu cronfa ddata), sy'n amlwg yn diystyru eu rhwymedigaethau diogelu data a'r ddyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin sydd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol i'r cleifion y maent yn eu gwasanaethu. Os nad yw'n amlwg y byddai'r rheoliadau'n drech na'r rhwymedigaethau hyn, yna mae gwrthdaro posibl â'n safonau proffesiynol, sy'n debygol o fod yn rhwystr i rannu'r data.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

9.4 Nododd y llall ddiffyg eglurder ynghylch yr hyn y bydd Byrddau Iechyd Lleol yn ei wneud â'r data ar ôl eu derbyn a thrafodwyd yn fanwl rolau perthynol y

rheolydd data a’r prosesydd data a’r hyn y gallai hynny ei olygu o ran cydymffurfio â’r rheoliadau newydd.

‘Nid yw’n glir beth fydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd ei wneud â data gan feddygon teulu ar ôl eu derbyn – a fyddant yn ad-drefnu'r set ddata ac yn paru'r data â gwybodaeth bresennol a gedwir gan Fyrddau Iechyd. Os bydd Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â'r prosesau hyn, byddent yn gwneud penderfyniadau ynghylch rheolaeth. Lle maent ond yn cael data ac yn eu prosesu (h.y. anfon y data ymlaen a'r ALI yn eu prosesu) gellid dadlau y dylai meddygon teulu anfon y data yn uniongyrchol i'r ALI  ac nid drwy'r Bwrdd Iechyd.

Fel rheolyddion data, mae practisau’n cadw’r cyfrifoldeb am ymdrin â phob cais mynediad i ddata, er enghraifft, ceisiadau mynediad at ddata gan y testun a wneir gan gleifion neu geisiadau gan drydydd partïon megis cwmnïau yswiriant a chyfreithwyr. Gall rheolyddion data practisau cyffredinol ddirprwyo'r gweithgareddau hyn ond maent yn dal i fod yn gyfrifol am yr allbwn terfynol. Yn y pen draw, mae partneriaid practisau cyffredinol yn atebol ar lefel bersonol am unrhyw sancsiwn a godir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os bydd unrhyw achos o dor diogelwch data neu os caiff gwybodaeth amhriodol ei rhyddhau.

Pan ystyrir bod y Bwrdd Iechyd yn brosesydd, bydd angen Cytundeb Prosesydd Data. Disgwylir hefyd y byddai Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael ei gynnal a gwybodaeth am brosesu teg yn cael ei darparu. Nid yw'n glir o'r ymgynghoriad pwy fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn ond mae'n hanfodol bod dogfennau o'r fath yn gyson yn genedlaethol.

Mae meddygon teulu a’u partneriaid o fewn practisau yn atebol ar y cyd ac yn unigol am drefniadau llywodraethu data ac, yn unigol, byddent yn destun ardoll droseddol pe bai achos o dorri’r GDPR yn peri i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth godi dirwy droseddol. Gall hyn fod yn sylweddol hyd at €30m Ewro neu ganran o drosiant blynyddol, ac o bosibl gallai arwain at fethdaliad a chau practisau mewn achosion eithafol. Rhaid i hyn gael ei liniaru'n glir ac yn gyfan gwbl gan y broses gyfreithiol a mesurau diogelu megis Asesiadau o'r

Effaith ar Ddiogelu Data a Chytundebau Rhannu Data[22] yn ogystal ag ymgorffori cyfreithlondeb y broses trosglwyddo data mewn deddfwriaeth sylfaenol.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

**Cwestiwn 14** A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

9.5 Fel y dangosir yn Nhabl 9.2, ni chafwyd unrhyw ymatebion uniongyrchol i'r cwestiwn caeëdig gan randdeiliaid eraill.

**Tabl 9.2: A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?**

| | Ydynt | Nac ydynt | Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid iechyd eraill** | 0 | 0 | 3 | 3 |

9.6 Cafwyd un ymateb penodol i'r cwestiwn hwn gan randdeiliad iechyd. Nodwyd rhai pryderon ganddynt ynghylch pa mor gyfredol y gallai data perthnasol fod a mynegwyd pryderon ynghylch y tebygolrwydd o ofid emosiynol i deuluoedd mewn profedigaeth.

'Efallai nad yw cofnodion clinigol meddygon teulu yn gwbl gyfoes o ran yr wybodaeth hon, ac felly dylid gwirio unrhyw set ddata gyfunol yn erbyn setiau data perthnasol. Yn aml ceir oedi o ran cael gwybodaeth am farwolaeth cleifion oherwydd safon wael y broses o ryddhau a throsglwyddo data o ofal eilaidd.  Ar gyfer rhaglenni gwaith cenedlaethol, mae hyn fel arfer yn cael ei gwblhau'n ganolog gan ddefnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael, fodd bynnag nid yw hyn hyd yn oed wedi'i warantu oherwydd natur flynyddol echdynnu data. Ychydig iawn o hyder a fyddai gennym na fyddai cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn arwain at ofid emosiynol sylweddol i deuluoedd mewn profedigaeth.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

[22] Cytundeb Rhannu Data

## 10. Awdurdodau lleol

10.1 Roedd cwestiynau 15-19 yn gwestiynau penodol i awdurdodau lleol. Dewisodd ymatebwyr eraill ateb y cwestiynau hyn, fodd bynnag, rydym o’r farn na fyddai’n briodol adrodd ar unrhyw ymatebion nad ydynt yn ymatebion gan awdurdodau lleol.

> **Cwestiwn 15** Yn eich barn chi (yr awdurdod lleol), a yw eich systemau a'ch prosesau plant sy’n colli addysg presennol yn eich galluogi chi i fod yn hyderus eich bod yn ymwybodol o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ardal yr awdurdod lleol?

10.2 Fel y dangosir yn Nhabl 10.1, dywedodd ychydig bach o awdurdodau lleol fod eu systemau presennol yn eu galluogi i fod yn hyderus eu bod yn ymwybodol o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ardal yr awdurdod lleol. Dywedodd oddeutu eu hanner nad yw eu systemau yn eu galluogi i fod yn hyderus, ond nid oedd lleiafrif yn gwybod neu ni wnaethant ymateb.

**Tabl 10.1: Yn eich barn chi (yr awdurdod lleol), a yw eich systemau a'ch prosesau plant sy’n colli addysg presennol yn eich galluogi chi i fod yn hyderus eich bod yn ymwybodol o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ardal yr awdurdod lleol?**

| | Ydyn | Nac ydyn | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 2 | 12 | 7 | 21 |

10.3 Fe wnaeth y ddau awdurdod lleol a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn caeëdig esbonio eu hymatebion ymhellach. Nododd un y 'bydd gofyniad cenedlaethol i rannu data rhwng Byrddau Iechyd Lleol ac ysgolion annibynnol yn sicrhau hynny' ac eglurodd y llall ei bod yn anoddach pan 'nad yw plentyn wedi ymuno â'r system addysg neu wedi symud o'r tu allan i'r sir. Byddai gwybodaeth am iechyd yn pontio'r bwlch hwn yn sylweddol.'

10.4 Darparwyd cyfanswm o 17 o ymatebion pellach i egluro pam y gwnaeth awdurdodau lleol ymateb 'nac ydyn' i'r cwestiwn caeëdig neu pam y dywedwyd nad oeddent yn gwybod neu heb roi unrhyw ymateb. Eglurodd

lleiafrif o'r rhain yn gyffredinol, er eu bod yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o bob plentyn, nad oedd modd iddynt warantu hynny. Rhoddodd rhai enghreifftiau o'r systemau presennol sydd ar waith, fel systemau atgyfeirio effeithiol neu fynediad i systemau data ar enedigaethau.

'Rydym hefyd yn defnyddio system ysgol-i-ysgol i nodi neu wneud ymholiadau ynghylch plant sy'n colli addysg. Mae angen gwella maes “disgybl coll” y system. Byddai system hysbysu yn fuddiol oherwydd ar hyn o bryd, mae'n rhaid i swyddogion fewngofnodi'n rheolaidd i'r system i edrych ar ddiweddariadau.' [Awdurdod lleol]

10.5 Cyfeiriodd ychydig ohonynt hefyd at rai rwystrau allweddol i sicrhau eu bod yn gallu datgan yn hyderus eu bod yn ymwybodol o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ardal yr awdurdod lleol. Mae plant sy'n symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol (a gwledydd) yn rhwystr i ymwybyddiaeth. Mae awdurdodau lleol hefyd yn ei chael hi'n anodd dod yn ymwybodol o blant nad ydynt erioed wedi bod yn rhan o system addysg y wladwriaeth nac wedi cofrestru fel rhai sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Nododd ambell un ei bod yn heriol adnabod plant a anwyd cyn i'r data ar enedigaethau ddechrau cael eu cofnodi. Yn olaf, nododd un y byddai'n rhaid dweud wrth yr awdurdod lleol pe na bai plentyn sydd wedi'i gofrestru i fynychu ysgol yn mynychu'n rheolaidd.

'Rydym yn ymwybodol bod ein systemau presennol, gan gynnwys adroddiadau ysgol a data ar enedigaethau gan y maes Iechyd, yn ein galluogi i olrhain y dysgwyr hynny. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol ar hyn o bryd o nifer y plant yn yr ALl nad ydynt erioed wedi derbyn addysg o fewn system ysgol ac a aned cyn i'r Data ar Enedigaethau ddechrau cael eu cofnodi neu sydd wedi symud i'r ALl ond a gafodd eu geni yn rhywle arall.' [Awdurdod lleol]

'Dim ond os yw ALl blaenorol wedi rhoi gwybod i ni y byddwn ni'n ymwybodol o'r plant sy'n symud i'r ardal, neu os bydd rhieni'n cysylltu â'r ALl eu hunain. Mae'r system bresennol yn dibynnu ar rieni'n rhannu'r wybodaeth honno gyda'r ALl y maent yn ei adael neu'r ALl newydd.' [Awdurdod lleol]

**Cwestiwn 16** A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?

10.6 Fel y dangosir yn Nhabl 10.2, nododd tua hanner yr awdurdodau lleol fod eu protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd. Nid oedd lleiafrif yn gwybod neu ni wnaethant ymateb a dim ond un a ddywedodd 'nac ydyn'.

**Tabl 10.2: A yw'r protocolau presennol sy'n ymwneud â data plant sydd wedi marw yn sicrhau na fydd unrhyw waith prosesu a wneir mewn perthynas â'r data hynny yn arwain at unrhyw gyfathrebu amhriodol â theuluoedd?**

| | Ydyn | Nac ydyn | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 12 | 1 | 8 | 21 |

10.7 Fe wnaeth naw awdurdod lleol a atebodd 'ydyn' i'r cwestiwn caeëdig esbonio eu hymatebion ymhellach. Roedd y rhain yn amlinellu enghreifftiau penodol o sut y mae eu protocolau presennol yn gweithio’n ymarferol, a all amrywio rhwng awdurdodau lleol ond yn bennaf yn cynnwys mecanweithiau i sicrhau bod eu systemau gwybodaeth reoli yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Dyma rai enghreifftiau:

'Gall ein System Gwybodaeth Reoli (Canolfan Athrawon) ddangos i ni os yw plentyn wedi marw ac mae diweddaru'r cofnod gyda'r wybodaeth hon yn 'diogelu' cofnod y plentyn. Mae marwolaeth plentyn hefyd yn cael ei nodi ar ein system ddata Gwasanaethau Cymdeithasol (Care First).' [Awdurdod lleol]

'Lle mae plant wedi marw, bydd hyn fel arfer yn cael ei gasglu a'i farcio o fewn systemau gwybodaeth reoli awdurdodau lleol drwy wybodaeth y Cofrestrydd a/neu'n uniongyrchol o ffynonellau fel ysgolion ac ati.' [Awdurdod lleol]

10.8 Darparwyd saith ymateb arall i egluro pam y gwnaeth awdurdodau lleol ymateb 'nac ydyn' i'r cwestiwn caeëdig neu pam y dywedwyd nad oeddent yn gwybod neu heb roi unrhyw ymateb. Nododd yr ymatebion hyn yn bennaf fod ganddynt systemau gweddol gadarn ar waith ond cydnabuwyd y gallai fod bylchau yn y wybodaeth a gânt o ffynonellau penodol, megis ffynonellau y tu allan i'w hawdurdod lleol.

'Os yw gwasanaethau plant wedi cael eu hysbysu, byddem yn ymwybodol. Fodd bynnag, dyma'r unig fecanwaith sydd gennym ar hyn o bryd.' [Awdurdod lleol]

'I raddau - rydym yn derbyn (lle y bo'n berthnasol) ddata wythnosol gan y Cofrestryddion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi marw yn yr ysbyty lleol ac rydym yn diweddaru ein cofnodion yn brydlon. Nid ydym yn cael unrhyw wybodaeth am y rhai a allai fod wedi marw mewn hosbis neu ysbyty mewn ALl arall.' [Awdurdod lleol]

'Hysbysir cynrychiolydd addysg o'r ALl ac mae'n mynychu cyfarfodydd PRUDiC[23] ac felly'n gallu rhaeadru gwybodaeth o fewn yr awdurdod ac mae proses ar gyfer cofnodi a gwneud cofnodion yn anweithredol. Os yw disgybl dan ofal timau meddygol, ni fydd PRUDiC ac yn gyffredinol bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r ALl gan ysgolion a theuluoedd gan ddilyn y broses sy'n ymwneud â chofnodion. Fodd bynnag, os yw teulu yn darparu addysg ddewisol yn y cartref i'w plant, nid wyf yn hyderus y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu oni bai bod PRUDiC.' [Awdurdod lleol]

**Cwestiwn 17** A oes unrhyw risgiau allweddol i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw?

10.9 Fel y dangosir yn Nhabl 10.3, dywedodd tua hanner yr awdurdodau lleol na allent nodi unrhyw risgiau allweddol, nododd lleiafrif eu bod yn gallu gwneud hynny, ac nid oedd lleiafrif yn gwybod neu ni wnaethant ymateb.

[23] PRUDiC (Procedural Response to Unexpected Deaths in Childhood): https://phw.nhs.wales/services-and-teams/national-safeguarding-service/safeguarding-latest-guidance/specific-groups-accordion/prudic-procedural-response-to-unexpected-deaths-in-childhood/

**Tabl 10.3: A oes unrhyw risgiau i breifatrwydd neu risgiau o ran cydymffurfiaeth a risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â nhw?**

| | Oes | Nac oes | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 5 | 11 | 5 | 21 |

10.10 P'un a wnaethant nodi unrhyw risgiau allweddol ai peidio, darparodd 15 awdurdod lleol sylwadau ysgrifenedig pellach. Pwysleisiodd tua hanner y rhain yr angen i sicrhau bod protocolau rhannu gwybodaeth priodol a chlir ar waith, yn enwedig cytundebau datgelu data, hysbysiadau preifatrwydd ac asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data. Nododd awdurdodau lleol y bydd protocolau o'r fath yn sicrhau bod rhieni, darparwyr iechyd ac awdurdodau lleol i gyd yn cael eu hysbysu'n briodol am unrhyw drosglwyddiadau data posibl. Amlygwyd protocolau cenedlaethol, cyson fel ffordd o gyflawni hyn.

'O dan GDPR byddai angen i'r gwasanaethau iechyd gael hysbysiadau preifatrwydd a chytundebau datgelu data. Bydd hyn yn dibynnu ar y gwasanaethau iechyd yn sicrhau eu bod wedi trafod hyn gyda theuluoedd y plentyn cyn uwchlwytho eu gwybodaeth i gronfa ddata i'w rhannu gyda gwasanaethau addysg... Dylai protocol rhannu gwybodaeth clir fod yn ei le i sicrhau bod rhieni, asiantaethau ac Awdurdodau Lleol yn glir o ran pa ddata y gellir eu rhannu ac at ba ddiben, bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth a rennir yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.' [Awdurdod lleol]

'O ran Llywodraethu Gwybodaeth, mae'n bosibl bod problem yn ymwneud â thryloywder a chydymffurfio ag Egwyddor (a) GDPR y DU (cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder) gan y byddai angen i ni/y bwrdd iechyd hysbysu rhieni ein bod yn rhannu ac yn casglu'r data hyn. Byddai angen i ni hefyd roi Cytundeb Datgelu Data WASPI ar waith ar gyfer rhannu data. Efallai y bydd rhai awdurdodau lleol hefyd yn penderfynu bod angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data arnynt.' [Awdurdod lleol]

10.11 Pwysleisiodd ychydig o awdurdodau hefyd yr angen am brotocolau diogelwch llym i bennu sut y mae data'n cael eu trosglwyddo, eu rheoli, eu storio a'u defnyddio. Mae hyn yn cynnwys rheoli mynediad i'r data, amgryptio data a sut

y bydd rheolwyr data yn sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau diogelu data.

'Bydd angen sefydlu protocolau diogelwch mewn perthynas â'r gronfa ddata, er enghraifft o ran rheoli mynediad ac amgryptio data, yn ogystal â methodolegau y cytunwyd arnynt ar gyfer trosglwyddo a rhannu data yn ddiogel. Mae angen ystyried sut y bydd y gronfa ddata yn galluogi rheolyddion data i gyflawni eu rhwymedigaethau diogelu data mewn perthynas â thestun y data (h.y. gweithredu cyfnodau cadw y cytunwyd arnynt, y gallu i ddiwygio data, dileu data yn ddiogel, mesurau i sicrhau cywirdeb data ac ati.).' [Awdurdod lleol]

10.12 Darparwyd ychydig bach o enghreifftiau a ddarparwyd o brotocolau addas a allai fod yn eu lle ar hyn o bryd.

'Mae gan yr ALl brosesau priodol ar waith ar gyfer prosesu data, fodd bynnag, pe bai risg yn cael ei nodi, byddai hyn yn symud ymlaen yn unol â'r broses rheoli risgiau corfforaethol ac yn cael ei drafod â'r Tîm Cydymffurfiaeth Gwybodaeth yn ôl yr angen.' [Awdurdod lleol]

10.13 Pwysleisiodd ychydig bach o awdurdodau lleol yr angen i sicrhau diogelwch a lles plant, er enghraifft yr angen i sicrhau bod manylion plant yn cael eu cadw'n gyfrinachol lle bo angen gwneud hynny am resymau amddiffyn plant a'r angen i sicrhau nad yw teuluoedd yn cael eu hatal rhag manteisio ar ofal iechyd. Pwysleisiodd yr awdurdodau hyn fod diogelu plant yn hollbwysig.

'Mae diogelu yn bwysicach na dim. Ar yr amod bod yr holl brotocol rhannu gwybodaeth a hysbysiadau preifatrwydd yn eu lle. Gall timau GDPR gefnogi.' [Awdurdod lleol]

'Gallai hyn olygu na fydd plant yn gallu cael mynediad i wybodaeth feddygol, oherwydd mae rhieni am osgoi cael eu 'canfod.' [Awdurdod lleol]

**Cwestiwn 18** A oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o weithgarwch prosesu?

10.14 Fel y dangosir yn Nhabl 10.4, nododd y mwyafrif o awdurdodau lleol fod ganddynt brofiad o'r math hwn o weithgarwch prosesu. Nid oedd gan ambell un brofiad o'r fath ac nid oedd rhai yn gwybod neu ni wnaethant ymateb.

**Tabl 10.4: A oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o weithgarwch prosesu?**

| | Oes | Nac oes | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 14 | 4 | 3 | 21 |

10.15 Darparodd dau awdurdod lleol ymatebion ysgrifenedig i’r cwestiwn hwn. Esboniodd un ei fod eisoes yn derbyn data ar enedigaethau byw a nododd y llall:

'Mae gennym bolisi a gweithdrefnau ar waith ar gyfer PCA ac Addysg Ddewisol yn y Cartref (lle nad yw'r addysg yn addas o bosibl). Rydym yn ymwybodol o GDPR mewn perthynas â rhannu data plant sy’n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref (lle nad yw'r addysg yn addas o bosibl) ac yn gofyn am ganiatâd rhieni/gofalwyr i rannu unrhyw ddata personol. I'r rhai sydd o fewn y system addysg mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn ei le.' [Awdurdod lleol]

**Cwestiwn 19** A oes unrhyw oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau a materion technegol mewn perthynas â phrosesu'r data a geir gan fyrddau iechyd lleol?

10.16 Fel y dangosir yn Nhabl 10.5, dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol y byddai goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau a materion technegol mewn perthynas â phrosesu'r data. Roedd ychydig ohonynt yn meddwl na fyddai unrhyw oblygiadau ychwanegol, a dywedodd ychydig nad oeddent yn gwybod neu ni wnaethant ymateb i'r cwestiwn.

**Tabl 10.5: A oes unrhyw oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau a materion technegol mewn perthynas â phrosesu'r data a geir gan fyrddau iechyd lleol?**

| | Oes | Nac oes | Ddim yn gwybod /Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Rhanddeiliaid awdurdodau lleol** | 13 | 4 | 4 | 21 |

10.17 Cafwyd cyfanswm o 18 o ymatebion ysgrifenedig gan awdurdodau lleol. O blith y pedwar a ddywedodd na fyddai goblygiadau ychwanegol, rhoddodd dau esboniad pellach. Er i un esbonio nad oedd yn siŵr eto, esboniodd y llall:

'Pe byddem yn gallu cysylltu'r data â'n traciwr PCA presennol ni fyddai'n golygu llawer o waith prosesu ychwanegol. Gallai'r llwyth gwaith gynyddu os bydd nifer y PCA hysbys yn cynyddu.' [Awdurdod lleol]

10.18 Roedd chwe awdurdod lleol yn cytuno'n gyffredinol y byddai angen amser a/neu staff ychwanegol heb ymhelaethu ymhellach.

10.19 Tynnodd y naw awdurdod lleol arall sylw at enghreifftiau o oblygiadau prosesu'r data i adnoddau a materion technegol. Nodir isod y prif enghreifftiau o'r goblygiadau o ran adnoddau a materion technegol, er i rai awdurdodau lleol bwysleisio bod angen rhagor o fanylion am y cynnig.

- Amser i fformatio, dilysu, croeswirio a chysoni'r data a dderbyniwyd, y byddai ei gymhlethdod yn dibynnu ar fformat y data a dderbyniwyd.
- Amser staff i ymgymryd â gweithgareddau dilynol lle y nodir PCA posibl, gan gynnwys gwaith gweinyddol a chyfraniad gan dimau awdurdodau lleol eraill (fel lles addysg). Gallai hyn gael ei waethygu pe bai niferoedd uwch o PCA yn cael eu hadnabod drwy'r gronfa ddata newydd.
- Cryfhau systemau presennol awdurdodau lleol o gofnodi data.
- Sefydlu mecanweithiau effeithiol ar gyfer gweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol pan fydd plant yn symud.

- Gweithio i sicrhau cysondeb rhwng systemau rheoli data asiantaethau presennol.

‘Byddai rheoli llwyth gwaith yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau eraill yn cynyddu, er enghraifft ymweliadau cartref, diweddaru’r gronfa ddata i sicrhau ei bod yn gyfredol, gwneud unrhyw ymholiadau ag awdurdodau eraill, anfon llythyrau ymholi at bobl y mae’r awdurdod lleol yn credu sydd wedi symud i ardal arall, ceisiadau am orchymyn mynychu'r ysgol oherwydd tystiolaeth nad yw'r plentyn yn derbyn addysg, sydd eisoes wedi cynyddu.' [Awdurdod lleol]

'Byddai'r system casglu data yn gofyn am gael bobl ar 'ddiwedd y broses' fel bod y data'n cael ei wirio'n briodol i sicrhau nad oes unrhyw anghysondebau; heb ragor o wybodaeth mae'n anodd pennu beth fyddai goblygiadau cyfnewid data blynyddol yn ei olygu o ran adnoddau ac amser.' [Awdurdod lleol]

‘Byddai angen cryfhau’r system cofnodi data ynghyd â chymorth TGCh er mwyn sefydlu hyn a byddai angen dull o brosesu a gwahanu’r disgyblion hynny y gwyddys eu bod yn yr ysgol, y rhai sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref lle y darperir addysg ddigonol, y rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, y rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion ac ati.' [Awdurdod lleol]

10.20 Nododd cwpwl o awdurdodau lleol y byddai rhifau'r GIG yn gwneud y broses yn llai heriol a llafurus i awdurdodau lleol adnabod y plant cywir.

## 11. Nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg

11.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i Gwestiynau 20 i 22 yr ymarfer ymgynghori.

**Cwestiwn 20** Yn eich barn chi, a allai unrhyw beth yn y rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig?

11.2 Fel y dangosir yn Nhabl 11.1, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y gallai elfennau o'r rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar y rhai â nodweddion gwarchodedig, ond nid oedd lleiafrif yn gwybod neu ni wnaethant ymateb. Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref oedd fwyaf tebygol o ddweud y gallai'r rheoliadau gael effaith anghymesur ar y rhai â nodweddion gwarchodedig. Awdurdodau lleol oedd y lleiaf tebygol o feddwl y gallai unrhyw beth gael effaith anghymesur.

**Tabl 11.1: Yn eich barn chi, a allai unrhyw beth yn y rheoliadau drafft gael effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig?**

| | Gallai | Na allai | Ddim yn gwybod / Dim ymateb | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref** *(yn cynnwys ymatebion dyblyg posibl, ac ymatebion o'r tu allan i Gymru)* | 169 | 3 | 57 | 229 |
| **Awdurdodau lleol** | 2 | 14 | 5 | 21 |
| **Rhanddeiliaid iechyd** | 0 | 0 | 6 | 6 |
| **Rhanddeiliaid eraill** | 5 | 2 | 14 | 21 |
| **Plant a phobl ifanc** | 7 | | 1 | 8 |
| **Cyfanswm** | 183 | 19 | 83 | 285 |

11.3 Daeth cyfanswm o 161 o ymatebion ysgrifenedig i law ar gyfer y cwestiwn hwn. At hynny, casglwyd ymatebion gan 52 o blant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn sesiynau grwpiau ffocws, saith o blant a phobl ifanc a gymerodd

ran mewn digwyddiadau rhanbarthol Llywodraeth Cymru ac 14 o blant a phobl ifanc a gymerodd ran yn arolwg ar-lein Plant yng Nghymru.

11.4 Rydym yn ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd gan y pum grŵp allweddol a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori. Roedd y materion a godwyd yn aml yn cael eu trafod gan ychydig bach o ymatebwyr, felly yn yr adran hon rydym yn adrodd yn bennaf ar y nifer absoliwt o ymatebwyr a’u cododd.

**Awdurdodau lleol**

11.5 Nododd un awdurdod lleol effaith anghymesur bosibl ar grwpiau ethnig lleiafrifol, gan fod gan ardal eu hawdurdod lleol nifer uwch o deuluoedd ethnig lleiafrifol sy'n darparu addysg ddewisol yn y cartref dewisol. Nododd un arall effaith anghymesur bosibl ar deuluoedd sy’n addysgu yn y cartref, gan nodi 'mae potensial hefyd i rai teuluoedd sy'n gwrthwynebu cael eu cynnwys ar y gronfa ddata hon gael eu gwthio ymhellach o'r golwg, gan gynnwys y rhai sy'n agored ac yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol ar hyn o bryd, er enghraifft rhai o'r teuluoedd sy'n dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref'. Nododd yr awdurdod lleol olaf hwn hefyd pe bai rhywedd yn cael ei gynnwys yn y gronfa ddata hon (er nad yw hyn yn rhan o'r cynnig ar hyn o bryd) gallai hyn gael effaith anghymesur o ran hunanarddel rhywedd.

11.6 Ni nododd pedwar awdurdod lleol effaith anghymesur benodol ond nodwyd y gallai risg o'r fath godi yn y dyfodol wrth i waith ar y gronfa ddata fynd rhagddo. Aeth dau o'r awdurdodau lleol hyn ymlaen i egluro bod yn rhaid pwyso a mesur risgiau o'r fath yn erbyn manteision posibl y gronfa ddata arfaethedig.

'Byddai'n dibynnu ar i ba raddau y byddai plant a'u rhieni â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hadnabod fel PCA yn dilyn yr ymarfer croeswirio. Ar y sail bod gan bob plentyn yr hawl i addysg addas, mae'r rheoliadau drafft hyn yn gam pellach angenrheidiol i sicrhau hynny.' [Awdurdod lleol]

'Mae hyn bob amser yn risg gyda rhannu data; y fantais yw diogelu'r plentyn, ac mae'n rhaid i ni gydbwyso hyn yn erbyn risgiau; gallai data o’r fath sicrhau dros amser, ein bod yn darparu’r gwasanaethau cywir i’r grwpiau perthnasol. Gellid defnyddio gwybodaeth ar gyfer y broses hunanwerthuso er mwyn cael effaith gadarnhaol.' [Awdurdod lleol]

11.7 Teimlai un awdurdod lleol y byddai'r cynnig yn caniatáu iddo 'fod yn fwy rhagweithiol o ran darparu cymorth ac ymyrraeth gynnar'. [Awdurdod lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd**

11.8 Ni roddodd rhanddeiliaid iechyd ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn.

**Rhanddeiliaid eraill**

11.9 Cododd rhanddeiliaid eraill yr effeithiau anghymesur posibl a ganlyn:

- Anabledd (chwe ymateb). Pwysleisiodd dau yr angen i sicrhau bod yr awdurdod lleol yn datblygu dull cynhwysol o weithio gyda theuluoedd â phlant anabl, gan gynnig cymorth priodol heb farnu. Eglurodd un sefydliad rhanddeiliaid y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y rhai ag anableddau, gan nodi bod gan blant a phobl ifanc anabl yn aml anghenion addysgol arbenigol y gall cronfa ddata sicrhau eu bod yn cael eu diwallu. Eglurodd un rhanddeiliad y byddai effaith negyddol gan fod mwy o risg i'r rhai ag ADY 'ddioddef yr holl stigma o gael eu labelu fel plant sy'n "colli addysg" - ar y sail y "gallent" fod yn colli addysg - ond heb unrhyw ddarpariaeth ychwanegol.'

- Hil (chwe ymateb) a chrefydd (dau ymateb). Nododd un rhanddeiliad ei bod yn 'rhaid i wasanaethau sy'n cynnal asesiadau neu waith monitro addysgol fod yn ddiwylliannol sensitif ac osgoi rhagfarn' a nododd un arall nad yw mynediad i addysg brif ffrwd bob amser ar gael yn hawdd i blant o rai cymunedau penodol. Eglurodd un sefydliad rhanddeiliaid y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar blant a phobl ifanc oherwydd 'mae'r risg y bydd plant yn colli addysg, a'r risg gysylltiedig o blant yn mynychu lleoliadau addysgol anghofrestredig, yn uwch ymhlith plant sy'n perthyn i rai cymunedau crefyddol'. Roedd un arall yn credu y byddai’r cynnig yn cael effaith negyddol anghymesur ar blant o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn gweithio a 'gallent gael eu rhag-gategoreiddio fel rhai sydd "o bosibl yn colli addysg" a'u cynnwys ar gronfa ddata PCA cyn gynted ag y byddai'r awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol o'u statws o ran hil neu

leiafrifoedd ethnig'. Nododd un arall hefyd effaith negyddol bosibl, gan ddweud:

'mae camarfer sylweddol o ran ffordd y gellir storio a rhannu gwybodaeth plant – yn aml yn enw diogelu ond eto mewn ffyrdd sy'n achosi niwed i blant. Mae plant du a phlant sy'n cael eu radicaleiddio, plant Mwslimaidd, plant mudol yn arbennig mewn perygl. Ceir enghreifftiau clir o hyn gyda rhannu ar draws adrannau a phrosesau'r llywodraeth, y ceir consensws arnynt.' [Rhanddeiliad iechyd arall]

- Oedran (dau ymateb). Nododd un ymatebydd y gallai'r cynnig gael effaith negyddol anghymesur ar bob plentyn, a nododd un arall y gallai effaith negyddol bosibl ar oedolion hŷn sy'n darparu gofal i wyrion ac wyresau.
- Rhyw (dau ymateb). Nododd un ymatebydd effaith gadarnhaol bosibl ar ferched o gymunedau mwy traddodiadol patriarchaidd nad ydynt efallai'n derbyn cymaint o addysg.
- Cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd a dioddefwyr trais domestig (un ymateb yr un). Nododd un rhanddeiliad fod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant LHDTC+ sydd 'yn annhebygol iawn o gael addysg rhyw a chydberthynas briodol a chynhwysol mewn amgylchedd ysgol anghofrestredig'. Nododd un arall ei bod yn bwysig i'r broses casglu data fod yn gynhwysol a chefnogi hunanarddel rhywedd.

11.10 Dywedodd un rhanddeiliad na fyddai unrhyw effaith anghymesur a gwnaeth tri sylwadau eraill. Mynegodd rhanddeiliad arall bryderon mwy cyffredinol ynghylch y diffyg ymddiriedaeth o ran y modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn trin a defnyddio data o'r fath, gan gynnwys prosesau gwael ar gyfer rhannu gwybodaeth.

**Plant a phobl ifanc**

11.11 Rhoddodd pedwar o blant a phobl ifanc ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn. Mynegodd y pedwar bryder y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol anghymesur ar deuluoedd sy'n addysgu eu plant yn y cartref, ac roedd tri yn

teimlo y byddai'n cael effaith negyddol ar y rhai â statws economaidd-gymdeithasol isel. Mynegodd dau bryder ynghylch y ffordd yr oedd yr ymgynghoriad wedi mynd i'r afael â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mynegodd dau bryder efallai na fyddai neiniau a theidiau hŷn eisiau gofalu am wyrion ac wyresau os ydynt yn bryderus am y gronfa ddata, a nododd un mai'r rheini ag anableddau fyddai'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n negyddol os ydynt yn dewis ymddieithrio o'r gwasanaethau iechyd o ganlyniad i'r cynnig ac y byddai menywod – fel prif ddarparwyr addysg yn y cartref – hefyd yn cael eu heffeithio'n negyddol.

'Rydych chi'n pigo ar deuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref oherwydd eich bod chi'n credu y gallwch wneud hynny. Does dim llawer ohonom ni ac felly rydych chi'n credu y gallwch chi wneud hynny heb i neb wrthwynebu… Rydych chi'n pigo ar bobl sydd wir angen gweld meddygon a deintyddion oherwydd bod ganddyn nhw broblemau iechyd ond sydd eisiau bod yn breifat ond nad ydyn nhw eisiau i'r cyngor botsian gyda'u haddysg neu nad ydyn nhw eisiau'r holl strach o ddelio â'r cyngor.' [Plentyn neu berson ifanc]

**Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref**

11.12 Teimlai'r ymatebwyr hyn y gallai'r cynnig gael effaith negyddol anghymesur ar y rhai â'r nodweddion gwarchodedig canlynol a nodweddion eraill: anabledd, dioddefwyr cam-drin domestig, hil, teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, oedran, rhyw a statws economaidd-gymdeithasol isel. Mae'r paragraffau canlynol yn ystyried pob un o'r pwyntiau hyn yn eu tro.

11.13 Teimlai'r ymatebwyr y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol anghymesur ar blant a phobl ifanc anabl. Eglurwyd bod y grŵp hwn yn fwy tebygol o ymgysylltu'n rheolaidd â gwasanaethau gofal iechyd, yn fwy tebygol o gael eu haddysgu y tu allan i amgylchedd ysgol ac y byddai ymddieithrio posibl o wasanaethau gofal iechyd yn cael mwy o effaith ar eu hiechyd a'u llesiant.

'Byddai plant anabl a/neu deuluoedd lle mae'r rhieni'n anabl yn amlwg yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Byddent yn cael mwy o gysylltiad â gwasanaethau gofal iechyd. A phe baent yn dewis osgoi gwasanaethau gofal iechyd am eu bod yn teimlo bod y ddeddfwriaeth hon yn rhy anfoesol ac

ymwthiol, neu pe bai'r niwed i'r berthynas o ymddiriedaeth rhwng clinigydd a chlaf yn ormod, yna nhw sydd â'r mwyaf i'w golli o ran gallu cael mynediad diogel i'r gofal iechyd sydd ei angen arnynt.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

11.14 Er nad yw'n nodwedd warchodedig, amlygwyd dioddefwyr trais domestig hefyd fel grŵp a allai brofi effaith negyddol anghymesur. Esboniodd yr ymatebwyr fod dioddefwyr trais domestig yn arbennig o agored i niwed a bod y risg o dor diogelwch data (fel rhannu manylion cyswllt â rhieni sy'n cam-drin) yn peri risg sylweddol i'w llesiant.

'Bydd y cynigion hyn yn effeithio ar ddioddefwyr trais domestig, oherwydd yr angen i gofnodi POB rhiant a gofalwr, hyd yn oed y rhai nad ydynt bellach yn ymwneud yn uniongyrchol â gofal y plentyn. Mae'r potensial ar gyfer achosion o dor diogelwch data yn enfawr, yn enwedig os yw cyn-bartner camdriniol wedi'i restru ar gofnodion plentyn ac y bydd staff yr awdurdod lleol yn cysylltu ag ef yn anfwriadol...Mae gwybod y bydd eu data'n cael eu rhannu yn debygol o wneud i ddioddefwyr trais domestig deimlo'n hynod ofidus am ymgysylltu ag unrhyw leoliad gofal iechyd.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

11.15 Teimlai'r ymatebwyr hefyd y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol anghymesur ar rai cymunedau ethnig lleiafrifol penodol, yn enwedig cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nododd ychydig o ymatebwyr y gallai rhai cymunedau ethnig eisoes wynebu rhwystrau o ran cael mynediad i addysg statudol neu wasanaethau gofal iechyd priodol.

'Mae teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr[24] yn cael eu clustnodi'n gwbl agored ac yn ddiedifar yn y cynigion hyn fel grŵp sydd dan amheuaeth, ac mae hynny'n ymfflamychol, yn wahaniaethol ac yn annerbyniol.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

11.16 Nodwyd teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref hefyd fel grŵp y gallai'r cynigion hyn gael effaith negyddol anghymesur arnynt. Nododd yr ymatebion hyn fod teuluoedd sydd wedi dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref yn haeddu cael eu hamddiffyn fel grŵp lleiafrifol a bod y cynigion yn targedu teuluoedd o'r fath yn

[24] Sipsiwn, Roma a Theithwyr

anghymesur, gan greu perygl o gyfuno PCA â phlant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref.

'Mae'r cynigion hyn yn awgrymu bod addysgwyr yn y cartref, fel grŵp lleiafrifol, yn is-grŵp israddol o'r gymuned na ellir ymddiried ynddo, drwy “gofrestru” plant fel PCA posibl/tebygol oni bai bod rhieni'n gallu dangos tystiolaeth i'r gwrthwyneb.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

11.17 Roedd yr ymatebion hefyd yn nodi effaith negyddol bosibl ar bobl o oedran penodol; nodwyd y gallai neiniau a theidiau hŷn fod yn fwy pryderus ynghylch gofalu am wyrion ac wyresau yng ngoleuni'r gronfa ddata newydd.

“Mae’n bosibl iawn y bydd aelodau hŷn o’r gymdeithas yn fwy sensitif i’r stigma o gael eu cynnwys ar gronfeydd data o’r fath ac efallai y byddant felly’n teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i ddewis rhwng parhau i ddioddef y stigma hwnnw a pha ddiben bynnag y byddai gweithiwr y cyngor yn defnyddio ei fanylion cyswllt ar ei gyfer, gan gynnwys bod yn rhan o "ymholiadau ffurfiol” o bosibl ond yn parhau i fod yn rhan o fywydau'r plant y maent yn gofalu amdanynt, neu'n osgoi ymwneud â bywydau ac addysg eu plant.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

11.18 Nodwyd hefyd bod menywod yn fwy tebygol o brofi effaith negyddol anghymesur yn sgil y cynigion, gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn brif ddarparwyr addysg yn y cartref.

'Menywod: fel arfer menywod yw prif hwyluswyr addysg yn y cartref. Nhw hefyd yw'r rhai sy'n debygol o fod fwyaf ymwybodol o effaith pethau fel rhannu data heb gydsyniad ar eu plant. Bydd yn rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd ynghylch a ydynt am gael mynediad i ofal iechyd neu beryglu'r awdurdod lleol yn ymyrryd yn eu bywyd teuluol preifat.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

11.19 Yn olaf, nododd yr ymatebwyr hefyd effaith anghymesur ar y rhai â statws economaidd-gymdeithasol isel, a allai eisoes fod yn llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau addysg statudol yn ogystal â bod yn llai abl i fforddio gofal iechyd preifat.

'Grwpiau economaidd-gymdeithasol is na allant fforddio gofal iechyd preifat ac a allai osgoi defnyddio gwasanaethau iechyd y wladwriaeth.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

**Cwestiwn 21** Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y rheoliadau drafft ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

• Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau cadarnhaol?

• Ydych chi’n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

11.20 Cafwyd cyfanswm o 161 o ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn, er bod 22 o'r rhain yn nodi nad oeddent yn gwybod sut i ymateb neu na allent roi sylwadau, neu ond wedi ymateb 'nac ydw' heb sylwadau pellach. At hynny, casglwyd ymatebion gan 52 o blant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn sesiynau grwpiau ffocws, saith o blant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn digwyddiadau rhanbarthol Llywodraeth Cymru ac 14 o blant a phobl ifanc a gymerodd ran yn arolwg ar-lein Plant yng Nghymru.

11.21 Rydym yn ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd gan y pum grŵp allweddol a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori.

**Awdurdodau lleol**

11.22 O blith y 12 awdurdod lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, teimlai eu hanner na fyddai’r cynnig yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Nododd yr hanner arall y gallai'r cynigion gael ychydig o effaith gadarnhaol os bydd y gronfa ddata yn caniatáu iddynt adnabod plant a phobl ifanc na fyddent fel arfer yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg mewn cartref di-Gymraeg; ac os felly gallai'r awdurdod lleol eu cyfeirio at adnoddau Cymraeg.

'Bydd y rheoliadau drafft yn galluogi ALlau i adnabod dysgwyr, nad ydynt o reidrwydd yn dod o deuluoedd Cymraeg eu hiaith, i gael rhyw lefel o addysg Gymraeg a lleihau'r annhegwch gyda'r rhai sy'n cael eu haddysgu mewn addysg brif ffrwd. Byddai hyn yn caniatáu i adnoddau fod ar gael i gynorthwyo rhieni sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref. Yn yr un modd, cynorthwyo'r

rhai o deuluoedd Cymraeg eu hiaith i gael cefnogaeth gan yr ALl a dewis y Gymraeg fel opsiwn dichonadwy ar gyfer addysg eu plant.' [Awdurdod lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd eraill**

11.23 Dim ond un bwrdd iechyd a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, gan nodi bod 'Saesneg yn cael ei defnyddio'n eang ac yn gyffredinol mai dyma'r iaith a ffefrir o ran cyfathrebu rhwng llawer o fyrddau iechyd ac adrannau ALl, fodd bynnag, byddai opsiwn i gael mynediad i'r gronfa ddata yn Gymraeg yn atal gwahaniaethu.' [Bwrdd iechyd lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd eraill**

11.24 Ymatebodd naw rhanddeiliad arall i'r cwestiwn hwn. Nododd tri na fyddai'r rheoliadau'n cael fawr o effaith, os o gwbl, ar y Gymraeg, er i un fynd ymlaen i adleisio pwyntiau awdurdodau lleol ynglŷn â'r potensial i adnabod plant a allai elwa o gael eu cyfeirio at adnoddau Cymraeg. Teimlai dau randdeiliad arall hefyd y gallai fod rhywfaint o effaith gadarnhaol ar y Gymraeg os oes risg bod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg angenrheidiol ar gyfer PCA.

'Dw i ddim yn credu bod gan blant sydd erioed wedi mynychu addysg, neu sydd wedi tynnu'n ôl o addysg, sgiliau Cymraeg yn aml. Mae eu trochi yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar yn rhoi gwybodaeth greiddiol am eirfa i blant ifanc ac adeiledir ar y sgiliau hyn drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Heb y wybodaeth sylfaenol yn yr iaith Gymraeg, mae PCA dan anfantais gan eu bod yn colli allan ar yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio yn y cwricwlwm a gynigir i blant ac os nad yw hyn yn bresennol mewn addysg 'addas' a gynigir gan rieni, yna mae plentyn mewn perygl o gael problemau addysgol yn y dyfodol a'i ynysu o fewn y gymuned leol.' [Rhanddeiliad addysg]

11.25 Nododd pedwar rhanddeiliad bwysigrwydd sicrhau bod y rheoliadau, y gronfa ddata a'r prosesau cysylltiedig (gan gynnwys y broses o asesu a yw addysg effeithiol yn cael ei darparu) yn ddwyieithog ac yn rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg. Yn gyffredinol, nid oedd y rhanddeiliaid hyn yn rhagweld y byddai'r rheoliadau'n cael unrhyw effaith ehangach ar y Gymraeg.

'Byddai angen i'r gronfa ddata fod yn ddwyieithog er mwyn galluogi pobl i weithio yn eu dewis iaith. Bydd angen i'r ddogfen rheoliadau fod ar gael yn

Gymraeg hefyd, ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sy'n rhai cyfrwng Cymraeg yn bennaf, a bydd hyn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.' [Rhanddeiliad addysg]

11.26 Teimlai un rhanddeiliad y byddai’r rheoliadau’n cael effaith negyddol ar y Gymraeg drwy weithredu fel rhwystr i deuluoedd rhag cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (pwynt a godwyd hefyd gan y gymuned addysg yn y cartref ac a drafodir ymhellach isod).

**Plant a phobl ifanc**

11.27 Yn ystod trafodaethau’r grwpiau ffocws, cytunodd 52 o blant a phobl ifanc, cyn belled â bod darpariaeth Gymraeg yn cael ei chynnig a’i bod yn opsiwn i blant, na fyddai’r rheoliadau’n cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

11.28 Rhoddodd pedwar o blant a phobl ifanc ymateb ysgrifenedig i’r cwestiwn hwn. Mynegodd y pedwar bryder y byddai’r rheoliadau’n cael effaith negyddol ar y Gymraeg drwy ei gwneud yn fwy tebygol y byddai plant a phobl ifanc yn ymddieithrio o wasanaethau cyhoeddus sy’n cynnig cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg ac o bosibl yn mudo allan o Gymru.

**Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref**

11.29 Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion i’r cwestiwn hwn yn ymatebion gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref, gan gynnwys ymatebion ymgyrch. Roedd mwyafrif yr ymatebion gan y garfan hon yn nodi y byddai’r rheoliadau yn atal teuluoedd rhag ymgysylltu â gwasanaethau statudol, gan gynnwys rhag cael mynediad i adnoddau a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn hefyd yn cynnwys atal teuluoedd rhag aros yng Nghymru os nad ydynt yn teimlo bod eu hawliau’n cael eu parchu, gan ei gwneud yn anos iddynt gael mynediad i gymorth cyfrwng Cymraeg. O’r herwydd, teimlai’r teuluoedd hyn y byddai’r rheoliadau’n cael effaith negyddol ar y Gymraeg.

'Mae canllawiau Cymru 2023 ar addysg yn y cartref eisoes wedi gwneud addysgwyr yn y cartref yn fwy gwyliadwrus ac amheus o awdurdodau lleol, gan fynegi llai o awydd neu fwriad i ymgysylltu ag ALlau y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol. Byddai deddfwriaeth ddiangen yn gwaethygu hyn ymhellach, byddai addysgwyr yn y cartref yn llai tebygol o gymryd rhan mewn unrhyw

gynigion gan yr ALl o ddosbarthiadau neu adnoddau sy'n hybu dysgu Cymraeg fel ail iaith.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

11.30 Cododd ychydig bach o ymatebion y pwyntiau canlynol hefyd:

- datganiadau cyffredinol neu eang y byddai'r rheoliadau'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg
- na fyddai unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg
- nad yw'r Gymraeg yn flaenoriaeth gan fod pryderon mwy i fynd i'r afael â nhw o ran y cynigion
- ei bod yn annheg gorfodi'r Gymraeg ar deuluoedd nad ydynt yn dymuno ei haddysgu
- opsiynau amgen ar gyfer gwella cymorth ar gyfer y Gymraeg

'Dim ond effeithiau andwyol a gaiff yn fy marn i.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

'Dydw i ddim yn credu y byddai hyn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Yn y rhan fwyaf o gymunedau, does dim cyfleoedd i addysgwyr yn y cartref gael mynediad i weithgareddau addysg Gymraeg yn y cartref. Er bod adnoddau ar gael ar-lein. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynglŷn â chynyddu'r Gymraeg ymhlith y gymuned AU yna dylai ymgysylltu o ddifrif â'r gymuned a dod ag addysgwyr yn y cartref sy'n gefnogol i'r iaith o dan gylch gwaith y Mentrau Iaith.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

**Cwestiwn 22** Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y rheoliadau drafft er mwyn sicrhau:

• eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg a

• nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

11.31 Derbyniwyd cyfanswm o 144 o ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn, er i 28 o'r rhain nodi na allent ateb y cwestiwn neu gyfeirio at eu hymatebion blaenorol i Gwestiwn 21. Rydym yn ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd gan y pum grŵp allweddol a gyfrannodd at yr ymarfer ymgynghori.

**Awdurdodau lleol**

11.32 Nododd tri awdurdod lleol na fyddai'r rheoliadau yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg ac eglurodd pedwar sut y gellid llunio'r rheoliadau i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Nododd dau yr angen i sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn ddwyieithog a chynigiodd dau y gellid defnyddio'r broses casglu data i gefnogi mynediad i adnoddau Cymraeg mewn modd cadarnhaol.

'Wrth gasglu'r wybodaeth o fewn y rheoliadau drafft, dylai'r ALl wneud profiad y rhieni yn un cadarnhaol, drwy gynnig cefnogaeth, arweiniad ac adnoddau Cymraeg i rieni pan fyddant yn addysgu yn y cartref.' [Awdurdod lleol]

**Rhanddeiliaid iechyd eraill**

11.33 Ymatebodd un bwrdd iechyd i'r cwestiwn hwn, gan nodi 'byddai cael opsiwn i gael mynediad i'r gronfa ddata yn Gymraeg yn atal gwahaniaethu'.

**Rhanddeiliaid iechyd eraill**

11.34 Dywedodd dau randdeiliad arall na ellid gwneud unrhyw newidiadau penodol i'r rheoliadau er mwyn cael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg, a nododd un fod yn rhaid i ddogfennaeth fod yn ddwyieithog. Pwysleisiodd dau fod yn rhaid cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddrafftio'r rheoliadau a'r prosesau cysylltiedig.

'Sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion astudio'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu hystyried wrth nodi a yw addysg yn 'effeithiol' ai peidio. Ni ddylai derbyn addysg yn y cartref fod yn ffordd o osgoi dysgu'r Gymraeg.' [Rhanddeiliad addysg].

**Plant a phobl ifanc**

11.35 O blith y pedwar plentyn a pherson ifanc a roddodd sylwadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, dywedodd tri na ellir lliniaru'r effeithiau negyddol ac adleisiodd tri bwyntiau blaenorol ynghylch y tebygolrwydd y byddent yn mudo o Gymru.

**Unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref**

11.36 Derbyniwyd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn gan y garfan hon ac roeddent yn cynnwys ymatebion ymgyrch. Ymatebodd ychydig bach o'r rhain

gydag ymateb byr - 'na fyddai' neu 'dim' - heb ymhelaethu ymhellach. Fodd bynnag, dadleuodd llawer na ellir lliniaru effeithiau negyddol cyffredinol y rheoliadau (nad ydynt wedi'u cyfyngu'n benodol i'r Gymraeg) ac y dylid rhoi'r gorau i'r cynigion.

'Ni ellir lliniaru unrhyw un o effeithiau negyddol allweddol y cynigion hyn, gan gynnwys yr effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Yr unig opsiwn sydd ar gael yw rhoi'r gorau i'r cynigion hyn cyn iddynt achosi mwy fyth o niwed a mabwysiadu dull cwbl wahanol, sy'n llai gelyniaethus ac yn fwy parchus tuag at addysg yn y cartref.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

11.37 Manteisiodd ychydig bach o ymatebwyr ar y cyfle hwn i adleisio pryderon a godwyd yng Nghwestiwn 21 am y potensial i deuluoedd ymddieithrio o wasanaethau statudol sy'n cynnig mynediad at adnoddau a chymorth cyfrwng Cymraeg.

11.38 Fe wnaeth ychydig bach o ymatebwyr hefyd awgrymiadau ynglŷn â sut i gefnogi'r Gymraeg yn well, er bod y rhain yn bennaf yn anghytuno â'r cynigion yn gyffredinol.

'Drwy sicrhau bod dosbarthiadau ar gael i bawb, yn enwedig fel uned deuluol, bydd pobl yn manteisio ar hynny ac yn siarad yr iaith gyda'i gilydd.' [Unigolyn / Addysgwr yn y cartref]

## 12. Materion eraill a godwyd

12.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys dadansoddiad o unrhyw themâu neu faterion a godwyd a oedd y tu hwnt i gylch gorchwyl uniongyrchol cwestiynau'r ymgynghoriad (Cwestiwn 23).

**Cwestiwn 23 Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.**

12.2 Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion a ddaeth i law ar gyfer y cwestiwn hwn gan unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref yn ategu eu gwrthwynebiad i'r cynnig ac yn gwneud yr un pwyntiau ag a ystyriwyd mewn cwestiynau blaenorol.

12.3 Cododd unigolion, addysgwyr yn y cartref a grwpiau addysg yn y cartref hefyd bwyntiau penodol yn ymwneud â'r broses ymgynghori ei hun gan gynnwys y ffaith nad oedd 'fersiwn cyfeillgar i blant o'r ymgynghoriad hwn' ar gael tan yn hwyr iawn yn y dydd, bod y 'broses ymgynghori yn ddiffygiol gan fod gwybodaeth sylweddol ar goll' o'r dogfennau ymgynghori, ac na roddwyd unrhyw ystyriaeth i 'gostau a buddion' tebygol y cynnig.

12.4 Roedd pwyntiau penodol eraill a wnaed gan weddill y cyfranwyr yn ymwneud â:

- yr angen i gyfrifo'r costau sy'n deillio o'r cynigion, a'r cyfle i wneud hynny wrth dreialu'r gronfa ddata arfaethedig:

  'Ar adeg pan fo cyllidebau awdurdodau lleol dan bwysau difrifol, mae'n siomedig na wnaed unrhyw ymdrech i nodi costau'r cynigion ar gyfer yr Asesiad Effaith Integredig (IIA) cysylltiedig, er bod yr IIA ei hun yn cydnabod bod goblygiadau ariannol a llwyth gwaith posibl i awdurdodau. [Awdurdod lleol]

- y posibilrwydd o opsiynau amgen, megis ymgymryd â'r dasg ar lefel genedlaethol, drwy gronfa ddata genedlaethol:

  'O ystyried bod y llywodraeth ganolog eisoes yn derbyn data CYBLD ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn flynyddol gan bob ALl, a ystyriwyd rhoi holl ddata BILlau i'r Llywodraeth Ganolog a chynnal ymarfer

croeswirio yn erbyn eu data presennol, cyn rhoi rhestr o 'PCA posibl' i bob ALl er mwyn cynnal rhagor o wiriadau?' [Awdurdod lleol]

'Mae hefyd yn siomedig nad yw'r gronfa ddata yn cwmpasu Cymru gyfan. Nid yw hyn yn caniatáu cofnodi plant sy'n symud rhwng awdurdodau lleol neu rhwng Cymru a Lloegr.' [Grŵp plant a theuluoedd]

- yr angen am fwy o ganllawiau i awdurdodau lleol megis templed adrodd ar gyfer awdurdodau lleol, cyngor ar brosesau monitro ac adolygu, a chanllawiau pan na ellir paru data,

'Mae cyfle i Lywodraeth Cymru ddarparu templed i bob awdurdod i sicrhau cysondeb o ran adborth a datganiadau blynyddol i lywodraeth Cymru gan gynorthwyo'r broses o roi adborth cyson i bob awdurdod lleol.' [Awdurdod lleol]

'Nid yw'n glir o'r ymgynghoriad os a sut y bydd y gronfa ddata yn cael ei monitro a'i hadolygu. Dylai'r rheoliadau nodi proses adolygu glir gydag amserlenni ynghlwm wrthi.' [Grŵp plant a theuluoedd]

'Mae'n bosibl y gellid cryfhau'r bil drafft drwy amlinellu'r protocol i awdurdodau lleol ei ddilyn pan na allant baru'r data a ddarperir gan BILlau â'u data eu hunain.' [Rhanddeiliad addysg]